

LLYFR...

---

GLOYWI CYMRAEG.

---



GAN Y

PARCH. R. S. ROGERS, B.A.

LLYFR  
GLOYWI CYMRAEG

GAN Y

PARCH. R. S. ROGERS, B.A.,

ABERTAWE.

AWDUR "Y DEYRNAS A'R AIL-DDYFODIAD."

©

GWRECSAM :

HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWYR.

—  
1920.



## RHAGAIR.



**O** BRYD i bryd yn *Seren Cymru*, ceisiais ateb gofyniadau'r darllenwyr oedd am ddysgu'n fanylach ddeddfau gramadeg yr Iaith Gymraeg. Bu'r gwaith yn fwynhâd mawr i mi, a diolchwyd i mi droeon am f'ysgrifau. Cynnwys Colofn Gloywi Cymraeg yw'r llyfr hwn. Gwelir i mi gadw'r ffurf holi ac ateb mewn llawer pennod. Dichon y bydd y termau gramadeg yn dramgwydd i ychydig, a byddai'n dda gennyf petawn wedi llwyddo i draethu'n fwy diddorol ar bwnc mor bwysig. Ni fynnwn gredu bod y gwaith hwn yn berffaith, ond credaf yr ategir y cwbl ymron gan y sawl a wŷyr ddim am hanes a rheolau'r iaith. Ychwanegais bonnod fer ar yr Orgraff Newydd er mwyn y neb a ddybio nad yw honno yn ddim mwy na defnyddio *awdwr* yn lle *awdwr*. Rhoddais yr enghreifftiau gan mwyaf yn iaith y seiat, gan hyderu y bydd yn haws cofio gwers mewn adnod.

Bu Syr John Morris Jones, M.A., mor garedig â darllen y profenni, ac ni byddai'r llyfr mor gyflawn a chywir oni bai am ei gymorth gwerthfawr. Ychwanegir yn fawr at ddyled y genedl i'r Athro dysgedig pan gyhoeddir ei ramadeg newydd. Gobeithiaf y bydd i'r hyn a geir yma symbylu'n llenorion ifainc i'w perffoithio'u hunain yn y gamp glodfawr o sgrifennu Cymraeg graenus a phur.

R. S. ROGERS.

ABERTAWE,

*Gorffennaf*, 1920.

# CYNNWYS.

©

	TUD.
I.—CYMRAEG HEDDYW .. .. .	9
II.—YR ORGRAFF .. .. .	13
1.—Yr Orgraff Newydd.	
2.—Yr Wyddor.	
3.—Llafariaid Hir a Byr.	
4.—Dyblu'r Cydseiniaid.	
5.—Yr H.	
6.—Y Blaenddodiaid—	
(a) An.	
(b) Di a Dy.	
7.—Newid Llafariaid.	
8.—Cywiro Geiriau.	
9.—Sillgolli.	
III.—Y TREIGLIADAU .. .. .	42
1.—Rh ac Ll.	
2.—Yn.	
3.—Bod.	
4.—Rhifnodau.	
5.—Enw fel Rhagferf.	
6.—Manion.	
IV.—Y FANNOD .. .. .	53
V.—ENWAU .. .. .	56
1.—Rhif.	
2.—Cenedl.	
VI.—ANSODDEIRIAU .. .. .	61
1.—Rhif.	
2.—Cenedl.	
3.—Graddau Cymhariaeth.	

## VII.—RHAGENWAU .. .. . 65

1.—Y Rhagenw Personol Mewnol (*Infixed*).

(a) Y Cyflwr Meddiannol.

(b) Gwrthrych y Ferf.

2.—Y Rhagenw Perthynol—

(a) Gadael y Rhagenw allan.

(b) Camddefnyddio *ag*.

(c) Yr ymadrodd *y sydd*.

(d) Yr hwn, yr hon, &c., o'u lle.

(e) Camddefnyddio *pa*.

3.—Y Rhagenw Dangosol.

4.—Y Rhagenw Amhenodol.

(a) Amryw.

(b) Oll.

## VIII.—Y FERF .. .. . 76

1.—Bod.

(a) Gwahaniaethu rhwng mae, oes, yw, sydd.

(b) Sydd ac ydynt.

2.—Trydydd Person Unigol Amser Presennol y Ferf  
Reolaidd.

3.—Y Ffurf Amhersonol.

4.—Yr Amser Amherffaith.

5.—Yr Amser Gorberffaith.

6.—Adnabod ac Adwaen.

7.—Gwneuthur a Dywedyd.

8.—Eb, Ebe, Ebr.

9.—Dwg a Dug.

10.—Y Modd Dibynnol.

11.—Y Berf Enw.

12.—*I* ac *U* ar ddiwedd berfenwau

13.—Cael.

	TUD.
IX.—YR ARDDODIAID .. .. .	94
(a) Gyda(g) ac A(g).	
(b) Er ac Oddiar.	
(c) Mewn ac Yn.	
X.—CYSTRAWEN .. .. .	97
1.—Trefn Geiriau mewn Brawddegau.	
2.—Y Ferf a'r Gweithredydd.	
3.—Y Cyflwr Dibynnol.	
4.—Gohirio'r Gwrthrych.	
5.—Gartref ac Adref.	
6.—I o flaen Berfenw.	
7.—I ar ol Berfenw.	
8.—Pan.	
9.—Negyddu Ymadrodd Enwol.	
10.—Pe ac O(s).	
11.—Yr Ymadrodd Annibynnol.	
XI.—MANION .. .. .	113
ATODIAD .. .. .	121
Ffurf y Trydydd Person Unigol Amser Presennol y Fer.	
GEIRFA .. .. .	125

# LLYFR

## GLOYWI CYMRAEG.

---

### I.

#### CYMRAEG HEDDYW.

RHODDIR sylw deublyg i'r Gymraeg heddyw. Ar y naill law ymdrechir ei chadw yn iaith gwerin Cymru, ac ar y llaw arall ceisir ei gwaredu rhag elfennau a ddifwyna 'i horgraff a'i chystrawen. Rhydd amryw bapurau Cymraeg golofn at wasanaeth y "gloywi," a chaiff ein llenorion ifainc gyfarwyddyd a chyfle i sgrifennu'n gywir a glân.

Gwelir gwell graen ar yr hen fam-iaith annwyl yn fuan. Enillir ni'n raddol i sgrifennu'n syml ac yn firain, ac i osgoi ffurfiau trwsogl a chwmpasog. "Y cyfieithiadau a gawsant eu gwneuthur," ebe rhywun yn ddiweddar, pryd y byddai "y cyfieithiadau a wnaed" yn cyfleu ei feddwl mewn grymusach ymadrodd. "Yr oedd y gweision yn cael edrych i lawr arnynt," ebe arall, yn lle dywedyd yn syml, "diystyrid y gweision." Wele enghreifftiau eraill o'r dull cwmpasog o sgrifennu,— "Y mae ei ddatblygiad wedi bod yn fwy graddol nag eiddo Ioan." Paham na ddywedid "bu ei ddatblygiad," &c., neu "datblygodd yn fwy," &c. Eto, "rhaid dyddio cychwyniad ei boblogrwydd cyn ei fynediad i'r coleg." O droi'r frawddeg athrylithgar hon i'r Gymraeg, byddai'n debig i hyn,— "yr oedd yn boblogaidd cyn iddo fynd i'r coleg." Y mae "rhaid dyddio cychwyniad" yn wir arswydus. Saesneg rhonc yw'r



frawddeg ddilynol,—“pechodd Israel mewn myned ar ol duwiau dieithr.” Prin y mae eisiau rhoddi'r gwreiddiol, “Israel sinned in going after strange gods.” Wele enghraifft odidog o Saesneg mewn diwyg Gymreig,—“Dywedodd Will Crooks yn y cyfarfod hwnnw yn y Guild Hall iddo fod mewn cynadleddau yn yr Almaen, ac y mae'n cydnabod yn rhwydd iddo *gael ei wneuthur.*” Gellid tybied mai yn yr Almaen y gwnaed annelwig ddefnydd Mr. Will Crooks. Eithr nid yw'r ymadrodd ond dull gwerin y gŵr parchus hwnnw o fynegi ei dwyllo gan yr Ellmyn. Wele ddarn arall llawn cystal,—“Yr anghyfiawnder,—yr ydwyf yn siarad yn agored,—yr ydym yn ei gyflawni, bydd inni *ei wneud yn dda.*” Canghellor yr Almaen biau'r geiriau, fel y gwelir ar unwaith. Yn anffodus, “gwneuthant” eu hanghyfiawnder yn rhy dda, eithr a bod yn deg â'r Canghellor, addo iawn i Belgium yr oedd am y “drespas.” “We shall make good the injustice,” oedd o flaen llygaid y Cymro, a chyfieithodd y llythyren yn hytrach na'i synnwyr. Penderfynodd rhyw gwrdd adran yn ddiweddar “wneuthur taer apeliad” at ynadon y gymdogaeth. Byddai'n well ei gadw yn ei ffurf briod,—“it was resolved to make a strong appeal,” pe na ellid dywedyd yn syml, “apeliô'n daer.” Y mae camdrin dybryd ar y frawddeg “cymeryd lle.” (Cymryd yw'r gair priodol). “Y mae deg pwyllgor wedi cymeryd lle,” ebe ysgrifennydd eisteddfod Cwmheble. Beth sydd o'i le ar “cyfarfu'r pwyllgor ddengwaith”? Dywedir wrth gyhoeddi cynhebrwng,—“cymer yr angladd le,” neu wrth gyhoeddi damwain, “cymerodd damwain le.” Y mae'n hawdd osgoi cyfieithu “take place” yn llythrennol, drwy ddefnyddio “bydd” neu “bu” neu “digwyddodd.” “Ac yn ddisymwth bu daeargryn mawr” (Act. 16, 26). Tybia llawer y gallant ragori ar

y ffurf rymus hon drwy ddywedyd, “ac yn ddisymwth cymerodd daeargryn mawr le.” Y mae geiriau trystfawr mor annymunol a brawddegau cwmpasog, a threth ar lygad yw edrych ar eiriolaethol, mawreddogrwydd, eithriadoldeb, enghreifftioli, gwynfydedigrwydd, &c. Dyfynnwn adroddiad gohebydd o gwrdd darlith,—“Yr oedd G. yn ei afaith hapusaf, a phrofodd ei athrylith mewn craffter a delfryd elfenau gwahanredol y ddyheuad-aeth Gymreig mewn mynegiaeth fydryddol, gain ac angherddol, eto ddifyr. Rhaid yw i'r anianawd Gymreig ddatblygu yn y fath awyrgylch gydnaws gynhyrcha rhaglen fyw y gymdeithas hon, gyda'r llywydd a'r ysgrifennydd pybyr.” Cydnebydd y golygydd yn ostyngedig fod yn y paragraff bethau nad ydyw'n eu deall. Dylid bod yn syml ar air a brawddeg.

Ni ellir achwyn llawer pan gofir bod amryw lenorion heddyw yn sylfaenu eu sillafiaeth a'u harddull ar lyfrau fel yr Ysgrifell Gymreig a gyhoeddwyd flynyddoedd yn ol gan Tegai. Ymhlith gwallau tybiedig eraill a geir ym Meibl Peter Williams, noda'r Ysgrifell y canlynol,—*capten* yn lle *cadben*, *diben* yn lle *dyben*, *paratoi* yn lle *paroi*. Ceir gweled mai *diben* a *paratoi* sy'n gywir ac mai *cwacyddiaeth* ddiystyr sy'n cyfrif am *dyben* a *paroi*. Y mae *cadben* yr un mor anhyfryd. Glyner wrth *capten* er gwaethaf pob ysgrifell a awgrymo'n wahanol.

Dywed ymhellach fod “ychain” yn well nag “ychen.” Y gwrthwyneb sy'n gywir, fel y gwelir oddiwrt h odlau'r hen feirdd. Yn gymharol ddiweddar y daeth ychain i fri. Ysgrifenner ychen a Rhydychen. “Pum iau o ychen” (nid ychain) a ddylai fod yn Luc 14, 19, a “gwerthu ychen” (nid ychain) yn Ioan 2, 14.

Cymeradwya “hyd yn nod” yn hytrach na “hyd yn oed,” a’r eglurhad yw bod “rhyw nod gan y cyntaf i gyfeirio ato, nid oes dim yn yr ail.” Yn wyneb yr esboniad hwn byddai “hyd y nod,”—ffurf a welir ambell waith,—yn well byth. Y mae “gwell” neu “ddim cystal” yn bosibl ynglŷn â llawer gair neu ddull ymadrodd, ond ynglŷn ag ymadroddion fel “hyd yn oed,” y mae glynu wrth hyd yn nod, neu hyd y nod, mor fympwyol a gwaith rhywun yn ddiweddar yn gweiddi “dyddorol i mi.” Erys yn ffaith mai “diddorol” a “hyd yn oed” sy’n gywir, pa faint bynnag o raff a rydd dynion i’w dychymyg.

Dywed y llyfryn bychan hwn fod darllen yn well na darllain, anghen yn well nag angen, gwyneb angel yn well nag wyneb angel, can gynted yn well na cyn gynted, dyg yn well na dug, &c. Sylwir eto ar y pwyntiau hyn. Trais yw’r *h* yn anghen, a’r *g* yn gwyneb. Ysgrifenner angen ac wyneb. Wele wyneb ar ol y rhagenw personol, meddiannol.

Fy wyneb	ein hwyneb.
Dy wyneb	eich wyneb.
Ei wyneb ( <i>his</i> )	eu hwyneb.
Ei hwyneb ( <i>her</i> )	

Nid yw dyg yn bosibl o dan unrhyw amgylchiad. “Dwg” yw *he brings*; “dug,” *he brought*. Anhrefn o’r mwyaf yw can gynted. Peidier byth â’i ddefnyddio. “Cyn gynted” yn unig sy’n gywir. Erys “darllen” bellach yn yr iaith, ond gair a wnaed yn ddiweddar ydyw. Darllein a darllain yw’r hen ffurfiau.

## II.

### YR ORGRAFF.



#### 1.—YR ORGRAFF NEWYDD.

DEALLER ar unwaith nad priodol mo'r teitl uchod i ddisgrifio'r orgraff a gefnogir yn y llyfr hwn. Fe'i defnyddir am mai dyna'r enw y gelwir hi arno'n gyffredin. Mewn llawer enghraifft y mae'n golygu glynw wrth yr hen orgraff lle mae honno heddyw wedi'i hanffurfio a'i handwyo gan ddiffyg synnwyr hanes a chan ddiffyg ffyddlondeb i deithi'r iaith. Dyna'r gair *bore* a ddaw'n esmwyth inni pan ddywedwn bore da, neu'r gair *godre*, nad oes ffurf fwy naturiol ar ein tafod pan soniwn am odre'r mynydd neu odre'r cwmwl. Yr un ffurf a geir arnynt mewn Hen Gymraeg, a gofyn yr Orgraff Newydd inni ymwrthod â ffurfiau dieithr, megis borau a boreu. Ar y llaw arall, nid yw sgrifennu *brenhin*, er enghraifft bum neu chwe chan mlynedd yn ol, pan gynhenid yr *h*, yn rheswm o gwbl dros osod yr *h* yn y gair heddyw a neb yn ei swnio.

Deilliodd nifer mawr o eiriau Cymraeg o'r Lladin, a deilliodd nifer mwy yn uniongyrchol o'r gwreidddeiriau a orwedd y tu ol i'r Gymraeg a'r Lladin. Llywodraethwyd y newid a fu ar y cydseiniaid a'r llafariaid o bryd i bryd gan ddeddfau nad oedd iddynt ond ychydig o eithriadau. Er enghraifft, trodd yr *o* hir yn y Lladin yn *u* yn y Gymraeg, megis addurno (Llad., adorno), pechadur (Llad., peccatorem), dolur (Llad., dolorem), urdd (Llad., ordo), ffurf (Llad., forma), &c. Yn unol

â'r ddeddf, dylid wrth corun (Llad., corona), eithr am ryw reswm neu 'i gilydd, fe sgrifennir coryn. Dylid hefyd wrth testun (Llad., testimonium), ond fe'i trowyd yntau'n testyn. Edrycher ar enghraifft arall. Y mae'r *u* hir yn y Lladin yn aros yn *u* yn y Gymraeg, megis astrus (Llad., abstrusus), astud (Llad., astutus), cymun (Llad., communio). Yn unol â'r gofyn, dylid wrth ysgrythur, gan ei fod yn deillio o'r Llad. scriptura, ond fe'i camsillefir yn ysgrythyr gan fwyafrif ysgrifenwyr Cymraeg.

Treiglwyd llythrennau o gyfnod i gyfnod yn unol ag egwyddorion sydd yn weddol amlwg a dealladwy. Er enghraifft, pan ddigwyddai *dd* ddyfod ar ol *l*, *n*, ac *r*, neu o flaen *l* ac *r*, fe'i troid i'r sain galed *d*. Y mae gormod o hyd yn gormodd mewn rhannau o Sir Gaerfyrddin. Daeth machlud o'r ffurf gynharach ymachludd. Eithr fe ddiystyrir un o ddeddfau datblygiad yr iaith pan ddywedir gweddrod yn lle gwedrod a bodlon yn lle bodlon. (P'un a geir y deheuwr i ddywedyd bodlon a gwedrod ai peidio, sy bwnc arall).

Newidiwyd ambell air gan rywrai'n gymharol ddiweddar i'w gysoni o ran ei ffurf â geiriau eraill y tybid ei fod yn perthyn iddynt. Dyna'r gair *glaw*: Ni cheir ond hynny mewn Hen Gymraeg, ac ni ddywed neb, heb iddo fynd o'i ffordd, ond *glaw* heddyw. Eithr gan fod y *glaw* yn perthyn o ran ei natur i *gwlybaniaeth* ac yn peri i ddynion *wlychu* neu fod yn *wlyb*, barnodd rhywrai y dylid dywedyd *gwlaw*. Gwnaed yr un modd â'r gair *Iddew*. Dywedodd rhywun wrthyf nad oedd yn cydfynd â thorri pen yr *Iddew*. Bwriai y dylid cadw'r *u* ac ysgrifennu *Iuddew*. Eithr i bwrpas llenyddiaeth Gymraeg ni bu ganddo ben o gwbl, chwedl y brawd, a pha Gymro heddyw a ddywed I-u-ddew. Y

mae'r *iu* yn y Lladin yn troi'n *i* yn y Gymraeg, fel yn yr hen air isgell (*soup*) o *iuscellum*, a gresyn na chedwid ffurf fel Iddas yn lle'r gair Saesneg Judas a'r gair Suddas a luniwyd o hono.

Yn awr, beth yw amcan yr Orgraff Newydd ac inni dderbyn y term am y tro? Amcan yr Orgraff Newydd yw mynd y tu ol i'r tyfiannau anhrefnus a diweddar hyn a chywiro'r torri a fu ar ddeddfau'r iaith. Nid orgraff newydd mohoni, ond cynnig i buro'r hen oddiwrth eiriau mympwy a ffurfiau gau a chwanegwyd ati gan goegddysg ddiweddarach. Cais lunio'r iaith wrth egwyddorion ieithyddiaeth Gymraeg, gan roi inni ffurfiau sydd yn fwy ffyddlon i draddodiad llenyddol yr iaith ac i ymadrodd gwerin y dyddiau hyn. Nid yw chwaith yn adfer yr hen ddulliau ond lle bo iaith fyw heddyw yn galw arnynt o'u beddau ac yn eu hatgyfodi i ddymchwelyd twyll-eiriau sillafwyr di-ddysg a di-ddawn.

I ba raddau y mae hyn yn bosibl ac yn werth y drafferth bob amser sy bwnc astrus. Ymddengys fel pe daethai rhai ffurfiau i aros. Dyna'r gair *bodlon* y cyfeiriwyd ato. Nid oes unrhyw betrusder yn y byd nad hi yw'r ffurf lenyddol gywir, modd y ceir hi gan Ddafydd ab Gwilym,—

“O buost, riain feinir,  
Fodlon ym dan *fedwlwyn* ir.”

Eithr erbyn hyn troes ynbòlon yn y Deheudir, ac anodd gan Ddeheuwr adfer y *d*. A dyna gynffon yr arddodiad. Gŵyr y neb a ddarllenodd ei Fabinogi mai *unt* ydyw mewn Hen Gymraeg, megis atunt, wrthunt, arnunt, &c. O'u camarwain, ysgrifennwyd atynt, wrthynt, arnynt, &c., gan ysgrifenwyr Cymraeg y tair canrif ddiweddaf. Beth a wneir â'r gynffon hon? Prin y tybia llawer fod galw arnom i ymfino'n ei chylch. Bydd petruso

hefyd rhwng heddiw a heddyw, dywedyd a dywedud, cynnig a chynnyg, tebig a tebyg, perigl a perygl. Gall fod ambell air a sillaf arall â'u ffurf arferedig anghywir yn gwrthod ildio i'r ffurf lenyddol gywir, a pharod yw rhai i ddadleu nas dylent. Y mae iddynt eu lle, meddir, oherwydd hir arfer arnynt.

Ac eithrio ychydig o fân anawsterau, y mae'r Orgraff Newydd eisoes wedi safoni a sefydlogi'r iaith i gryn fesur. Hyd yn ddiweddar, cywirai'r naill ŵr Gymraeg y llall yn unol â'i dyb ei hun nad oedd iddo ystyr yn fynych nac yng ngoleuni datblygiad yr iaith na'r arfer sydd arni heddyw. O dipyn i beth ymwrthyd Cymru lenyddol ag ysbryd talaith ar y pwnc, ac anghofia dynion eu mympwyon personol. Y mae'r orgraff yn llawer mwy unffurf nag ydoedd hyd yn oed ddeng mlynedd yn ol. Lle bu gan swyddfa argraffu ei horgraff ei hun neu 'i diffyg orgraff, mabwysiedir yn raddol y ffordd newydd o sillafu. Fe'i harferir yn ein Hysgolion Sir, ac fe'i dilynir â graddau gwahanol o gywirdeb gan awduron llyfrau Cymraeg. Fe'i mabwysiedir yn gyflym gan ieithwyr a llenorion blaenaf y genedl. Ni fentir anfon nac awdl na phryddest i Eisteddfod heb ryw gymaint o graff arni. Bu cyhoeddi geiriadur newydd Spurrell, a'r Parch. J. Bodvan Anwyl yn olygydd arno, yn hwylustod mawr iddi, ac er y digwydd ynddo ar dro y ffurf anghywir yn ymyl y ffurf gywir, nid â neb ymhell o'i le o bydd wrth ei benelin. Daeth ffrwd o oleuni ar yr iaith nas troir yn ei hol. Y mae gwyro oddiwrt h yr Orgraff Newydd eisoes yn brawf naill ai o anwybodaeth dwfn neu o ystyfnigrwydd anfaddeuol. Pechu'n erbyn y goleuni a wna'r neb nas derbynio.

## 2.—YR WYDDOR.

Nid yw'r wyddor Gymraeg yn berffaith.

1. Y mae'r llythyren *y* yn cynrychioli dwy sain. Yn "fry" a "dyn" y mae'r sain yn glir, eithr yn "cyhuddo" a "dymuno" y mae'n dywyll. Defnyddir y sain glir,—

(a) Mewn geiriau unsillaf, megis ym, ych, ynt (*we, are, &c.*), dyn, tŷ, brys, rhyd, &c., ac eithrio'r geiriau a bwysa ar eiriau eraill, megis y, yr, yn, fy, dy.

(b) Yn sillaf olaf geiriau â mwy nag un sillaf, megis plentyn, sydyn. Gwelir oddiwrth y gair sydyn mai'r sain dywyll a roddir i'r *y* yn y sillaf olaf ond un. Ceir y ddwy sain yn ydym, ydych, ydynt.

(c) Yn y ddeusain, *wy*, megis annwyl, annwyd, cwyn, &c.

2. Gwasanaetha *i* ac *w* swydd cydseiniad a llafariad, megis cuddio—gweddïo ; gwêr (*fat*)—gŵer (*shelter*).

Yn y ddeuair cyntaf y mae'r *i* a'r *w* yn gydseiniaid, ac yn y ddeuair olaf yn llafariaid.

3. Saif yr un llythyren am y sain hir, y sain ganol a'r sain fer, *e.e.*, cân, canu, cannu ; tŷn, tonau, tonnau.

Dynodir hyd llafariaid drwy gynhorthwy'r hirnod (^) a thrwy gadw'r ddwy gydsain wreiddiol, *e.e.*, tâl (*pay*), onn (*ash*).

4. Nid oes yn yr wyddor lythrennau i gynrychioli seiniau benthyg, megis,—

(a) *sh*, o flaen *g*,—dishgwyl (disgwyl) ; mishgl (misgl—*mussels*). (Yn y Gogledd *s* a seinir yma, nid *sh*).

O flaen *i* gydsain,—eishiau (eisiau).



(b) *j* yn Jacob, Judea, tragedi, &c. *S* ac *i* yw'r llythrennau Cymraeg sy'n cyfateb iddi, eithr pur anaml y dywedir Ierusalem, Iona, &c. Dylid arddel y *j* bellach yn nheulu'r Abiec.

5. Ceir *u* ac *y* yn cynrychioli'r un sain, *e.e.*, crud, dyn.

Ni bu felly erioed, eithr bu cymysgu cynnar arnynt. Pe glynem wrth y traddodiad cyntaf, ysgrifennem arnunt yn lle arnynt, ysgrythur (o'r Llad. *scriptura*) yn lle ysgrythyr, testun (o'r Llad. *testimonium*) yn lle testyn, corun (o'r Llad. *corona*) yn lle coryn, &c. Y mae'n hwyr o'r dydd i ail godi ffurf fel arnunt, eithr nid anodd yw arfer eto ysgrythur, testun, credadun, &c.

Yn y De ni wahaniaethir rhwng seiniau *u*, *y*, ac *i*. Yr un sain a roddir i "hin" (*weather*), "hun" (*sleep*), "hÿn" (*older*).

6. Y mae *ff* a *ph* yn cynrychioli'r un sain.

Cofiaf i Mr. Owen Owen, Arolygwr yr Ysgolion Canol-radd y pryd hwnnw, ac ef yn ymweled â'r ysgol yn Llanelli, pan oeddwn yn hogyn yno, ofyn pam yr ysgrifennid *corph* yn hytrach na *corff*. Ei amcan oedd gweld a wyddai neb wreiddyn y gair. "Corpus" yw'r Lladin, a thybia llawer y dylid ysgrifennu *corph* i ddangos y gwreiddyn. Am yr un rheswm yr ysgrifennir *sarph* (o'r Llad. *serpens*) yn lle *sarff*, a philosophi er mwyn cynrychioli'r Groeg mor ffyddlon ag yw'n bosibl. Eithr bydd eisiau sgrifennu Cymraeg tra fo'r dysgedigion wrthi'n olrhain y gwreiddiau. Gwell yn y cyfamser yw rheol eglur a syml fel hon,—

*Lle bo'r sain wedi'i threiglo o'r llythyren "p," ysgrifenner "ph." Ymhob achos arall ysgrifenner "ff," ac eithrio enwau priod fel Pharisead, Philistiad, Phylip, &c.*

Gwelir na ellir *ph* ond ar ddechreu gair, megis yn ei *ph*riod, ei *phen*, eithr y gellir defnyddio *ff* ar ddechreu, yng nghanol, ac ar ddiwedd gair, *e.e.*, *ffrind*, *ffilosoffi*, *gorffwys*, *corff*, *sarff*.

Awgryma'r Athro Syr J. Morris Jones ddefnyddio *ph* mewn geiriau cyfansodd fel *chwe-phunt*, &c.

### 3.—LLAFARIAID HIR A BYR.

Dynodir hyd llafariaid drwy gynhorthwy'r hirnod (<sup>^</sup>) a thrwy gadw'r ddwy gydsain wreiddiol. Ni chedwir ond yr *n* a'r *r* ddwbl. Mewn Hen Gymraeg fe'u dyblid yn ddieithriad mewn geiriau un sillaf. Nis gwneir yn awr ond er mwyn osgoi cymysgu ar eiriau. Y mae'n rhaid eu dyblu wrth ychwanegu sillaf, megis *pen*, *pennau*. Yr hirnod yw'r unig arwydd a ddefnyddir i ddynodi hyd llafariaid. Wele 'i ddeddf.

1. Rhoddir yr hirnod i bob llafariad hir ac eithrio *i* ac *u*, *e.e.*, *tâl* (*pay*), *tôn* (*tune*), *gŵr* (*man*, *husband*). Y mae *cytûn*, *bûm*, ynghyd â'r ffurfiau cyfansodd *canfûm*, *gwybûm*, *adnabûm*, &c., yn eithriadau, gan fod yr *u* yn cynrychioli dwy wreiddiol. Talfyriad yw *cytûn* o *cytu-un*, a *bûm* o *bu-um*.

2. Fe'i defnyddir fynychaf mewn geiriau unsillaf pan fo'n gorffen ag un gydsain. Pan fo dwy gydsain neu un gydsain yn cynrychioli dwy wreiddiol yn diweddu'r gair, y mae'r llafariad yn fer, ac nid oes eisiau'r hirnod.

3. Er i air un sillaf orffen ag un gydsain ac i'r llafariad oherwydd hynny fod yn hir, ni ddefnyddir yr hirnod ond pan fo'n gorffen ag *l*, *n* neu *r*.

*e.e.*, *gwâl*, *gwên*, *gwâr*.

Ni ellir, felly, ddefnyddio'r ^ mewn geiriau fel bod, nod, tad, teg, ag, oll, &c. Gwelais awgrymu'r gair *Elinor* yn gyfrwng cofio'r rheol hon.

Eithriadau,—

(a) Nis defnyddir ynglŷn â geiriau cyffredin fel hen, dyn, ol, er iddynt orffen ag *l*, *n*, neu *r*.

(b) Fe'i ceir mewn geiriau fel *bôm*, er na therfynant ag *l*, *n* neu *r*, oherwydd eu bod yn ffurfiau talfyredig. Fe'i cedwir am yr un rheswm yn glanhâf, glanhâd, &c.

(c) Fe'i defnyddir yn y gair *nâd* (*cry*) i'w wahan-iaethu oddiwrth *nad* (*not*).

4. Pan fo llafariad yn gorffen gair, y mae bob amser yn hir, *e.e.*, *lle*, *tŷ*, *to*, &c., ac eithrio'r geiriau diacen *fy*, *dy*. Nid oes eisiau felly roddi'r hirnod iddynt ond

(a) *lle* bo galw am wahaniaethu rhyngddynt â geiriau o gyffelyb sillafiaeth.

*e.e.*, *â*, *with*, *as*. *a*, *and*.

*dy*, *thy*. *dŷ*, *house*.

(b) *lle* bo'n ffurf dalfyredig, *e.e.*, *glanhâ*.

5. Er i ddwy gydsain orffen gair a galw am i'r llafariad fod yn fer, fe ddigwydd ei bod yn hir ambell waith, sef mewn ffurfiau talfyredig. Defnyddier yr hirnod y pryd hwnnw.

*e.e.*, *cânt* (*they shall have*), *bywhânt*, &c.

6. Y mae'r *a* a'r *o* yn y terfyniadau *au*, *ai* ac *oi* yn hir gan amlaf pan fônt yn ffurfiau talfyredig, ac yna gofynnant am yr hirnod.

*e.e.*, *Daw plâu* (*plagues*) o *pla-au*, *bwâu* (*bows*) o *bwa-au*, *gwnâi* o *gwna-ai*, *trôi* o *tro-ai*.

Y mae'r *a* yn fêr yn y berfenwau sy'n gorffen ag *au* neu *hau*, ac nid oes eisiau'r hirnod.

*e.e.*, caniatau, neshau, parhau.

7. Y mae eisiau'r hirnod uwchben yr *w* neu'r *y* mewn deusain (*a*) llo bo perigl cymysgu ar ystyron geiriau.

*e.e.*, gŵydd, *goose*, *presence*.

gŵydd, *trees*.

gŵyr, *knows*.

gŵyr, *men*.

Nid oes galw am dani mewn geiriau fel cwyn, cwyd, cwyr, cŵys, pwyll, &c.

(*b*) Mewn ambell air unsillaf fel wŵyr (*grandchild*), wŵyn (*lambs*).

#### 4.—DYBLU'R CYDSEINIAID.

Y mae ieithwyr da yn anghyson ynglŷn â dyblu'r Cydseiniaid. Nid oedd hyd yn oed y diweddar Syr Edward Anwyl yn berffaith fodlon arno ef ei hun yn y peth hwn. Y mae ei law ar ddau lythyr gennyf wrth "gymmrawd" ac "ammhosibl" y naill dro a "cymrawd" ac "amhosibl," dro arall. Pendwmpian, debig ddigon, yr oedd Homer ar y pryd. Credai Mathetes yn gryf y dylid dyblu'r cydseiniaid. Gofynnodd rywdro i Jenkin Howel, Aberdâr, ddyblu'r cydseiniaid i gyd iddo. Rhoddodd yr argraffydd enghraifft o'r canlyniadau iddo, ai er argyhoeddiad ai er dychryn i Fathetes, ni wn. Nid yw'r pwnc, erbyn hyn, mor anodd ag yr ymddengys, os cedwir mewn cof yr ychydig reolau canlynol,—

(1) *Na ddybler yr un llythyren ac eithrio "n" ac "r."* Dwy lythyren yn unig, sef *n* ac *r*, sy'n gofyn am eu dyblu. Nid oes un llythyren arall i'w dyblu o gwbl. Nid oes

dim yn amwys nac yn aneglur yn y rheol hon. Y mae mor glir â'r goleuni nad oes dyblu ar un llythyren ond *n* ac *r*. Y mae'r ddeddf hon yn condemnio ar unwaith ffurfiau anhyfryd fel accw, etto, atdeb, cymmaint, cymmeryd (cymryd yw'r gair), cyssylltiad, cyssegr, &c. Doniol yw gweled Cymmraeg, Cymmro a Chymmru yn y *Gomerydd*, eithr nid mymryn mwy cywir yw dyblu'r *m* mewn geiriau eraill. Y mae *m* bob amser yn cynrychioli dwy *m*,—*mm*,—mewn Hen Gymraeg, a lle nad oedd ond un *m* yn y gwraidd, fe'i cynrychiolir erbyn hyn gan *f* neu *w*. Felly, nid oes galw am ddwy *m*. Y mae'r un peth yn wir am *c*, *t*, ac *s*. “Messiah” y Sais yw “Meseia” neu “Mesia'r” Cymro. Cofier y rheol,—*Never double any consonant in Welsh except “n” and “r.”*

(2) Y cam nesaf. *Nid yw hyd yn oed “n” ac “r” i'w dyblu bob amser. Nid ydynt byth i'w dyblu mewn sillafau diacen, eithr mewn sillafau acennog caeedig. Hynny yw, yn y sillaf olaf ond un pan fo'n gaead. Gwelir y gwahaniaeth rhwng y sillaf agored a sillaf gaeedig ar unwaith os meddylir am y gair “whine” yn y Saesneg. Ychwaneger sillaf a thry'n “whining.” Eithr y mae'n wahanol ynglŷn â'r gair “win,” a dry'n “winning.” Y mae'r cyntaf yn agored, tra y mae'r olaf yn gaead, ac yn galw am ddyblu'r *n*. Y mae'r un peth yn wir yn y Gymraeg. Od yw'r sillaf yn agored, ni ellir dyblu'r *n* a'r *r*, ond od yw'n gaead fe'u dyblir. Er enghraifft, fe sylwa'r glust arwaf fod gwahaniaeth rhwng “canu” (to sing) a “cannu” (to whiten). Y mae'r sain *a* yn y cyntaf yn hwy nag yn yr ail, a'r sain fer sy'n gofyn am y dyblu. Ysgrifenner, felly, “canu” (to sing) ag un *n*, eithr rhaid wrth ddwy yn “cannu” (to whiten). Gwahaniaether yn yr un modd rhwng “tanau” (fires) a “tannau” (chords), “tonau” (tunes)*

a “tonnau” (*waves*), “barau” (*spears*) a “barrau” (*bars*).

Ni raid, yn ol hyn, wrth yr hirnod uwchben geiriau fel tanau, tonau, barau, &c., er dangos bod y llafariad yn hir. Y mae'r un *n* ar unwaith yn profi eu bod yn hir. Y mae'r ddwy *n* yn dynodi llafariad fer. Sylwer (a) Mai yn y sillaf olaf ond un y dyblir, ac nid yn yr olaf neu'r olaf ond dau. Felly, try annog yn anogaeth, ennill yn enillodd, &c.

(b) Ni ddyblir *n* ac *r* pan ddilynir hwynt gan *w* neu *i* yn gwasanaethu swydd cydseiniaid (*consonantal* “*w*” or “*i*”), hyd yn oed pan fo'r sillaf yn fer. Er enghraifft, ceir “toriad” o torri. Y mae'r ffurf “torriad” yn Luc 24. 35 yn anghywir. Ni raid ychwaith wrth ddwy *r* yn “sorriant” (o sorri) yn 2 Cor. 7. 11. Ceir “dyfyniad” o dyfynnu, a “dibyniad” o dibynnu. Felly hefyd y daw “ysgrifenywyr” oddiwrth ysgrifennu. Eithr sylwer ar “ysgrifennwyd,” lle cedwir y ddwy *n* oherwydd mai llafariad yw'r *w* ac nid cydsain. Y modd y cynhenir geiriau a benderfyna natur yr *i* a'r *w*. Er enghraifft, edrycher ar “(g)wŷr” (*men*) ac “wŷr” (*grandchild*), neu “(g)wyn” (*white*) ac “wŷn” (*lambs*). Y mae'r gwahaniaeth a geir wrth gynhanu'r *w* yn y ddeubar geiriau yn cyfleu, yn agos ddigon, y gwahaniaeth sydd rhwng yr *w* fel cydsain a'r *w* fel llafariad. Edrycher eto ar “ysgrifennu,” “ysgrifenywyr” ac “ysgrifennwyd.” Y mae dwy *n* yn “ysgrifennu,” gan fod y sillaf olaf ond un yn gaead. Yn y gair “ysgrifenywyr,” y mae'r *w*, fel y gwelwyd, yn gydsain, a'r rheol yw lle bo'r *w* yn gydsain y gellir hepgor un *n*. Oddiwrth “ysgrifennu” fe ddaw “ysgrifenywyr.” Eithr yn y gair “ysgrifennwyd” perthyn yr *w* i ddosbarth yr “wŷr” a'r “wŷn.” Hynny yw, y mae'n

llafariad, a gofynnir inni gadw'r ddwy *n* a dywedyd "ysgrifennwyd." Am yr un rheswm y mae dwy *n* yn annwyl. Ni chynhenir yr *-wyl* fel *wheel* y Sais, ond fel "telyn Dafydd ar yr ŵyl." Llafariad yw'r *w*, a chedwir yr *n* ddwbl. Felly y gair "cynnwys" ac eraill tebig iddo. Cadwer mewn cof mai yn y sillaf olaf ond un y dyblir yr *n* a'r *r* pan fo hwnnw'n gaead. Y mae'r un peth yn wir ynglŷn ag *i*. Yn y terfyniad "iad," "iol," &c. (ac eithrio geiriau fel partiol) y mae'r *i* yn gydsain, a chymer le un o'r ddwy *n* neu'r ddwy *r*, *e.e.*, sonnir—soniaf, torri—toriad, ffynnu—ffyniant, &c. Unwaith eto, wele'r rheol,—*Never double the Consonants in Welsh except "n" and "r."* Do not double even "n" and "r" except in the short accented closed penultimate syllable, nor when followed by any consonant.

(3) Beth am eiriau unsillaf? Y mae rhai yn dyblu'r *n* a'r *r* mewn geiriau unsillaf pan fo'r llafariad yn fyr, ac ysgrifennant, tonn, mynn, berr, &c. Prin y mae galw am hyn gan na chynhenir y ddwy gydsain. Defnyddier yr hirnod uwchben y llafariad hir, fel cân, tôn, tân, &c. (gwel td. 19), a gadawer y llafariad fer heb un arwydd. Lle bo'r hirnod y mae'r llafariad yn hir; lle ni bo y mae'n fer. Ysgrifenner "tôn" (*tune*), ond "ton" (*wave*), "pêr" (*sweet*), ond "ber" (*short*) nid "berr," &c. Y mae geiriau fel "onn," "ynn" (*ash tree*) wedi ennill eu plwyf, a gwell dyblu rhag ar ddamwain eu cymysgu â geiriau eraill.

### 5.—YR "H."

*Pa bryd y dylid defnyddio'r "h" a pha bryd y dylid hebddi?*

Odid nad yw'r *h* yn fwy o swmbwl yng nghnawd ysgrifenywyr Cymraeg na dim arall ynglŷn â'r iaith. Y mae

trafferth y Sais ynglŷn â'i chynhanu, y mae anhawster y Cymro ynglŷn â'i hysgrifennu. Lle dylid croesawu'r gares garedig yn gynnes, ymwrthodir â hi'n greulon, a lle dylid hebddi, rhoddir lle amlwg iddi. Nid yw byth yn "Para i alw ar 'eich hol,'" eithr pery i alw ar "ein hol" ar inni ei pherchi fel y dylem. Ni cheir perffaith ddealltwriaeth arni rhwng Gogledd a De; "danghosaf" medd y Gogleddwr, "dan-gosaf" ebe'r Deheuwr. Ni ellir dwyn pob gair ychwaith o dan ddeddf, try ambell un i'w ffordd ei hun. Y mae llwybr y wers, er hynny'n weddol glir.

1.—Yr "h" ar ddechreu geiriau.

(a) Defnyddir yr *h* yn nhreigliad chwyrn (*aspirate*) a threigliad trwynol (*nasal*) y llythrennau *c*, *p*, *t*.

Ei ( <i>her</i> ) châr	Fy nghâr.
Ei phen	Fy mhen.
Ei thad	Fy nhad.

Na ddefnyddier yr *h* yn nhreigliad yr un llythyren arall. Arswyded pawb rhag ei defnyddio yn y gair "mam," ac ysgrifennu "ei mham" (*her mother*), neu'n y gair "natur," ac ysgrifennu "ei nhatur." Gwelsom hefyd "ei mherch" ac "ei mhaneg." Pa bryd y dysgwn na pherthyn ond un cyfnewidiad i *m*, sef i'r sain feddal, fel "ei fam," neu "dy faneg," ac na pherthyn cyfnewidiad o gwbl i *n*? "Y mae'r swyddogion i'w *nhewid* ar ddiwedd y flwyddyn," ebe adroddiad yn ddiweddar. Dylid ar bob cyfrif osgoi aflerwch mor ddybryd â hwn. Cyfynger yr *h* i dreigliadau *c*, *p*, *t*, a pheidier byth â'i gosod ar ol *m* neu *n*, oddieithr i'r llythyren wreiddiol fod yn *p* neu *t*.

Ceir y treigliad trwynol ar ol y blaendod *an*, *e.e.*, anghyfleus, angharedig: gwreiddiol cyfleus, caredig.



(b) Defnyddir yr *h* o flaen enwau ar ol yr ansodd-eiriau meddiannol (*possessive adjectives*).

'm ( <i>my</i> )	ein, 'n ( <i>our</i> ).
ei ('i, 'w) <i>her</i>	eu ('u, 'w) <i>their</i> .

Wele enghreifftiau yn nhermau'r Seiat,—“ Mi a gedwais y rhai hyn oll o'm hieuenctid ” (Math. 19. 20) ; “ Yr hon a âd ei hwyau yn y ddaear ” (Job 39. 14) ; “ A gwŷr Israel a ymosodasant i ymladd i'w herbyn hwy wrth Gibeaa ” (Barn. 20. 20).

Ymgadwer rhag *h* ar ol “ ei ” (*his*) ac “ eich. ” Na ddiolched neb i mi am “ eich hatebion. ”

(c) Defnyddir yr *h* o flaen berfau ar ol yr hyn a elwir yn *Accusative Infixed Pronoun*. Eglura brawddeg neu ddwy'r ymadrodd trwsgl hwn, *e.e.*,

Fe'i haddawodd (*he promised it*).

Fe'i hanfonodd (*he sent it*).

Y mae'r *i* hwn yn wrthrych (*object*) y berfau “ addawodd ” ac “ anfonodd, ” ac oherwydd hynny fe'i dilynir gan yr *h*, pa un bynnag ai gwrywaidd ai benywaidd fo. Gwahaniaethir rhwng *i* yn y brawddegau hyn ac *i* yn y frawddeg “ ef a'i ewyllys ” (*he and his will*), neu “ ef a'i addewid ” (*he and his promise*). Y mae'r *i* yn y brawddegau olaf yn rhagenw meddiannol gwrywaidd heb hawl i'r *h*, eithr yn y lleill y mae'r *i* yn wrthrych y ferf, ac yn hawlio'r *h*. Wele ragor o enghreifftiau,— “ efe a'i hamddiffynnodd ef ” (Actau 7. 24) ; “ hwy a ddaethant ac a'i haddolasant ” (Math. 28. 9).

(d) Yn y gair ugain ar ol “ ar, ” *e.e.*, un-ar-hugain. Felly hefyd “ paham ” o pa am, ac “ oll ” fel ansoddair “ yr holl dŷ. ”

2.—Yr “ *h* ” yng nghanol geiriau. Dyma'r fan y rhy fwyaf o drafferth. Eithr ni ddylai neb fod yn

ddeddf iddo'i hun hyd yn oed yma, gan fod rheol neu ddwy'n cuddio cryn dipyn o'r tir.

(a) Na ddefnyddier yr *h* ond o flaen sillaf acennog (*accented syllable*). Gwelir ar unwaith fod y rheol hon yn alltudio ffurf fel "brenhin." Nid ar yr ail sillaf y mae'r acen, ac felly ni raid wrth yr *h*. Yng nghwmni "brenhin" alltudir y ffurfiau anhygar ffynhon, tymhor, cynghor, tymher, cymhell, cynhal, cenhedl, cyrhaedd, &c., a daw'r ffurfiau mirain brenin, ffynnon, tymor, cyngor, tymer, cymell, cynnal, cenedl, cyrraedd, &c., yn eu lle. Y mae'r geiriau ehud, dehau, olrhain, anrhaith, &c., yn eithriadau. Cedwir yr *h* er iddi ddilyn yr acen. Sylwed y darllenydd yn fanwl ar yr enghreifftiau hyn, a chofied osgoi'r *h* ynddynt hwy a'u tebig. Ysgrifenner hefyd "yr awron" yn lle "yr awrhon."

(b) Ar y llaw arall, defnyddier yr *h* o flaen sillaf acennog. Sylwer fel y gweithia'r rheol hon ynglŷn â'r geiriau uchod. Try brenin yn frenhinoedd, ffynnon yn ffynhonnau, tymor-tymhorau, cyngor-cynghorau, tymer-tymherus, cymell-cymhelliad, cynnal-cynhaliodd, cenedl-cenhedloedd, cyrraedd-cyrhaeddodd, &c. Ni ellir gweithredu wrth y rheol hon bob amser, ceir llawer o eithriadau iddi. Ni ddylid defnyddio'r *h*, er enghraifft, yn eneinio, enillion, gweinidog, &c., ac nid yw'n gartrefol ychwaith mewn ceninen.

Y treigliad trwynol yng nghanol gair yw *mh*, *nh*, ac *ngh*. Pan yn dilyn sillaf â'r acen arno, collir yr *h* a cheir cymar, cynnes, ac angen. Nid treigliad mo'r *h* mewn geiriau fel cenhedloedd, arhosaf, dihangodd, dihareb, &c.

(c) Ni ellir defnyddio'r *h* o gwbl ond ar ol llafariaid a'r llythrennau *m*, *n*, *ng*, ac *r*. Hynny yw, ni ddylid gosod *h* o flaen sillaf acennog ond ar ol y rhai hyn.

3.—Yr “*h*” ar dersyn geiriau.

Nid oes eisiau'r *h* ar ddiwedd geiriau. Ysgrifenner Jehofa ac enwau Iddewig hebddi, fel hyn,—Eseia, Jona, Heseccia, &c.

## 6.—Y BLAENDDODIAID.

## (a) AN.

*Beth yw'r arfer ynglyn â'r blaenddod “an”?*

Wrth ysgrifennu ar ddyblu'r cydseiniaid ni soniwyd am y ddwy *n* mewn geiriau fel “annhegwch” ac “annuwiol,” oherwydd eu bod mewn gwirionedd yn perthyn i ddau air, sef y blaenddod *an* a'r gair a'i dilyn. Ni wêl pawb yn glir pa bryd y mae defnyddio'r ddwy *n* yn y cyswllt hwn na pha bryd y mae defnyddio'r *h* neu ei gadael allan. Wele ychydig o gyfarwyddiadau syml.

(1) Edrycher yn gyntaf ar *an* o flaen *t* a *d*. Meddylier ein bod yn ansicr o'r gair annhegwch. Gwelir ar unwaith ei fod yn deillio o “an” a “tegwch.” Dylem wybod mai treigliad trwynol *t* yw *nh*, a cheir yn syml a didrafferth y ffurf annhegwch. Gweithreder yn yr un modd pan ddêl *an* o flaen *d*. Er enghraifft, sain drwynol *d* yw *n*, a phan fo *an* yn dyfod o flaen y gair duwiol, fe geir annuwiol. Os *t* fydd yn y gwreiddair, fe'i cynrychiolir gan *nh*, ac os *d* gan *n*. Wele restr o eiriau,—annheg (o an a teg), annhebig (o an a tebig), annheilwng, annhirion, annhymig, annymunol (o an a dymunol), annatodol, annibynnol, annoeth, annuwiol, anniben, anneallus, annedwydd, annefnyddiol, anniflan, annioddefol, &c. Ond o flaen cydsain arall ni ddylid dyblu; o *an* a *trf* ceir *anhrefn*, am na ellir seinio cydsain ddwbl o flaen cydsain arall (ac eithrio *h*). Wele eiriau eraill,—anhrugarog o *an* a *trugarog*, anhrwsiadus o *an* a *trwsiadus*, &c.

(2) Edrycher yn nesaf ar *an* o flaen *c* ac *g*. Fel *t* a *d* cymer *c* y sain drwynol, sef *ngh*, a cheir anghymedrol (o an

a cymedrol), anghariadus (o an a cariadus), anghrediniol, anghrist, anghydfurfiaeth, anghristionogol, anghyfartal, anghyson, anghysur, anghyfaddas, anghyfarwydd, anghyfleus, anghyfiawnder, &c.

Sylwer yn ofalus inni ollwng gafael ar un o'r ddwy *n* yn y geiriau hyn, a hynny'n wahanol i'r modd yr ymddygydd at *t* a *d*. Y mae tarddiad geiriau fel annheg ac anniolchgar yn amlwg, a dadleuir y dylid cadw'r ddwy *n* yng ngeiriau dosbarth yr *c*. Ond i ba ddiben a neb yn eu cynhanu? Ni ellir eu cynhanu heb inni fynd at y gair ar ddwywaith. Yn hytrach na dywedyd anghywir, dyweder anghywir, anghyfleus yn hytrach nag an- nghyfleus, anghyffredin, anghytuno, &c.

Ni rydd *g* fawr o drafferth oblegid syrth allan o'r gair a cheir anobaith (o an a gobaith), anorffen (o an a gorffen), anochel, anorchfygol, anallu, anorfod, anorffwys, &c.

(3) Edrycher eto ar *p* a *b*. Fel *t*, *d* ac *c*, cymer *p* y sain drwynol, sef *mh*, a cheir amharod (o an a parod), amherchi (o an a perchi), amhenodol, amhleidgar, amhosibl, amhriodol, amhrofiadol, amhrydlon, &c.

Sylwer bod *n* y gair *an* wedi ei llyncu yn *m* y sain drwynol. Nis cynhenir gan neb, a ffolineb o'r mwyaf yw dywedyd amhwylo yn hytrach nag amhwylo, neu amherthnasol yn lle amherthnasol.

Nid oes anhawster ynglŷn â *b*. Gwelir hi yn y sain feddal yn anfodd, anferth, anfri, anfad, anfodlon.

*Ail adrodd.*—Pan fo *t* yn dilyn *an*, ceir “annh-” fel yn annheg, a phan fo *d*, ceir y cyfuniad “ann-” fel yn annuwiol.

Pan fo *c* yn dilyn *an*, ceir “angh-” fel yn anghymharol, a phan fo *g* yn dilyn, ceir “an-” fel yn anobaith.

Pan fo *p* yn dilyn *an*, ceir “amh-” fel yn amhleidgar.

Pan fo *b* yn dilyn *an*, ceir “f” fel yn anfuddiol.

## (b) DI A DY.

*Gwelaf ysgrifennu "diddordeb" yn lle "dyddordeb."  
A ydyw hyn yn gywir?*

Ydyw, yn gywir ddigon. Myn rhai o hyd fod y blaenddod (*prefix*) "dy" yn gadarnhaol, a bod "di" yn negyddol. Dyma reol y Dr. Owain Pughe,—“ 'Di' is a Privative Prefix. It has the force of the English 'dis' in dismember; 'in' in indelicate; 'un' in unexceptional; 'ir' in irregular; 'less' in sinless, and the like.” Gellir ychwanegu,—“and 'non' in nonsense.” Defnyddir “di,” bid sicr, i negyddu geiriau, eithr ni ddilyn ei fod yn gwneuthur hynny bob amser y cwrddir ag ef. “A Jacob oedd ŵr 'disyml'” (Gen. 25. 27,) “and Jacob was a plain man.” (Eithr gwel td. 119). Cadarnhau y mae “di” yn “disyml.” Felly hefyd yn didoli, dinoethi, diben, dioddef, dilyn, &c. Ar y llaw arall y mae “dy” mewn ambell air fel “dybryd” (*without form*), a “dychan” (*satire*) yn negyddu.

“Diddordeb” sy'n gywir, ynghyd â diddorol a diddori. Wele restr o eiriau y mae tuedd i'w hysgrifennu'n "dy" yn lle "di,"—dibennu, dibynnu, diddanu, diddos, diddyfnu, dieithr a dieithriaid, diddymu, diferu, diffaith, digwydd, dinistrio, dioddef, diogelu, disgleirio, disgrifio, disgwyl, disgybl, disgyblu (eithr dysgeidiaeth a dysgawdr) a distaw.

## 7.—NEWID LLAFARIAID.

1.—*Ai "disglair" yntau "disglaer" sy'n gywir?*  
“Disglair” yw'r ffurf gywir.

(a) Try “ai” yn “ei” yn y sillaf acennog a chynacennog,—“ai” becomes “ei” in tonic and pretonic syllables, e.e., try “adail” yn “adeilad” ac “adeiladu.” Y mae hon yn arfer gyson. Y mae'r “ei” yn

“adeilad” yn cynrychioli “ai” yn y ffurf symlaf ar y gair. Digwydd hyn ymhob gair ac eithrio'r dosbarth y perthyn “meini” a “seiri,” &c., iddo. Yma try “maen” yn “meini,” a “saer” yn “seiri,” o dan ddylanwad yr *i* ddiweddol. Y tuallan i'r rhain, y mae “ei” yn ddieithriad yn cynrychioli “ai.” Edrycher ar y gair “disgleirio.” Ni ddywed neb “disglaerio.” Pes cynhygiai, fe'i rhwystrid gan y terfyniad “io” sydd bob amser yn dilyn “ei.” “Disgleirio” yw'r gair, am hynny, “disglair” yw'r ffurf symlach arno.

(b) Pe “disglaer” a fyddai'r ffurf, yna fe geid y ferf “disglaeru” oddiwrtho, fel y try “saeth” yn “saethu,” “arfaeth” yn “arfaethu,” “taer” yn “taeru,” &c.

(c) Gwelir oddiwrth hyn fod y ffurfiau “haiarn,” “daiar,” “rhaiadr,” yn anghywir. Felly hefyd “traian,”—“a'i chynffon hi a dynnodd draian ser y nef” (Dat. 12. 4). Pe bai hawl gan y geiriau hyn i'r *i*, dylid eu hysgrifennu'n “heiarn,” “deiar,” “rheiatr,” a “threian.” Eithr ni raid gwneuthur hynny, oblegid ffurfiau anghywir ydynt, a dylid ar bob cyfrif eu sillafu'n haearn, daear, rhaeadr, a thraean.

(d) I'r un dosbarth â disglair fe berthyn araith, talaith, afiaith, gweniaith, diffaith, &c. Nid yn “niffaethwch” eithr yn “niffeithwch” Judea y pregethodd Ioan Fedyddiwr.

2.—*Ai* “heulog” yntau “haulog” sy'n gywir?  
“Heulog” yn ddibetrus.

(a) Fe dry “au” yn “eu” o dan yr un amgylchiadau ag y try “ai” yn “ei,” a cheir “haul” yn troi'n “heulwen” a “heulog,” “gwaun” yn “gweunydd,”

“cnau” yn “cneuen,” &c. “Wele, ‘heuwyr’ a aeth allan i hau” sy’n gywir, ac nid “hauwr.”

(b) Nid yw’n anodd gweled oddiwrth y rheol hon fod y ffurfiau “gauaf,” “cynhauaf,” “cauodd,” &c., yn anghywir. Wrth reol *au*, dylent fod yn geuaf, cynheuaf, ceuodd, &c. Eithr ni pherthynant i’r dosbarth hwn, oblegid dylid eu sillafu’n gaeaf, cynhaeaf, caeodd, &c.

Try *ai* yn *ei*, ac *au* yn *eu* o dan yr un amodau ag y try *aw* yn *o* yn awr, oriau; llawr, lloriau, &c., neu *w* yn *y* yn blwch, blychau; cwch, cychod, &c.

*Nodiad.*—Erys “ae” heb ei newid ac eithrio pan fyddo *i* yn ei ddilyn, *e.e.*, daear, daearol, sylfaen, sylfaenydd; gaeaf, gaeafu, &c., eithr saer, seiri; sylfaen, sylfeini, &c.

### 8.—CYWIRO GEIRIAU.

*Canfûm.*—Rhyfedd y llurgunio sydd ar ffurfiau cyfansodd “bod.” Gwelir mor fynych a dim canfyddais, canfyddost, canfyddodd; cydnabyddais, cydnabyddost, cydnabyddodd, &c. Gellid yn hawdd osgoi bwnglerwaith fel hwn pe meddylid am y ferf syml “bod.” Gŵyr pawb mai amser gorffennol bod yw *bûm*, *buost*, *bu*, *buom*, *buoch*, *buont* neu *buant*, ac y mae’n rhaid cadw’r ffurfiau hyn yn y berfau cyfansodd. Ysgrifenner felly *canfûm*, *canfuost*, *canfu*, &c.; *cydnabûm*, *cydnabuost*, *cydnabu*, &c.; *darganfûm*, *darganfuost*, *darganfu*, &c. Sylwer hefyd nad yw canfyddwyd yn rheolaidd. Canfuwyd yw’r gair a chydabuwyd, *darganfuwyd*, &c.

*Cymar.*—Anodd iawn yw dwyn rhai pobl i sgrifennu “cymar” yn lle *cydmar*, “cymharu” yn lle *cydmaru*, “cymhariaeth” yn lle *cydmariaeth*, &c. Ac eto nid

oes lle i ddwy farn ar y modd y dylid ysgrifennu'r geiriau hyn. Y mae'n hawdd gweld mai estron yw'r *d*. Daw cymharu o'r gair Lladin "comparo." Try'r *p* yn *mh*, ond gan nad oes eisiau'r ddwy *m*, syrth un o honynt allan a chawn "cymharu." Ni chedwir yr *h* ar ol yr acen a cheir "cymar." Ceir "cymell" drwy gyffelyb driniaeth oddiwrth y Lladin "compello." Ac ni bydd neb yn ysgrifennu "cydmell," er i lawer arfer "cydmar." Dylid cofio nad oes lledrith o hawl gan y llythyren *d* i'w gwthio'i hun i'r geiriau hyn. Dyna bwynt y nodiad.

*Bore.*—Bu cryn dwrw beth amser yn ol ynghylch ffurf y gair bore ym Meibl 1620. Er bod "boreu" yn hwnnw, nid oes amheuaeth nad "bore" yw'r ffurf lenyddol. Ysgrifenner hefyd "godre" yn hytrach na "godreu," a "tyle" yn hytrach na "tylau." Ychwaneger camre a chware neu chwarae.

*Melys* yw ffurf briodol y gair hwn ac nid "melus." Y mae'n gywir ysgrifennu o honom grymus, heintus, dolurus, chwaethus, llafurus, &c., oblegid eu ffurfio drwy ychwanegu'r terfyniad ansoddeiriol "us" (Lladin, "osus") at grym, haint, &c. Eithr nid yr "us" hwn a geir yn "melys." Y mae chwanegu sillaf yn ddigon o faen prawf. Cynhenir y gair "melysu" yn hollol fel hysbysu o "hysbys," neu "dyrysu" o "dyrys." Er mai "melus" sydd yn y Beibl, gwelir "melysach" yn Barn. 14. 18, a "melysdra" yn Barn 9. 11. "Melys" a geir yn yr hen lyfrau, a thrueni newid ar air o wehelyth mor urddasol. O theimla neb ar ei galon ddiolch am y Gloywi, dywedded,—“ ‘melys,’ moes eto.”

*Munud.*—Lluosog yw'r ffurfiau a roddir i'r gair "munud." Ceir mynud, mynyd, a munyd. Dim ond "munud" sy'n gywir. Mewn geiriau benthyg o'r



Lladin y mae *u* hir y Lladin yn aros yn *u* yn y Gymraeg. Ceir pur (*pure*) o “purus,” “mur” (*wall*) o “murus,” “cur” (*pain*) o “cura,” ac “ysgrythur” sy’n briodol o “scriptura.” Dylai’r sawl sy’n ysgrifennu “munyd,” er mwyn bod yn gyson ag ef ei hunan, ysgrifennu pyr, myr, cyr, &c. Cadwer at y ddwy *u*, fel y gwneir yn “ffunud,”—“a’r rhai hyn yr un ‘ffunud’ yw y rhai a heuir ar y creigle” (Marc 4. 16).

*Paratoi.*—Arfer gyffredin yw sgrifennu paratoi, neu’n hacrach fyth parottoi, yn lle “paratoi.” Y mae’n debygol ddigon mai’r *o* yn “parod” sy’n camarwain ysgrifenwyr. Paratoi yw’r ffurf gywir (o’r Lladin *paratus*), ac felly y cynhenir y gair.

*Saesneg.*—Nid yw’r ffurfiau “Saesneg” a “Saesones” yn gywir. O’r gair Saeson y daeth yr *o* hon. Saesneg a Saesnes yw’r ffurfiau priodol. Sylwer mai Sais yw unigol Saeson, nid Saes, ac mai Saeson yw lluosog Sais, nid Seison. Gwaeth fyth yw Saesonaeg a Ffrancaeg. Nid oes y fath air ag *aeg* i ddynodi iaith. Y terfyniad ansoddeiriol *-ica* yw’r *-eg*, a dylid ysgrifennu Ffrangegeg, Eidaleg, &c.

*Dilyw.*—Camsillafiad yw “diluw.” Ni bydd neb yn ysgrifennu “distruw” yn lle “distryw,” na “cluw” yn lle “clyw,” er bod y ffurfiau hyn mor gywir â diluw. “Dilyw,” bid sicr, yw ffurf gywir y gair.

*Tywyll.*—Defnyddir “tywyll” gyda’r *ddau* ryw. Nid yw arfer y gair “tywell” yn gyfreithlon. Ceir ffurf fenywaidd ansoddeiriau oddiwrth y ffurf wrywaidd drwy newid *w* i *o*, ac *y* i *e*, fel *dwn*, *dofn*, *byr*, *ber*. Geiriau unsill, fel rheol, ynghyd â’u ffurfiau cyfansodd, a newidir. Tybiodd rhywun y dylai “tywyll” ddilyn y rheol, a chrewyd y ffurf “tywell.” Eithr perthyn “tywyll” i’r *ddau* ryw. Cynrychioli *wy* y

mae'r *y*, ac ni ellir *e* mohoni o gwbl, mwy nag y gellir dywedyd llwed yn lle llwyd. "Tywyll," o dan bob amgylchiad, yw'r gair. (Yr un modd ysgrifenner cadwyn, ac nid cadwen).

*Wyneb.*—Arfer go ddiweddar yw sgrifennu "gwyneb." Tybiodd rhywun fod a fynno "wyneb" â'r gair "gwyn." Tybiodd y golygai'r gair y darn gwyn o'r corff. Ni pherthyn i'r gair "gwyn" o gwbl. Perthyn i'r un dosbarth ag *wy*, yr *wyr*, yr *wythnos*, yr *wybren*. Dyweder "yr wyneb." "Nyni oll ag wyneb (nid â gwyneb) agored." (2 Cor. 3. 18). "I'r wynebion,"—*Llyfr y Tri Aderyn*.

*Diwinyddiaeth.*—Nid "duwinyddiaeth." Er bod a fynno diwinyddiaeth â Duw, nid oes a fynno'r gair "diwinyddiaeth" â'r gair "Duw." "Ioan y Difinydd" y gelwir gweledydd Patmos, a chymer *f* ac *w* le'i gilydd yn fynych; *e.e.*, nid yw barddoniaeth ambell un yn codi'n uwch na defnyddio "cafod" yn lle "cawod." "Diwinyddiaeth" a "diwinydd" sy'n gywir.

*Crud.*—Peth newydd hollol yw sgrifennu "cryd" pan ddefnyddir y gair i olygu "cawell." Gwahaniaether rhwng "crud" (*cradle*) a "cryd" (*fever* neu *ague*). Gosoder y baban yn y "crud" pan fo'r "cryd" arno.

*Iddew.*—Gair "gwneuthur" yw "Iuddew," y gair "tyfu" yw "Iddew." Y mae Iuddew yn lle Iddew cyn hacred ag Iuthel yn lle Ithel. Ysgrifenner Iddew ac Iddewon. Defnyddiodd Salesbury "Iuddew" yn ddi-ameu am fod yr Iddew yn byw yn Judea.

*Mynyddoedd.*—Lluosog mynydd yw mynyddoedd, nid mynyddau. Ni cheir mynyddau o gwbl yn y Beibl. "Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd" a

geir yno. (Salm 121. 1). A thrachefn, "Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw traed yr hwn sydd yn efengylu" (Es. 52. 7). Y mynyddoedd a bwysir mewn pwysau, nid y mynyddau (Es. 40. 12). "Oedd" yw terfyn lluosog geiriau sy'n dynodi darn mawr o amser neu rif neu ofod. "Oes oesoedd" a geir yn y Beibl, nid "oes oesau." Felly hefyd miloedd, bydoedd, moroedd, &c. Chwith fyddai clywed cynulleidfa'n canu "Dyma gariad fel y morau," er bod morau mor gywir a mynyddau. Y mae'r ddwy ffurf, a rhoddi enw'r gramadegau arnynt, yn *factitious*. Lluosog mynydd yn y dyddiau gynt oedd mynydd-"edd." Ar dafod gwerin collir yr "dd" ar ddiwedd geiriau. Y mae'n arfer gyffredin iawn yn Sir Benfro. A phan gynhenid mynydde aeth pobl i dybio mai talfyriad o mynyddau ydoedd fel y talfyrir corau yn core, caniadau yn caniade, brwydrau yn brwydre, &c. Ysgrifenner mynyddoedd bob amser.

*Blynyddoedd*.—Nid blynyddau yw lluosog blwyddyn. Tyfodd blynyddau drwy dalfyrru blynyddoedd fel y gwnaed â lluosog mynydd. "Cofiaf flynyddoedd deheulaw y Goruchaf," ebe'r Salmydd (77. 10). A thrachefn, "treuliasom ein blynyddoedd fel chwedl" (90. 9). Diflas iawn fyddai dywedyd "bywha Dy waith yng nghanol y blynyddau."

Sylwer nad *blwyddi* chwaith yw lluosog *blwyddyn*. Y mae gair blwydd yn bod, eithr nid yw'n gyfystyr â blwyddyn. Fe'i defnyddir ynglŷn ag oedran yn unig, *e.e.*, chwe blwydd oed. Nid yw blwyddi yn air priodol. Blynyddoedd bob amser yw lluosog blwyddyn.

*I fyny*.—Dyma'r ffurf briodol ar yr ymadrodd ac nid "i fynu." Pan fo eisiau *u*, myn rhai ddefnyddio *y*, a cheir mynud, munyd, a mynyd yn lle munud; ond pan fo rhaid wrth yr *y*, mynnant ddefnyddio'r *u*, a cheir

“i fynu” yn hytrach nag “i fyny.” “I fynydd” wedi ei dalfyrru yw “i fyny.” Y mae pobl Sir Benfro a godre Sir Gaerfyrddin yn arbennig, am arbed cymaint ar eu hanadl nes gollwng ohonynt eu gafael yn fynych ar yr *dd* derfynol. “Ewch i fyny’r rhiw,” ebe un o ardalywyr Cynwil wrthyf ryw dro, “a dyna chwi goriwaered ben bwy gily’ i Gastelnewy’.” Dyna’r arfer sy’n cyfrif am “sy” o “sydd,” ac “i fyny” o “i fynydd.” Ni pheryglir ei ysbrydoliaeth pan ddywedir bod yr ymadrodd hwn yn anghywir yn y Beibl. “I fyny,” os gwelwch yn dda.

*Gorau a goreu.*—Myn rhai sgrifennu “goraf” yn lle’r ffurf briodol. Ymddangosodd englyn i’r “gwirfoddolwr” yn un o bapurau Caerdydd yn ddiweddar, ac yn ei baladr caed y gair anhyfryd hwn er mwyn cynghanedd,—

“Y goraf hylog ryfelwr—ydyw’r  
Cadarn ‘wirfoddolwr.’”

Aberthir llawer er mwyn cynghanedd, ond prin hawl sy gan neb i roddi ffurf fympwyol ar eiriau er mwyn y glec. Y mae’n wir mai “af” yw terfyn Gradd Uchaf ansoddair, ond digwydd fel arall ynglŷn â’r gair hwn. Y mae “gorau” a “goreu” gystal â’i gilydd. “Goreu,” efallai, yw’r ffurf a ddefnyddir yn gyffredin.

*Popeth.*—Gelwir *c, g, p, b, t, d* yn llythrennau mud, gan na ellir eu cynyrchu heb gyfnod byr o ddistawrwydd hollol. Mudsain galed yw *c, p, t*, a mudsain feddal yw *g, b, d*. Pan ddêl dwy fudsain debig i’w gilydd ynghyd, megis *p* a *b*, *c* a *g*, *t* a *d*, fe’u troir yn un fudsain galed, *e.e.*, daw *cytir* (*common*) o *cyd* + *tir*, *drycin* o *drwg* + *hin*, *tloty* o *tlawd* + *ty*, a *popeth* o *pob* + *peth*. Y mae sgrifennu “pobpeth” mor ynfyd a phed ysgrifennid adheb

yn lle ateb, gwlybhed, yn lle gwlyped, neu gwaghaf yn lle gwacaf. Gwneir yr un modd â seiniau anadlol (*spirants*), lle bo dwy sain debig yn cwrdd. Nid yw gwrthddrych, *e.e.*, fymryn gwell na'r ffurfiau a ennwyd. Ysgrifenner *gwrthrych* yn ddieithriad. Lle bo dwy elfen mewn gair, a phob un â'i hacen, fe gedwir y ddwy fudsain feddal, megis yn ad-drefnu, ad-daliad, &c.

Beth a wneir â seiniau annhebig i'w gilydd pan ddelont ynghyd? Y mae un rheol y gellir ei chymhwyso at bob cyfuniad posibl, sef na ellir mudsain feddal o flaen mudsain galed. Nid yw *hebcor*, *digter*, *adcof*, &c., yn cynrychioli'r sain lafar. Fe ellir mudsain feddal ar ol mudsain galed, a dyna'r arfer fynychaf. Wele ddau neu dri o gyfarwyddiadau cymharol ddiogel,—

- (1) Na ddefnyddier mudsain feddal o flaen un galed.
- (2) Ar ol y ddwy gydsain galed *t* a *p*, defnyddier y gydsain feddal, megis datguddio, atgas, utgorn, atgyfodi, anhepgor, &c. Y mae *capten* yn eithriad.
- (3) Ar ol y fudsain galed *c*, defnyddier y gydsain galed, megis *dicter*, *actau*, &c. Y mae *crocbren* yn eithriad.

*Awdr ac Awdur.*—Gellir defnyddio awdr ac awdur yn ddiwahaniaeth am *author*. Y mae "awdr" o'r *Nominative* "*auctor*," fel y mae "Ymherawdr" o "*imperator*," ac "awdur" o'r *Accusative* "*auctorem*," fel y mae "pechadur" o "*peccatorem*." Nid yw "awdwr," a ddefnyddir yn gyffredin, yn ffurf lenyddol, eithr nid yw'n anghywir. Y mae'n gywir i'r un graddau a chyda'r un ystyr â geiriau fel "ofon" yn lle "ofn,"

“ cefen ” yn lle “ cefn,” &c. Yr hyn y dylid gofalu rhagddo yw ystyried “ awdwr ” yr un math ar air â “ gwerthwr ” neu “ prynwr,” a’i luosogi’n “ awdwyr.”

Fel hyn y tarddodd ac y dirywiodd y gair,—

- (a) Daeth awdr oddiwrth y Lladin *auctor*.
- (b) Ychwanegwyd y *Parasitic vowel* “ w ” a chaed awdwr. Ceir digon o enghreifftiau o hyn,— pobl, pobol; budr, budur; cwbl, cwblwl; sawdl, sawdlwl, &c.
- (c) Meddyliwyd bod “ awdwr ” yn gyfuniad o awd + gwr, fel areithiwr, pregethwr, &c.
- (d) Ffurfiwyd y lluosog awdwyr fel areithwyr, pregethwyr, &c.

Defnyddier awdwr, os mynner, ar dafod, eithr diogelach ar bapur yw awdr neu awdur. “ Awduriaid ” ac “ awduron ” yw’r lluosog.

Nid gwr—gwŷr a geir ychwaith yn ymherawdr a dysgawdr, ac ni ddylid eu lluosogi hwythau yn ymerawdwyr a dysgawdwyr, eithr yn ymerodron a dysgodron.

*Ei gilydd.*—“ Ei gilydd ” sy’n hanesyddol gywir ac nid “ eu gilydd.” Wele bedwar cyflwr yr ymadrodd,—

- (a) Y gwreiddair yw “ cilydd ” (*fellow, mate*), a cheir ef mewn brawddeg sydd ar lafar mewn rhai mannau yng Nghymru, sef “ ben bwy gilydd.” Defnyddir ef yn gyson yn y Mabinogi gyda “ pawb ” neu “ pob un.” “ Lladdodd pob un ei (i) gilydd ” oedd yr arfer gyntaf arno.

(b) Y cam nesaf oedd defnyddio'r ferf yn y lluosog, fel lladdasom neu lladdasant bawb neu bob un ei gilydd.

Yn iach weithian dan y dydd  
Y gwelom bawb i gilydd,

medd Sion Tudur.

(c) Yn raddol gollyngwyd gafael yn y *pawb* a'r *pob un* ac ysgrifennwyd "lladdasom ei gilydd" neu "lladdasant ei gilydd."

(d) Yn olaf, mabwysiadwyd y rhagenw oedd yn gyson â pherson y ferf, ein, eich, eu, "lladdasom ein gilydd," "lladdasoch eich gilydd," &c. Bu a fynno dylanwad "hunain" â'r datblygiad hwn. Oherwydd ysgrifennu "ein hunain," &c., tybid bod yn rhaid ysgrifennu "ein gilydd," &c.

Gwelir mai peth newydd yw defnyddio ein, eich, eu, o flaen "gilydd." Y mae'r ffurf "gilydd" yn hytrach na "cilydd" yn brawf mai "ei" (*his*) a'i blaenorai. Nid yw "eu" (*their*) yn treiglo *c*. Pe defnyddid ein, eich, eu, gyda'r gair "cyfaill," dywedid ein cyfaill, eich cyfaill, eu cyfaill; a dywedem "ein cilydd," &c., onibai am hir ddefnyddio'r gair ar ol "ei" (*his*). Try ei, bid sicr, yr *c* i'r feddal *g*.

## 9.—SILLGOLLI.

Collir llafariad ychydig o fân eiriau wrth eu cysylltu ag eraill.

1. Y *fannod* (gwel td. 53), 'r yw'r *fannod* ar ol llafariad.

*e.e.*, o'r dref, taro'r drws.

2. *Y Rhagenw meddiannol personol*,—

*fy*, *f'* enw, *f'* annwyl.

*dy*, *d'* enaid, *d'* adnabod.

*ei*, ef a *'i* frawd.

*ein*, gyda *'n* tadau.

*eich*, eich meibion a *'ch* merched.

*eu*, cario *'u* croes.

*i* ac nid *ei* ac *eu* oedd ffurf y trydydd person unigol a lluosog hyd yn ddiweddar.

3. *Yr arddodiad "yn"* mewn ymadroddion rhagferfol,—

Os gweli *'n* dda, pregethu *'n* effeithiol, canu *'n* felys.



### III.

#### Y TREIGLIADAU.

TREIGLIR naw llythyren yn y Gymraeg yn ol galw'r gystrawen, a cheir tri math ar dreiglo, sef y meddal (*soft*), y trwynol (*nasal*), a'r chwyrn (*aspirate*). Wele'r holl dreigliadau,—

<i>Gwreiddiol.</i>	<i>Meddal.</i>	<i>Trwynol.</i>	<i>Chwyrn.</i>
c	g	ngh	ch
p	b	mh	ph
t	d	nh	th
g	—	ng	
b	f	m	
d	dd	n	
rh	r		
ll	l		
m	f		

Llywodraethir y naw llythyren gan yr un gystrawen yn y treiglo meddal, chwe llythyren yn y trwynol, a thair yn y chwyrn.

#### I.—“RH” AC “LL.”

*Pa bryd y treigler “rh” yn “r” ac “ll” yn “l”?*

Treigler hwynt pa bryd bynnag y rhoddir y treigliad esmwyth neu ysgafn i *c*, *p*, *t*, *g*, *b*, *d*, ac *m*. Er enghraifft, Dy ben (o pen), dy dad (o tad), dy fraich (o braich), dy fam (o mam), a dy lyfr (o llyfr), dy rwyf (o rhwyf). Y mae pum eithriad i'r rheol hon.

(a) Nis treigilir mewn enwau benywaidd yn y rhif unigol ar ol y fannod. Ceir “y dref” (o tref), “y gannwyll” (o kannwyll), ond ni cheir “y law” (o llaw), nac “y raw” (o “rhaw”), “y llaw” ac “y rhaw” sydd yn gywir.

(b) Mewn enwau benywaidd ar ol *un*, *e.e.*, un *wraig*, eithr un *rhan* (Jos. 17. 14), un *fam*, eithr un *llwy* (Num. 7. 14).

(c) Ar ol “yn.” Gall yr afon fod yn “lân” neu’n “bur,” ond ni all fod “yn lydan” nac “yn lawn.” Y mae’r afon yn “llydan” neu’n “llawn.” Felly hefyd “Y mae’r bara’n *rhad*,” neu “y mae’r dyn yn *rhwyfus*.”

(d) Ar ol “mor,”—

“Mor ddu â’r muchudd.”

“Mor gynnes â’r tân.”

*ond*

“Mor llawn ag wy.”

“Mor *rhydd* â’r awel.”

(e) Ar ol “cyn,”—

“Cyn ddued â’r muchudd.”

“Mor gynnes â’r tân.”

*ond*

“Cyn llawned ag wy.”

“Cyn *rhydded* â’r awel.”

*Sylwer*.—Pan dreigler *c*, *p*, *t*, yn *g*, *b*, *d*; *g*, *b*, *d* yn *f*, *dd*; *m* yn *f*, yna treigler *rh* yn *r*, ac *ll* yn *l*, ac eithrio pan ddigwyddo ar ol *y* mewn enwau benywaidd unigol, ar ol *un* mewn enwau benywaidd, ac ar ol *yn*, *mor*, a *cyn*.

*Nodiad*.—O cheir trafferth gyda gair yn cychwyn gydag *rh*, gosoder gair ag *ll* yn ei le, a lle digwyddo *ll* droi’n *l*, troer *rh* yn *r*.

Y mae'n ddiddorol sylwi bod *n* ac *r* yn caledu *l* neu *r*, megis yn gwinllan ac anrheg. Ceir hefyd pur *llawn* lle dywedir pur *dda*.

## 2.—“YN.”

*Pa dreigliadau sydd yn dilyn “yn”?*

(1) Dilynir “yn” gan y berfenw yn y gwreiddiol,— Y mae ef “yn canu” neu “yn pregethu” neu “yn gweithio.” Wrth reswm, ni ellir dilyn y rheol hon pan ddefnyddir y berfenw (*verb-noun*) fel enw (*noun*), fel y gwneir yn fynych. Er enghraifft, sonnir am “‘ganu’ côr Caradog,” neu am “‘bregethu’ Christmas Evans.” Enwau (*nouns*) yw “canu” a “pregethu” yn y brawddegau hyn. Yr un defnydd sydd iddynt yn hollol â phe sonnir am “lwyddiant côr Caradog,” neu “athrylith Christmas Evans,” ac fe'u llywodraethir gan y drydedd reol a nodwn. Ni threiglir o gwbl y berfenw syml. “Y mae'r milwyr yn brwydro,” “y mae'r fyddin yn cerdded.”

(2) Pan ddilynir “yn” gan ansoddair neu enw traethiadol (*a predicative adjective or noun*), neu pan ddefnyddir “yn” i ffurfio rhagferf (*adverb*), y mae'r treigliad yn feddal, *e.e.*, “Y mae ef yn canu ‘yn dda’”; “Y mae Dafydd ‘yn frawd’”; “Y mae Llywelyn ‘yn frenin.’” Ac eithrio pan fo *ll* neu *rh* yn dilyn, “y mae ef yn canu ‘yn rhagorol.’”

(3) Pan ddefnyddir “yn” fel arddodiad (*preposition*), hynny yw, pan yw'n golygu “in,” fe'i dilynir gan y treigliad trwynol, *e.e.*, Yng Nghwm Aberdar, Yng Ngwalia, Yn Nhredegar, Yn Ninbych, Ym Mhenbre, Ym Margoed.

Sylwer ar driphwynt ynglŷn â'r ddeddf hon.

(a) O flaen "mh" ac "m" troer "yn" i "ym," ac o flaen "ngh" ac "ng" troer "yn" i "yng." Y mae llythyren gyntaf gwreiddair, fel rheol, yn rhoddi ei sain i lythyren olaf y blaenddod (*prefix*). Ceir yr un blaenddod yn y Saesneg yn *com-panion*, *con-nection*, a *col-lection*. Digwydd yr un peth ynglŷn ag "yn." Fe'i troir i "ym" cyn trwynoli *p* a *b*, ac i "yng" cyn trwynoli *c* a *g*. Wele'r rheol eto,—Newidier "yn" i "ym" o flaen *p*, *b*, ac *m*, ac "yn" i "yng" o flaen *c* a *g*.

*E.e.*, Ym Mhenllech, Ym Mhontypridd, Ym Maesteg, Ym Mynwy, Ym Mrycheiniog, Ym Mangor, Yng Nghaerdydd, Yng Ngwent, Yng nghyfnod, ym mhabell, ym mreuddwyd, &c.

(b) Pryd na roddir llawer o bwys ar "yn" fe'i cysylltir â'r gair sy'n dilyn, *e.e.*, ymlaen, ymhen, ymhob, ynghylch, ynglŷn â, ymhlith, &c.

(c) Talfyrra rhai ysgrifenyddwyr y ffurfiau hyn ar "yn," gan ddefnyddio '. Gwelir hyn yn fynych yn y Beibl, *e.e.*, "y'nglŷn wrth iachawdwriaeth" (Heb. 6. 9), "Y'ng hrog ar bren" (Galat. 3. 13), "Y'ng hanol yr ardd" (Gen. 2. 9), "Y'ng ardd Eden" (Gen. 2. 15), "y'ng waith yr Arglwydd" (1 Cor. 15. 58). Y ffurf lawnaf yw arfer y mwyafrif o'r ysgrifenyddwyr goreu.

### 3.—"BOD."

*Pa bryd y try "bod" yn "fod"?*

Y duedd gyffredin yw ei droi'n rhy fynych, a gwelir "ac fod" ac "er fod" yn lle "a bod" ac "er bod." Dylid cadw mewn cof mai berfenw ydyw, a bod y rheolau

a lywodraetha dreigliadau berfenwau eraill yn ei lywodraethu yntau. Ymhellach, y mae'r berfenw yn y Gymraeg yn llawer mwy o enw nag o ferf, a gellir yn rhwydd lle teimlir anhawster ynghylch treiglo "bod," osod enw yn ei le. Perigl yr efrydydd yw ei gyfyngu i ystyr yr *Infinitive Mood* yn y Saesneg. Y mae iddo ddefnydd helaethach o lawer na hwnnw. Gwelir ef yn fynych yn weithredydd (*nom.*) ac yn wrthrych (*object*) y ferf. Ceir ef hefyd yn y *genitive case* yn dibynnu ar enwau neu ferfenwau eraill. Llywodraethir ef brydiau eraill gan arddodiaid (*prepositions*). Ni ellir gwell na rhoddi enghreifftiau o'i ddigwydd yn y cysylltiadau hyn.

1. "Dywed fod y gŵr yn fyw." Meddylier am frawddeg debig iddi,— "dywed gelwydd wrthyf." Y mae "celwydd" yn wrthrych uniongyrchol y ferf "dywed," ac oherwydd hynny troir ef yn "gelwydd." Dyna'r ddeddf. Rhodder i'r gwrthrych uniongyrchol y treigliad meddal bob amser. Y mae "bod" hefyd yn wrthrych y ferf "dywed," a throir yntau'n "fod." Wele ragor o enghreifftiau,— "Credaf lawer (nid llawer) o bethau," am hynny dyweder "Credai fod (nid bod)"; "gobeithiaf weled (nid gweled) y dyn," am hynny dyweder "gobeithiaf fod (nid bod) y dyn." "Hwy a ddechreuasant 'fod' yn llawen," medd y Beibl (Luc 15. 24). Digwydd i "bod" yn union fel pe dywedid "dechreuasant ganu" neu "dechreuasant lawenhau."

*Nodiad.*—Ni wna ychwanegu ymadrodd rhwng y ferf a'r gwrthrych unrhyw wahaniaeth, *e.e.*,

"Dywed, er hynny, 'fod' y gŵr yn fyw," "Dechreuasant, er neithiwr, 'fod' yn llawen."

2. "Y mae'n dywedyd bod y gŵr yn fyw." Meddylier eto am ei thebig, "Y mae'n dywedyd celwydd wrthyf."

Yn y frawddeg hon y mae “celwydd” yn y *Gen. Case* ac yn dibynnu ar “dywedyd.” Y rheol yw na ddylid treiglo'r *Gen. Case* (ac eithrio ychydig o ymadroddion adnabyddus fel “Tŷ Ddafydd” (Luc 1. 69), “Tŷ Dduw,” &c. Yn unol a'r rheol hon erys “celwydd” heb ei dreiglo. Yn hollol fel “celwydd,” dibynna “bod” ar “dywedyd,” ac ni threiglir yntau. Byddai “dywedyd *fod*” yn anghywir. Wele enghrciffitiau pellach,—“Yr wyf yn credu llawer (nid lawer) o bethau,” am hynny dyweder, “Yr wyf yn credu *bod* ;” “Yr wyf yn gobeithio gweled (nid weled) y dyn,” am hynny dyweder, “Yr wyf yn gobeithio *bod* y dyn.” “Heb ewyllysio *bod* neb yn golledig,” medd 2 Pedr 3. 9, fel pe dywedid “heb ewyllysio *canu*” neu “ewyllysio *llawenhau*.”

*Nodiad.*—Fe dreiglir yr enw dibynnol os ychwanegir ymadrodd rhyngddo a'r gair y dibynna arno, *e.e.*,

“Y mae'n dywedyd, weithiau, *fod* y gŵr yn fyw” ;  
 “Heb ewyllysio, byth, *fod* neb yn golledig.”

3. “Dywedir *bod* y gŵr yn fyw.” Eto “dywedir celwydd wrthyf.” Celwydd yw gwrthrych y ferf amhersonol “dywedir.” Y mae'r ymadrodd yn gyfystyr â phe dywedid yn Saesneg “people tell a lie,” or “they tell.” Eithr ni threiglir gwrthrych berf amhersonol megis y gwneir â gwrthrych berf gyffredin. Y ddeddf yw treiglo gwrthrych berf gyffredin ; *e.e.*, “dywed *gelwydd*.” Gwel rhif 1 uchod. Yn y modd hwn y gwahaniaethir rhyngddo â'r gweithredydd. Eithr ni threiglir gwrthrych berf amhersonol. Yr hen arfer oedd peidio â threiglo gwrthrych unrhyw ferf ar ol y trydydd person unigol. “Dywedir celwydd,” felly, yw'r ffurf gywir. Yr un modd y mae'r frawddeg “*bod* y gŵr yn fyw” yn wrthrych y ferf “dywedir,” ac o ganlyniad ni threiglir “*bod*.” Gwelir llawer o

bethau," am hynny "gwelir bod," "gobeithir gweled," am hynny "gobeithir bod." "Ac yno y digwyddodd bod gŵr i'r fall" (2 Sam. 20. 1).

*Nodiad.*—Y mae ychwanegu ymadrodd yn peri treiglo "bod," e.e.,

"Dywedir, gan lawer, fod y gŵr yn fyw."

"Digwyddodd, yn sydyn, fod gŵr i'r fall."

4. Na threigler bod ar ol "a" (*and*). "Dywed fod y dyn yn fyw, a bod (nid ac fod) arian ganddo." Wele enghreifftiau o'r Beibl,—“rhag iddynt gredu ‘a bod’ yn gadwedig” (Luc 8. 12); “gan wregysu lwynau eich meddwl ‘a bod’ yn sobr” (1 Pedr 1. 13); “Yr ydym ni yn dywedyd mai Samaritan wyt ti, ‘a bod’ gennyt gythraul” (Ioan 8. 48).

Edrycher yn gyntaf ar berthynas "bod" â'r gweddill o'r frawddeg, a phenderfynwr ei dynged yn ol yr enghreifftiau uchod. Fe'i treigler yn ddi-eithriad lle digwydd ymadrodd rhyngddo â'r gair y pwysa arno neu y perthyn iddo.

Defnyddir "bod" fel berfenwau eraill ar ol arddodiaid a rhagenwau meddiannol. Pan ddigwyddo hynny, ni phair drafferth. Er enghraifft,—

Fy mod	Ein bod.
Dy fod	Eich bod
Ei fod	Eu bod.
Ei bod	

Eto. "Cyn bod y byd" (Ioan 17. 5), fel "cyn galw ohonynt" (Es. 65. 24). "Gan fod yn weledig iddynt" (Actau 1. 3), fel "gan ddywedyd" (Math. 5. 2).

## 4.—RHIFNODAU.

“*Pa dreigliadau sy'n dilyn y Rhifnodau?*”

Dilynir yr holl Rifnodau gan y sain wreiddiol ac eithrio'r canlynol.

1. Dilynir “un” gan sain wreiddiol enw gwrywaidd, eithr gan feddal enw benywaidd, *e.e.*, Un *gwr*; Un *wraig*.

Ni threiglir *rh* ac *ll* er iddynt berthyn i enw benywaidd, *e.e.*, Un *llinell*, Un *llythyren*, Un *rheol*.

2. Dilynir dau a dwy gan y sain feddal, *e.e.*, dau *fab*, dwy *geiniog*.

3. Dilynir “tri” a “chwe” gan sain chwern *c*, *p*, *t*, *e.e.*, tri *chawr*, chwe *chufudd*.

4. Treiglir “blynedd” a “blwydd” i *mlynedd* a *mlwydd*, a diwrnod i *niwrnod* ar ol pum, saith, wyth, naw, deng, deunaw, ugain, can, ynghyd â ffurfiau cyfansodd deng, ugain, can, *e.e.*, deuddeng *niwrnod*, deng *niwrnod*, can *mlwydd oed*, deuddeng *mlwydd oed*.

Sylwer nad yw “chwe” ymhlith y rhifnodau hyn. Y mae chwe *mlynedd* yn anghywir. Dilynir chwe â threigliad chwyrn *c*, *p*, *t*, eithr ynglŷn â phob llythyren arall, fe ddilyn y rheol, *e.e.*, “Chwe *blynedd* am dy braidd” (Gen. 31. 41). “Wedi chwe *diwrnod*” (Marc 9. 2). Y mae'r plentyn yn “bum *mlwydd oed*.” Y flwyddyn nesaf bydd yn “chwe” *blwydd oed*. Peidier â threiglo *blynedd*, *blwydd* a *diwrnod* ar ol chwe.

5. Y mae “deng” yn gofyn y drwynol i'w ddilyn, *e.e.*, “deng *mustach*” (Num. 29. 23), deng *nafad*, deng *mlynedd*, deng *niwrnod*.

Y mae un eithriad,—

Fe'i dilynir gan feddal *g*, *e.e.*, dengwaith, dengwr.

D—Llyfr Gloywi Cymraeg.



Ond nid arferir “deng” ond o flaen sain drwynol *b, d*, neu sain feddal *g*; o flaen cydseiniaid eraill arferir “deg,” *e.e.*, *deg punt*, *deg ty*, *deg llong*; o flaen llafariad hefyd, *deg awr*, er y dywedir hefyd *deng awr*.

6. Dilynir “saith” ac “wyth” gan y feddal; saith waith, wyth bunt, saith geiniog, wyth lath, &c.

Eithriad: Rhif 4 uchod—saith mlynedd, &c.

### Y RHESTROLION.

Dilynir y Rhestrolion neu'r Trefnolion gan lythyren wreiddiol enw gwrywaidd a chan lythyren feddal enw benywaidd.

Sylwer bod cyntaf yn dilyn yr enw. Ceidw'r ffurf wreiddiol ar ol enw gwrywaidd, ond fe'i treigilir i'r feddal ar ol enw benywaidd, *e.e.*, y dyn cyntaf, y wraig gyntaf. Yr unig eithriad i'r rheol ymhlith y gweddill yw “ail.” Ceidw “ail” y rheol yn ddi-eithriad ynglŷn ag enwau benywaidd. Fe'i dilynir yn gyson gan y sain feddal, *e.e.*,—

ail farwolaeth, ail wyliadwriaeth, ail law.

Yn y Beibl y mae “ail” ar ei oreu yn ceisio perchi'r rheol ynglŷn ag enwau gwrywaidd, *h.y.*, fe'i dilynir gan y sain wreiddiol, *e.e.*,—

ail dydd, ail mab, ail bustach, ail cerbyd, ail dyn.

Nid yw ei barch i'r rheol yn gyson, oblegid ceir amryw enghreifftiau lle dilynir ef gan y feddal hyd yn oed mewn geiriau gwrywaidd, *e.e.*,—

Ail lythyr, ail lyfr.

Erbyn hyn, dilynir “ail” ymron yn ddi-eithriad gan y llythyren feddal mewn geiriau gwrywaidd a benywaidd yn ddiwahaniaeth. Ni sonnir heddyw am “ail

cerbyd ” neu “ ail dyn,” ond am ail gerbyd ac ail *ddyn*.  
Y mae'n ddiogel inni bellach lunio'r rheol fel hyn,—

Dilynir y Rhestrolion neu'r Trefnolion gan lythyren wreiddiol enw gwrywaidd a chan lythyren feddal enw benywaidd, ac eithrio “ail” a ddilynir gan lythyren feddal enwau gwrywaidd a benywaidd.

### 5.—ENW FEL RHAGFERF.

*A ddylid treiglo enwau pan fynegont amser neu fesur neu bellter ?*

Dylid rhoddi iddynt y treigliad meddal, er enghraifft, “Daeth yma ‘ ddydd ’ Sul,” nid “ ‘ dydd ’ Sul.” “Ysgrifennodd ‘ fore ’ Sadwrn,” nid “ ‘ bore ’ Sadwrn.” “Aeth ‘ beth ’ ffordd,” nid “ peth ffordd.”

Gellir mynegi'r rheol drwy ddywedyd bod enw (*noun*), pan ddefnyddir ef fel rhagferf (*adverb*) yn cymryd y treigliad meddal. Y mae “ ddydd Sul ” yn gyfystyr â rhagferf a ddynoda amser. Cyflyrau traws (*oblique cases*) enwau yw llawer o ragferfau, ac fel y cyfryw fe'u ceir yn y treigliad meddal, er enghraifft,—“ fry ” (*up*) o “ bre ” (*hill*). Penbre,—plwyf geni'r awdur,—(*the top of the hill*) ; “ beth ” (*to some extent*) o “ peth ”—pethau (*thing*).

Wele adnodau,—“ Efe a drigodd gydag ef fis o ddyddiau ” (Gen. 29. 14). “ Yn ei wasanaethu ef ddydd a nos ” (Dat. 7. 15).

Ond ar ddechreu brawddeg cymerant y sain wreiddiol. “ *Llawer gwaith y bûm ; Dydd Sul y dof ;* ” oddieithr rhai digyfnewid fel “ fry.”

## 6.—MANION.

*Treigliadau Hynod.*

1. Y mae “ yn ” yn rhoddi’r ffurf feddal i ansoddair neu enw traethiadol, eithr nid yw’n treiglo’r berfenw o gwbl. Eithr pan ddêl yr ansoddair rhwng “ yn ” a’r berfenw, fe dry’n ei ol i’w ffurf wreiddiol ac fe dry’r berfenw i’r feddal; *e.e.*, “ Yn ddyfal ” ac “ yn ceisio ” yw’r ffurfiau cywir. Eithr o osod y naill o flaen y llall, fe geir “ yn dyfal geisio,” “ yn cyflym ddringo,” “ yn taer ddymuno.” Sylwer bod y gair a ddaw rhwng “ yn ” a’r berfenw yn ei ffurf wreiddiol.

2. Dilynir *ni*, *na*, ac *oni* gan y treigliad meddal pan fo’r gair yn dechreu â *b*, *d*, *g*, *m*, *ll* ac *rh*. Eithr ni threiglir ffurfiau “ bod ” bob amser.

“ Ni bydd eisiau arnaf ” (Salm 23).

“ Fel na byddai i’r rhai byw ” (2 Cor. 5. 15).

“ Oni bai fy nyfod ” (Ioan 15. 22).

Sylwer mai’r gydsain wreiddiol, ac eithrio *c*, *p*, *t*, sy’n dilyn *na* pan yw’n gyfystyr â *nor*, “ na brawd na mam.”

3. Y mae’r gweithredydd, neu’r testun, bob amser yn ei ffurf wreiddiol, ond yn fynych rhoid iddo’r ffurf feddal ar ol y trydydd person unigol yr amser amherffaith a gorberffaith, *h.y.*, ar ol y terfyniad “ ai ”; *e.e.*, “ Efe a weddiodd na byddai law ” (Iago 5. 17). Ac fe dreiglir ar brydiau weithredydd oes, oedd, a bu.

“ Yn yr hwn nid oes dwyll ” (Ioan 1. 47).

“ A bu dawelwch mawr ” (Math. 8. 26).

#### IV.

### Y FANNOD.

Y MAE teir-ffurf i'r fannod (*article*) yn y Gymraeg, *yr*, *y*, ac *'r*. Ni cheir trafferth gyda'r ddwy ffurf flaenaf. Defnyddir *yr* o flaen llafariad a'r llythyren *h*, ac *y* o flaen cydseiniaid, fel yr ebol, yr afal, yr ysbryd, yr haul, y ffynnon, y delyn, y tad. Pe cynygiai ddyn ei oreu, anodd iddo lithro ar arfer *yr* ac *y*. Eithr llithra llawer gyda'r *'r*. Dyma'r rheol,—dylid defnyddio'r “*'r*” pan fo'r gair sydd o'i flaen yn terfynu â llafariad. Codwyd y brawddegau canlynol,—ni waeth o ble na pha bryd,—

“Y mae y gair diwygiad.”

“Nid yw y capeli yn llawn.”

“Hawliau y werin.”

“Pwysleisio y groes.”

“Dyma y weinidogaeth sydd i lanw y capeli.”

Yn wyneb deddf, y mae'r brawddegau hyn yn ddi-ffygiol. Dylid dywedyd,—

“Y mae'r gair diwygiad.”

“Nid yw'r capeli'n llawn.”

“Hawliau'r werin,” &c., &c.

Ni freuddwydiai neb na sgrifennu na llefaru “oherwydd i yr pregethwr gyhoeddi,” neu “wedi i y tân losgi.” Y mae'r brawddegau hyn yn rhy fusgrell i'w gosod ar bapur. Dalier at y rheol syml,—*yr* o flaen llafariad (*vowels*) neu *h*, *y* o flaen cydseiniaid (*consonants*), ac *'r* pan fo'r gair blaenorol yn terfynu â llafariad.

“Pa wahaniaeth sydd rhwng y defnydd a wneir o'r Fannod yn y Gymraeg a'r Saesneg”?

1. Ni ddefnyddir y Fannod yn y Gymraeg pan wneir yn y Saesneg.

(a) Gydag enwau afonydd. Nid cywir mo'r Beibl yn hyn. Y mae'r ymadrodd " yn ' yr ' Iorddonen " ac " o amgylch ' yr ' Iorddonen " (Math. 3. 5, 6) yn anghywir. Y mae eisiau cywiro llinellau Ieuan Glan Geirionydd,—

" Pan yn wynebu ymchwydd " yr " Iorddonen ddofn a'i lli."

Gwelais gywiro llinell arall o'i eiddo,— " Ar lan ' 'r ' Iorddonen ddofn." Felly hefyd y dylid sôn am Hafren, nid " yr " Hafren. " Yngwaelod Tems " (*Thames*) a geir yn " Drych y Prif Oesoedd." Siaradwn am Gwm Tawe, nid Cwm y Tawe, am Glyn Dyfrdwy, nid Glyn " y " Dyfrdwy, ac am Ddyffryn Taf, nid Dyffryn " y " Taf. Na ddefnyddied neb y Fannod gydag enwau afonydd.

(b) Pan ddilynr enw gan enw arall sydd eisoes yn rhoddi ystyr gyfyng iddo, *e.e.*, " Meibion a merched dynion " (*The sons and " the " daughters of men*); " Mab y brenin " (*" The " son of the king*); " Plant Israel " (*" The " children of Israel*).

(c) Pan fo enw neu ansoddair yn dilyn enw priodol (*proper noun*) fel teitl neu ddisgrifiad pellach o hono, *e.e.*,

Gerallt Gymro (*Gerald " the " Welshman*).

Ioan Fedyddiwr (*John " the " Baptist*).

Llywelyn Fawr (*Llywelyn " the " Great*).

2. Defnyddir y Fannod yn y Gymraeg pan nas defnyddir yn y Saesneg.

(a) Ynglŷn wrth deitlau, galwedigaethau, &c.

" Y " tad Jones (*Father Jones*).

" Yr " Esgob Owen (*Bishop Owen*).

" Y " Tywysog Edward (*Prince Edward*).

" Y " Prif Athro Edwards (*Principal Edwards*).

(b) Ynglŷn wrth ddyddiau, a thymhorau, a phwysau, &c., mewn brawddegau arbennig,—

Y mae ardreth y tŷ yn ddeugain punt *y flwyddyn*  
(*forty pounds a year*).

Cynhelir gwasanaeth ddwywaith *y Sul* (*twice a Sunday*).

Y saeth a ehedo *y dydd* (*The arrow that flieth "by" day*).

(c) Ynglŷn wrth rai dyddiau gŵyl a thymhorau eglwys,—

Y Groglith (*Good Friday*), Y Pasg (*Easter*), Y Grawys (*Lent*), Yr Ystwyll (*Epiphany*).

(d) Mewn ymadroddion cyffredin fel,—

Yn *y dref*, i'r dref, o'r dref (*in town, to town, &c.*).

Yn *y nefoedd* (*in heaven*).

Yn *yr ysgol* (*in school*).

Hawlia'r Fannod o flaen enwau priod fel Iwerddon, Amwythig, &c., air iddo'i hun. Iwerddon oedd yr hen enw. Eithr tybiwyd yn yr eilfed ganrif ar bymtheg mai'r fannod oedd yr *I*, a datgysylltwyd hi oddiwrth Werddon, a chaed Y Werddon. Adferwyd yr *I* drachefn, ond anghofiwyd mai ei chynrychioli, o dan gamargraff o'i natur, oedd gwaith y fannod, ac nad oedd eisiau'r fannod ar ol ei hadfer. "Yr Iwerddon," felly, sy'n gyffredin heddyw; yr hen ffurf yw "Iwerddon." Digwyddodd yr un ddamwain yn hanes "Amwythig." Datgysylltwyd yr *a* o dan y dybiaeth mai'r fannod ydoedd, a chaed y ffurf, "Y Mwythig." Pan adferwyd yr *a*, cadwyd yr *Y* o dan y dybiaeth ei bod yn cynrychioli'r fannod goll. "Yr Amwythig," o ganlyniad, sy'n gyffredin heddyw. Eithr gwall rhy drwstan yw hwn i'w gydnabod yn yr iaith lenyddol; defnyddier "Iwerddon" ac "Amwythig."

V.

ENWAU.



1.—RHIF.

DAU rif sydd gan enw yn y Gymraeg, sef y rhif unigol a'r rhif lluosog. Ceir olion arfer y rhif deuol (*dual*), megis yn "yr Eifl." Fe'i ceir yn y beirdd,—

"Oedd oer ladd y ddeuwr lân  
Heb achos ond un bychan."

DAFYDD AB EDMUND (*Marwnad Sion Eos*).

Ffurfir y lluosog oddiwrth yr unigol,

1. Drwy newid y llafariad yng nghanol gair, *e.e.*, Sant, saint ; dafad, defaid.

2. Drwy gyfrwng olddodiaid (*suffixes*).

(a) Drwy "ychwanegu" olddodiad, *e.e.*, merthyr, merthyri ; llong, llongau.

(b) Drwy "ollwng" olddodiad, *e.e.*, pluen, plu ; blewyn, blew.

(c) Drwy "newid" yr olddodiad, *e.e.*, cwningen, cwningod ; meddwyn, meddwon.

3. Drwy gyfrwng olddodiaid a newid y llafariad yr un pryd.

(a) Drwy "ychwanegu" olddodiad a newid y llafariad, *e.e.*, mab, meibion ; llawr, lloriau.

(b) Drwy "ollwng" yr olddodiad a newid y llafariad, *e.e.*, draenen, drain ; dalen, dail.

(c) Drwy "newid" yr olddodiad a newid y llafariad, *e.e.*, edefyn, edafedd ; miaren, mieri.

Y mae nifer o eiriau sydd yn ddeddf iddynt eu hunain. Gwelir bod ychwanegu sillaf yn newid y llafariad yng nghanol gair,—saer, seiri; bugail, bugeiliaid; nant, nentydd; gwas, gweision; &c. Y mae'r newid yn y rhif lluosog. Eithr y mae ychydig eiriau lle ceir y sain wreiddiol yn y rhif lluosog a'r sain droi yn y rhif unigol. *Reversion* yw enw'r gramadegwyr ar y cyfnewidiad hwn. Sylwer, er enghraifft, ar y gair "lleidr." Lluosog lleidr yw lladron. Y mae'r *a* wreiddiol yn y lluosog a'r "ei,"—y newid ffurf arni yn yr unigol. Y drefn gyffredin yw'r *a* yn yr unigol a'r *ei* yn y lluosog, fel yn mab, meibion. Gelwir y cyfnewidiad yn *reversion* am fod y llafariad yn dychwelyd i'w ffurf wreiddiol yn y lluosog. Wele'r rhestr geiriau a berthyn i'r dosbarth hwn,—

Deigr, dagrau; neidr, nadredd; elain, elanedd;  
celain, celanedd; daint, dannedd; cainc, cangau;  
gwraig, gwragedd; adain, adanedd; rhiaid, rhianedd.

Ceir trafferth ynglŷn â lluosog *rhiaid* ac *adain*. Myn rhai sgrifennu rhianod ac edyn, a cheir ganddynt rhian ac aden yn yr unigol. Sylwer mai rhiaid ac adain yw'r ffurfiau priodol yn yr unigol, a rhianedd ac adanedd (sydd yn adenydd erbyn heddyw) yn y lluosog. Gair ffug, felly, yw rhiangerdd. *Rhieingerdd* sy'n briodol. Sylwer eto ar *celanedd*. Prin y mae eisiau celaneddau gan fod celanedd eisoes yn lluosog. "Rhoddasant 'gelanedd' dy weision yn fwyd i adar y nefoedd" (*The dead "bodies" of thy servants*), &c.

## 2.—CENEDL.

Gwahaniaethir enw benywaidd oddiwrth un gwrywaidd.

1. Drwy gyfrwng oldodiaid. Ffurfir y naill oddiwrth y llall,—



(1) Drwy ychwanegu'r olddodiad *-es*; *e.e.*, llew-  
llewes, arglwydd-arglwyddes.

(a) Ffurf fenywaidd duw yw *duw-ies*.

(b) Ychwanegir *-es* at ffurf luosog lleidr a Sais am mai yn y ffurf luosog y ceir y gwreiddyn. Ffurf fenywaidd lleidr yw lladrones, a thry Sais yn Saesnes. Gwelir bod yr acen yn ysbeilio'r olaf o'r *o*; nid Saesnes, eithr Saesnes. Na ddyweder ychwaith Saesneg, ond Saesneg.

(2) Drwy newid yr olddodiad *-yn* i *-en*; *e.e.*, hogyn,  
hogen; asyn, asen.

2. Drwy ddefnyddio geiriau gwahanol,—

(1) O'r un gwreiddyn,

*e.e.*, gŵr, gwraig; nai, nith.

(2) O wreiddyn gwahanol,

*e.e.*, gwas, morwyn; brawd, chwaer.

Perthyn ychydig enwau i'r ddwy genedl, yn ol y defnydd a fo arnynt; *e.e.*, y dyn (*the man*), y ddyn (*the woman*); y perthynas hwn, y berthynas hon.

Y mae rhai yn wrywaidd ac eraill yn fenywaidd pa beth bynnag fo rhyw y gwrthrych. Y mae *eryr* yn wrywaidd bob amser er iddo ddynodi'r fenyw, a *colomen* yn fenywaidd er i'r gair ddynodi'r gwryw. Yr "*eryr hwn*" a ddywedir am y tad a'r fam, a'r "*golomen hon*" am y gŵr a'r wraig. Perthyn plentyn, baban, tyst, cath, brân, cwningen, i'r un dosbarth.

Gwelir ein hysgrifenwyr yn erlid ei gilydd ambell waith, o ddiffyg ystyried bod ansicrwydd ynglŷn â chenedl llawer o eiriau yn y Gymraeg. Y mae "*man*" yn wrywaidd ac yn fenywaidd yn y Beibl. Amrywia'r Beibl ar eiriau eraill hefyd. Ceir "*y profedigaeth*"

yn Heb. 3. 8, eithr “ y brofedigaeth ” yn Dat. 3. 10. Ceir “ y *ddaeargryn* ” ym Math. 27. 54, ond “ *daeargryn mawr* ” sydd yn Math. 28. 2. Y mae cenedl yn fynych yn ddarostyngedig i ddeddf lle, ac amser. Y mae llawer o eiriau a fu unwaith yn wrywaidd, yn awr yn fenywaidd, a geiriau a fu’n fenywaidd erbyn hyn yn wrywaidd. Y mae “ addewid,” er enghraifft, yn awr yn fenywaidd, eithr sonia Actau 1. 4, am “ addewid y Tad yr *hwn* a glywsoch gennyf fi.” Y mae “ creadigaeth ” yn bur gyffredinol yn fenywaidd, eithr digwydd yr ymadrodd “ y creadigaeth ” ym Marc 10. 6, a 2 Pedr 3. 4. “ Yr un *damwain* ” medd Preg. 2. 14, lle dywedir yn awr “ yr un *ddamwain*.” “ Y *dduwiol anian* ” sydd esmwyth ar dafod heddyw, ond “ cyfranogion o’r duwiol anian ” a geir yn 2 Pedr 1. 4. Ymhlith eraill y mae treigl y blynyddoedd wedi newid eu cenedl, ceir y geiriau llys, chwedl, nef, dinas, haul, &c.

Y mae gagendor rhwng Gogledd a De ar amryw eiriau. Wele eiriau sy’n wrywaidd, mi dybiaf, ar dafod y gogleddwr, eithr yn fenywaidd ar eiddo’r deheuwr,—cyflog, ciniaw, munud, gwniadur, troed, swper, aradr. Ar y llaw arall, *ef* medd y De, ond *hi* medd y Gogledd, am clust, cwpan, tafarn, amser, &c.

Amrywia cenedl rhai geiriau yn ol eu hystyr. Y mae “ Cymraeg,” pan edrycher ar yr iaith fel un o ieithoedd y byd, yn fenywaidd, eithr dywedir bod dyn yn ysgrifennu “ Cymraeg *da*.” Y mae “ ewyllys ” fel cynneddf yn wrywaidd, ond pan ddynodo drefniant ar eiddo y mae’n fenywaidd. Y mae “ coes ” fel aelod o’r corff yn fenywaidd, ond yn wrywaidd mewn ymadroddion fel “ coes morthwyl.” I’r dosbarth *hwn* y perthyn “ man,” er inni golli golwg ers llawer dydd ar y gwahaniaeth yn y defnydd ohono. Dywedir wrthym fod “ man ”

(gwrywaidd) yn dynodi *spot*, a bod "man" (benywaidd) yn dynodi *place*. Dyna'r pam y dywedir "man gwan" am *weak spot*, a "gwelwch y fan" am *see the place* (Math. 28. 6).

Gan ein bod ynglŷn â chenedl geiriau, y mae dau air y dylid galw sylw at eu sillafiaeth. Gwelir "awen" ac "afwyn" am yr un gair *rein* (ffrwyn). Y mae "afwyn" yn ffurf gyfreithlon oddiwrth y Lladin "habena" ac y mae cenedl y gair yn fenywaidd. Ond oherwydd edrych ohono'n debyg i air gwrywaidd, newidwyd "afwyn" gan rai "yn awen." "Afwyn" yw'r gair priodol am *rein*, a'i luosog yw "afwynau." Cadwer "awen" i ddynodi *the muse*, &c. Troir "cadwyn" yn "cadwen" am yr un rheswm, a cheir "cadwen o englynion" neu "gadwen o alawon." Y mae'r fath air â "cadwen" yn y Gymraeg fel ffurf ar *cadwent*; eithr ei ystyr yw *battle* neu *engagement*. "Cadwyn" yw'r ffurf briodol, a pherthyn i'r genedl fenywaidd.

## VI.

### ANSODDEIRIAU.



#### 1.—RHIF.

FFURFIR y rhif lluosog oddiwrth yr unigol.

1. Drwy newid y llafariad yng nghanol gair, *e.e.*,—  
hardd, heirdd; bychan, bychain.

2. Drwy gyfrwng yr olddodiaid *-ion* a *-iaid*, *e.e.*,—  
(1) *-ion*. gwyn, gwynion; cul, culion.

Az ol *w, u, dr, thr*, collir yr *i* a cheir *-on* yn lle *-ion*; *e.e.*, chwerw, chwerwon; du, duon; budr, budron; llathr, llathron.

(2) *-iaid*. blwydd, blwyddiaid.

3. Drwy newid y llafariad ac ychwanegu *-ion* a *-iaid* yr un pryd, *e.e.*,—

(1) *-ion*. tlawd, tlodion; glas, gleision.

(2) *-iaid*. gwan, gweiniaid.

Tueddir i ddefnyddio'r unigol hyd yn oed pan fo ansoddair ynglŷn wrth enw lluosog. Ymwrthodir, yn arbennig â rhif 2 a 3 uchod. Anfynych y siaradwn am “ddynion tlodion,” eithr am “ddynion tlawd.” Yn lle “cadeiriau gweigion” a “bechgyn deillion,” dywedwn “cadeiriau gwag” a “bechgyn dall.” Y mae mwy o ymarfer ar rhif 1 uchod; *e.e.*, gwŷr ieuainc, plant bychain. Y mae rhestr hir o ansoddeiriau nad oes iddynt ffurf lluosog o gwbl, megis da, drwg, bach, hagr, caled, hawddgar, &c. Dylanwad y rhain yn ddiameu a gyfrif am y duedd i ymwrthod â'r ffurfiau lluosog.

## 2.—CENEDL.

Nid oes ond un ffordd i droi ansoddair gwrywaidd yn fenywaidd, sef drwy newid y llafariad *w* yn *o*, ac *y* yn *e* yng nghanol y gair, *e.e.*,—

tŷ llwm	ystafell lom.
ceffyl gwyn	caseg wen.

Rhoddir y sain feddal i ansoddair a ddilyno enw benywaidd, *e.e.*,—

gwraig *dd*rwg, buwch *g*och.

Nid yw pob *w* yn troi'n *o* na phob *y* yn troi'n *e*. Cyfyngir y cyfnewidiad (1) i eiriau unsillaf. Wele restr o'r geiriau mwyaf arferedig,—blwng, brwnt, crwm, crwn, dwfn, hwn, llwm, mll, tlws, trwm, brych, byr, cryf, gwlyb, gwyn, gwyrdd, hysb, llym, sych, syth, ynghyd â'r gair lluosill melyn.

(2) I ychydig o eiriau cyfansodd, *e.e.*, claerwyn, pengrwn, &c.

Sylwer ar y duedd i anwybyddu ffurf fenywaidd yr ansoddair,—

(1) Nid oes ffurf fenywaidd luosog yn bod i'r ansoddair, a defnyddir y ffurf wrywaidd arno pan fo'r enw'n lluosog, er iddo fod yn enw benywaidd, *e.e.*, gwraig dlos—gwragedd *tlws*.

(2) Cyfyngir y ffurf fenywaidd i radd syml yr ansoddair. Llafariad y ffurf wrywaidd a geir yn y graddau eraill, *e.e.*, afon *dd*ofn, ond *dy*fned, *dy*fnach, *dy*fnaf.

(3) Gogwyddir yn fwyfwy i ddefnyddio'r ffurf wrywaidd hyd yn oed pan fo'r enw benywaidd yn yr unigol, *e.e.*, gwraig *fr*wnt; ond *dir*wiad yw hyn.

Y mae nifer mawr o ansoddeiriau nad oes iddynt ffurf fenywaidd, megis *dr*wg, *gl*wth, *ty*wyll, *gw*ych,

gwylt, rhydd, &c. Dylanwad y rhain, yn ddiameu, a gyfrif am y duedd i ymwrthod â'r ffurf fenywaidd. Tueddir i ddefnyddio ffurf wrywaidd ac unigol yr ansoddair hyd yn oed pan fo'r enw'n fenywaidd a lluosog,—y teithiau *byr*—nid ber na byrion.

### 3.—GRADDAU CYMHARIAETH.

*Pa fodd y ffurfir gradd gyfartal (equative degree) yr ansoddair gyda "cyn" a "mor."*

Y mae'n well inni fynd yn ol i'r dechreu a sylwi bod i'r ansoddair bedair gradd,—y gysefin, y gyfartal, y gymharol, a'r eithaf. Dyellir hwynt yn well, o bosibl, wrth roddi iddynt eu termau Saesneg,—*positive, equative, comparative, superlative*. Fe'u ffurfir fel hyn,—

(a) Hardd, hardded, harddach, harddaf.

(b) Gyda geiriau tri-sillaf neu ragor defnyddir mor, mwy, a mwyaf.

Dymunol, mor ddymunol, mwy dymunol, mwyaf dymunol.

(c) Yn ychwanegol at y ddwy ffordd yma, ffurfir y radd gyfartal drwy osod cy, cym, cys, &c., o flaen enwau fel cyhyd, cymaint, cystal, &c., a thrwy osod "cyn" o flaen y ffurf a derfyna ag "ed" ac "â" (ag) ar ei ol, *e.e.*, "cyn laned â'r haul."

Gwelir oddiwrth hyn fod teir-ffordd i ddynodi gradd gyfartal yr ansoddair,—

hardd	hardded.
	mor hardd.
	cyn hardded.

Ni ddylid ddefnyddio "hardded" wrtho'i hun, oddi-eithr mewn datganiad o synedigaeth, fel "hardded y

dref!" neu "laned y wraig!" Y mae'n rhaid inni ddewis, felly, rhwng "mor hardd" a "cyn hardded."

Yn awr, y camsyniad cyffredin a wneir ydyw defnyddio "mor" gyda'r ffurf yn "-ed" yn lle "cyn," a dywedyd "mor hardded" yn lle "cyn hardded" neu "mor hardd;" "mor lleied" yn lle "cyn lleied" neu "mor fach;" "morgaleted" yn lle "cyn galed" neu "mor galed." Na ddefnyddier "mor" gyda'r ffurf a derfyna ag "-ed," eithr gyda'r ffurf wreiddiol. Wele enghraifft neu ddwy,—“mor ddiogel” (Math. 27. 65), “Cyn wynned â'r eira” (2 Bren. 5. 27), “cyn gynted ag” (Ioan 11. 20).

*Nodiad.*—Ni ellir defnyddio "can" yn gyfystyr a "cyn." Y mae'n anghyfreithlon dywedyd "can wynned." Fe'i ceir yng nghyfarwyddiadau gramadegol y ganrif o'r blaen, eithr nid oes iddo ddefnydd gyda'r ansoddair. Y mae "can" gyda'r radd gyfartal yn afreolaidd; "cyn" yn unig sy gywir.

## VII.

### RHAGENWAU.



#### 1.—Y RHAGENW PERSONOL MEWNOL (INFIXED).

##### (a) Y CYFLWR MEDDIANNOL.

A oes eisiau'r " 'th " yn y frawddeg " a'th wadu dy hun " ?

Y mae'r ffurf ymadrodd hwn yn ddiddorol a phwysig. Yr ymadrodd syml yw " a'th wadu," eithr er mwyn ei gadarnhau fe chwanegir " dy hun." Y mae " a gwadu dy hun " yn anghywir. Nid " dy hun " yw'r *genitive* gyda " gwadu," ond y rhagenw mewnlol (*infix*ed *pronoun*) 'th. Ychwanegir " dy hun " i gwblhau'r syniad o feddiant ar ol y rhagenw personol meddiannol (*personal possessive pronoun*). Ni chaniateir gadael allan y rhagenw. Hwn, mewn gwirionedd, yw'r gair pwysig yn y frawddeg. Digwydd yr un modd mewn brawddegau lle bo'r rhagenw yn wrthrych y ferf. Wele ddigon o enghreifftiau,—

" Er 'fy' mwyn fy hun " (Es. 37. 35).

" Gan 'dy' ystyried dy hun " (Gal. 6. 1)..

" Yn 'ei' ddyrchafu ei hun " (Luc 18. 14).

" Ac a'i rhoddodd ei hun " (Eph. 5. 2).

" Yn 'ein' canmol ein hunain " (2 Cor. 5. 12).

" Yn 'eich' rhoddi eich hunain " (Rhuf. 6. 16).

" 'Eu' trefnu eu hunain " (1 Tim. 2. 9).

" Ac a'u gwanasant eu hunain " (1 Tim. 6. 10).

" 'Dy' eglurhau dy hun i ni " (Ioan 14. 22).



## (b) GWRTHRYCH Y FERF.

*A oes gwahaniaeth yn y modd y defnyddir “ni” a “nis”?*

Y mae gwahaniaeth pwysig rhyngddynt, eithr defnyddir hwynt yn fynych heddyw heb na rheol na threfn. Y mae mwy o arfer ar “nis” a “nas” yn awr nag mewn Hen Gymraeg. Darllener “Drych y Prif Oes-oedd” neu “Lyfr y Tri Aderyn,” a sylwer mor anaml y digwydd y rhain yn ogystal a’r geiriau “onis” a “pes.” Collir golwg y dyddiau hyn ar swydd wreiddiol yr *s* a geir ynddynt. Ni thynnir gwahaniaeth yn y byd rhyngddi a’r *s* a ddiweddo unrhyw air arall. Er bod eithriadau annymunol, y mae ystyr i’r *s* hon yn y Beibl, ac nis defnyddir ond pan fo galw am dani. *Dylid cofio mai rhagenw personol mewnol, trydydd person unigol a lluosog, yw yr “s” yn y geiriau hyn.* Y mae bob amser yn wrthrych y ferf ac yn digwydd o’i blaen mewn brawddeg. Wele’r un gosodiad yn Saesneg,—“*S,*” *when attached to “ni,” “na,” “oni,” and “pe,” is an infixed personal pronoun, third person, singular and plural, standing in the accusative case before a verb.* Y mae’n rhaid iddi gyfieithu *him, her, it, neu them.* Edrycher ar yr enghreifftiau canlynol yn y Beibl,—“Ac ‘nis’ tery gwres na haul hwynt,”—*Neither shall the heat nor sun smite “them”* (Es. 49. 10). Y mae “hwynt” yn gyfystyr a’r *s* yn nis. “A Laban a chwilioodd yr holl babell ac ‘nis’ cafodd” (Gen. 31. 34). Hynny yw, ni chafodd y duwiau a gymerasai Rahel. *And Laban searched all the tent, but found “them” not.* Yr *s* yw’r *them* yn y frawddeg Gymraeg. Eto,—“ac nis gomeddais ef” (1 Bren. 20. 7),—*And I denied “him” not.* Y mae’r *s* yn nis yn cyfateb i’r Saesneg *him*, a chadarnheir yr *s* yn y frawddeg hon gan “ef.” A thrachefn,—“Ac nis gwelsant”; “ac nis

clywsant ” (Luc 10. 24),—*And have not seen “them” ; And have not heard “them.”* Y mae'n haws gweld ei harwyddocâd wrth roddi'r ffurf 's iddi. Y mae'r rhagenw'n gyflawn fel hyn.

Ni 'm gwelodd (*He saw me not*).

Ni 'th welodd (*He saw thee not*).

Ni's gwelodd (*He saw him, her, it, not*).

Ni'n gwelodd (*He saw us not*).

Ni 'ch gwelodd (*He saw you not*).

Ni's gwelodd (*He saw them not*).

Gwelir bod s y trydydd person yn cyfateb i 'm, 'th, 'ch, y personau eraill. Ac wrth fynd heibio, sylwer ar fireinder yr ymadrodd “ni'm gwelodd” yn hytrach na “ni welodd fi.” Gwell fyddai “pe'm lladdai” yn Job 13. 15, na'r ymadrodd a geir yno “pe lladdai efe fi.” Od oes eisiau gosod pwys ar y person, dyweder. “ni'm gwelodd 'i.' ”

Wele enghreifftiau pellach,—“A'r eiddo ei hun nis derbyniasant ef” (Ioan 1. 11). “Pes adwaenasent” (1 Cor. 2. 8),—“*had they known 'it.'* ”

Clywir cynulleidfa'n canu'n fynych,—

Trugaredd imi dyro,

Rhaid marw oni chaf.

Y mae synnwyr y llinell olaf yn anorffen,—“rhaid marw oni chaf *hi*,” yw'r meddwl. Gellir mynegi'r synnwyr a chadw'r fydryddiaeth drwy ddywedyd,—

“rhaid marw onis *caf*,”

*if I do not obtain IT*,—y drugaredd.

Yr un s a geir yn y gair “os.” Y gair am *if* yn y Gymraeg yw o. “O cherwch fi” (Ioan 14. 15),—“*If ye love me.*” “O phecha neb” (1 Ioan 2. 1),—“*‘If’ any man sin.*” Eithr bellach defnyddir “os” heb feddwl am swydd wreiddiol yr s, sef yw hynny,

cynrychioli gwrthrych y ferf. Gwir ystyr “os mynni” yn Math. 8. 2, yw, “*If Thou dost will ‘it,’*” sef glanhau'r gwahanglwyfus.

*Cadwer mewn cof y rheolau canlynol,—*

(1) Defnyddier yr *s* i gynrychioli'r trydydd person unigol neu luosog. Y mae'r frawddeg “nis gadawaf chwi yn amddifaid” (Ioan 14. 18) yn anghywir. Ail berson yw “chwi,” ac ni ellir wrth “nis” gan mai trydydd person ydyw. Dylai'r frawddeg ddarllen,— “Ni'ch gadawaf chwi yn amddifaid.”

(2) Defnyddier yr *s* gyda berfau anghyflawn (*transitive verbs*) yn unig. “Nis gwnaf” (Gen. 18. 29, 30),— “*I will not do ‘it.’*” “Nis difethaf” (Gen. 18. 31, 32),— “*I shall not destroy ‘it.’*” Y mae'r *s* yn wrthrych “gwnaf” a “difethaf,” fel y mae *it* yn wrthrych *do a destroy*.

(3) Ni ddefnyddir yr *s* pan fo gwrthrych eisoes yn y frawddeg. Edrycher ar 1 Cor. 2. 9,—“Ni welodd llygad ac ni chlywodd clust ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant Ef.” Gadewir yr *s* allan oherwydd bod y frawddeg “y pethau a ddarparodd Duw” yn wrthrych y gwahanol ferfau. Nid oes mo'i eisiau chwaith yn Luc 14. 20,—“Nis gallaf fi ddyfod.” Y mae *dysod* yn wrthrych *gallaf*, ac nid oes galw am yr *s*.

## 2.—Y RHAGENW PERTHYNOL.

Y rhagenwau perthynol yw *a*, *yr* o flaen llafariaid, ac *y* o flaen cydseiniaid. Defnyddir *a* fel gweithredydd neu destun ac fel gwrthrych, a defnyddir *yr* ac *y* yn y cyflwr traws.

## (a) GADAEI Y RHAGENW ALLAN.

*A yw'r frawddeg hon yn gywir,—“Hwn yw'r bachgen ymunodd â'r fyddin”?*

Y mae'r frawddeg yn enghraifft o'r modd llac yr ysgrifennir Cymraeg gan lawer ohonom. Nid yw'n cynnwys y rhagenw perthynol. Dylai ddarllen fel hyn,—“Hwn yw'r bachgen ‘a’ ymunodd â'r fyddin.” Dywedir “dyma'r llyfr ‘a’ roddwyd iddo,” yn hytrach na “dyma'r llyfr roddwyd iddo,” ac yn hytrach na dywedyd “dyma'r newydd cyntaf ddaeth i'm clyw,” dylid ar bob cyfrif ddywedyd, “dyma'r newydd cyntaf ‘a’ ddaeth i'm clyw.” Sylwer arno'n y Beibl,—“dinas ‘a’ osodir ar fryn” (Math. 5. 14); “a dderbyn am y cam ‘a’ wnaeth” (Col. 3. 25); “A'r brenin a gâr ‘a’ draetho yr uniawn” (Diar. 16. 13). Ni ddylid anwybyddu'r rhagenw perthynol. Y mae'n rhaid wrtho mewn Cymraeg cywir a phersain.

## (b) CAMDDEFNYDDIO “AG.”

Sylwer ymhellach ar y pwyntiau canlynol ynglŷn â'r rhagenw perthynol. Y mae rhai sgrifenyddyr yn bur hoff o ddefnyddio “ag” o'i flaen neu yn ei le. Dyma frawddeg yn egluro'r peth,—“Arweinydd y gân cyntaf ‘ag’ y gwyddom ni am dano ynglŷn â'r achos oedd A. B.” Yn ei hymyl ceir yr un ddilynol,—“Y blaenor cyntaf ‘ag’ mae gennym sicrwydd am dano oedd C. D.” “Y dyn caredig,” ebe rhywun yn ddiweddar, “‘ag’ ych chwi a minnau yn mwynhau ei roddion daionus.” Ni all “ag” gymryd lle'r rhagenw o dan unrhyw amgylchiad, fel y gwneir yn y ddwy frawddeg olaf, er y gellir o flaen y rhagenw fel yn y frawddeg flaenaf. Dylid ysgrifennu “y gwyddom,” “y mae,” “yr ydych.” Y mae “ag” yn gywir o flaen y rhagenw pan fo'n dilyn ansoddair yn y radd uchaf, fel

cyntaf ” uchod. Arferir ef hefyd weithiau fel math o dalfyriad o “ o’r fath ag ” neu “ o’r cyfryw ag ” ; ond anhyfryd yw’r camarfer ohono, a chamgymeriad mawr yw ei arfer *yn lle’r* rhagenw perthynol.

Wele enghraifft o’r defnydd cywir arno a ddyfynnir gan Syr John Morris Jones yn ei ramadeg (gwel td. 409),—

“ Y glanaf *ag* a luniwyd,  
A’r gorau oll o’r gwŷr wyd.”

*Tudur Aled.*

Gellir defnyddio “ ag ” o flaen y rhagenw perthynol, ond ni all gymryd ei le.

(c) YR YMADRODD “ Y SYDD.”

Yr hen ffurf ar hwn oedd “ ysydd,” a’i ystyr wreiddiol oedd *who is*, neu a dilyn trefn dwy elfen y gair *is who*. Fe geir y ffurf hon ar y gair hyd at adeg cyfieithu’r Beibl. Wedi hyn fe ddatgysylltwyd yr *y* a chaed yr ymadrodd “ y sydd.” Nid *y* wedi’i chwanegu yw hon, ond yr *y* oedd yn *ys* wedi’i chadw. Elfennau’r ymadrodd yw *ys ydd*, ac felly y dylid ei sgrifennu a bod yn gywir. Defnyddir *ys* o hyd fel ffurf amhersonol. Ni ellir, bellach, adfer yr hen ffurf *ysydd* na chadw’r elfennau cywir *ys - ydd*, ond fe ddylid cadw golwg ar ystyr a ffurf wreiddiol yr ymadrodd. Wele ddyfyniad o Hen Gymraeg,—“ y gŵr hir *ysydd* yno ” ; a cheir y ffurf newydd arno yn Heb. 11. 12, “ Megis y tywod ar lan y môr *y sydd* yn aneirif.” Ceir digon o enghreifftiau yng ngweithiau’r beirdd.

“ Naw pren teg eu hwynepryd  
*Ysydd* o goedydd i gyd,”

medd Dafydd ab Gwilym ; ac ebe D. ab Edmwnd,—

“ Gwrid mawr o gariad morwyn  
*Ysydd* nos a dydd i’ m dwyn.”

*Nodiad.*—Fel y mae'r rhagenw yn “sydd,” felly hefyd y mae yn “piau.” Y mae *p* yn y Gymraeg yn cyfateb i *qu* yn y Lladin, megis yn “pump” (Llad. *quinque*), “pan” (Llad. *quando*), “pa” (Llad. *quod*), “pwy” (Llad. *qui*). Perthyn i wreiddyn “pwy” a “pa” y mae “pi” yn “piau,” ac nid yw “-au” ond ffurf arall ar “yw” (*is*). Holi oedd gwaith “piau” ar y dechreu, a'i ystyr oedd *whose is*, megis ag yr oedd “pioedd” yn golygu *whose was*. “Pieu y gaer” ebe'r Llyfr Coch, yr hyn o'i gyfieithu yw “*whose is the city?*” Nid yw'n holi heddyw, eithr rhoddir iddo ystyr berthynol,—*who owns*. Ystyr “pioedd,” pes defnyddid, fyddai *who owned*. Gwelir bod y rhagenw yn y gair, ac nad oes eisiau a o'i flaen,—“Myfi biau dial” (Heb. 10. 30), nid “myfi ‘a’ biau dial.” “Y gŵr biau y gwregys hwn” (Act. 21. 11), nid “y gŵr ‘a’ biau.” Byddai “Angel Duw yr hwn a'm piau” (Act. 27. 23) mewn Hen Gymraeg yn “angel Duw yr hwn piau fi,” megis y ceir yn yr hen lenyddiaeth “Efrog iarll bioedd iarllaeth y Gogledd.”

(d) YR HWN, YR HON, &C., O'U LLE.

Arfer gyffredin arall yw defnyddio “yr hwn,” “yr hon,” &c., o flaen rhagenw perthynol neu yn ei le. Cadwer mewn cof mai *a* ac *y* yw'r rhagenwau perthynol, ac ni raid iddynt wrth gynhorthwy “yr hwn,” &c. Defnyddir *a* pan fo'n weithredydd neu'n wrthrych, ac *y* ymhob perthynas arall. Brydferthed yw'r adnod,—“A'r brenin a gâr ‘a’ draetho yr uniawn” (Diar. 16. 13),—“*The king loves him that speaketh right.*” Y mae'n fireinach o lawer na phe dywedid,—“Y brenin a gâr ‘yr hwn’ a draetho,” &c. Sylwer eto,—“Cas ganddynt ‘a’ geryddo yn y porth, a ffaidd ganddynt ‘a’ lefaro yn

berffaith ” (Amos 5: 10). Fe anurddid y frawddeg yn fawr pe dywedid,—“Cas ganddynt ‘yr hwn’ a geryddo,” &c., neu “ffiaidd ganddynt ‘yr hwn’ a lefaro,” &c. Rymused yw ein diarhebion heb “yr hwn,” &c.,—“A ddarlleno, ystyried”; “A ddirmygo ei gymydog sydd yn pechu, a drino fater yn ddoeth a gaiff ddaioni.” O byddir mewn anhawster gellir osgoi “yr hwn,” &c., drwy ddefnyddio “y sawl” neu “y neb,”—“i’r ‘neb’ a fynno ymglyfreithio â thi” (Math. 5. 40), eithr ceir “dyro ‘i’r hwn’ a ofyno gennyt” yn adnod 42. Eto, “‘y neb’ (gwell nag ‘yr hwn’) sydd yn eich derbyn chwi sydd yn fy nerbyn i” (Math. 10. 40); “os cerwch ‘y sawl’ (nid ‘yr hwn’) a’ch caro” (Math. 5. 46); “gwnewch dda ‘i’r sawl’ (nid ‘i’r rhai’) a’ch casânt” (5. 44).

Gellir defnyddio “yr hwn,” &c.,—

(1) Pan fo’r rhagflaenorydd (*antecedent*) ymhell oddiwrth y rhagenw. “Daeth Esau i’w gyfarfod i’r hwn yr oedd Jacob mewn dyled.”

(2) Pan fo’r ymadrodd perthynol yn egluro’r brif frawddeg yn helaethach. “Enillodd y gadair yr hon oedd o dderw.” “Anfonodd lythyr at y dyn, yr hwn oedd yn sâl ar y pryd.”

(3) Pan fo “yr hwn,” &c., yn gyfystyr ag ymadrodd rhagflaenorol (*antecedent phrase*). “Daeth i’r cwrdd mewn pryd, yr hwn oedd yn hynod.” “Dywedodd ei fod yn dlawd, yr hwn sydd yn ddigon gwir.”

(4) Pan gyfeiria’r rhagenw at berson,—“Fe’i gwrthwynebwyd gan Mari, yr hon a ddymunai ymbriodi ag ef.” “Condemniwyd ef gan Harri’r VII., yr hwn oedd yn Gymro.”

(5) O flaen “sydd” pan na enwir y rhagflaenorydd,—“Yr hwn sydd yn gwneuthur cam a dderbyn am y cam a wnaeth” (Col. 3. 25).

(6) Pan fo perigl cymysgu ar synnwyr brawddeg,—  
 “ Megis pe bwriai dyn had i’r ddaear, yr hwn a dyf,” &c.

(e) CAMDDEFNYDDIO “ PA.”

*Pa le y dylid defnyddio “ pa ” ?*

Gwaith “ pa ” ydyw gofyn cwestiynau, ac fe’i ceir bob amser yn pwyso ar air arall. Er enghraifft,—“ Pa athrawiaeth newydd yw hon ” ? (Marc 1. 27).

“ Pa wlad wedi’r siarad sydd  
 Mor lân a Chymru lonydd ” ?

Ni raid iddo fod yn gwestiwn uniongyrchol. “ Carwn wybod pa bryd y daw,” sydd enghraifft o gwestiwn an-uniongyrchol. Defnyddir “ pa ” yn y ddau fath ar gwestiwn, ac nid oes ystyr iddo mewn unlle arall. Ansoddair gofynnol (*interrogative adjective*) ydyw, a dylid ei gyfyngu i’r swydd honno.

Yn anffodus daeth arfer newydd i’r wlad, a defnyddir “ pa ” fel rhagenw perthynol (*relative pronoun*) yn ogystal. Mor fynych y darllenir brawddegau fel hyn,—  
 “ Dyma’r llyfr ‘ ymha un ’ yr ysgrifennais ” ; “ Llanelli yw’r dref i ‘ ba un ’ yr euthum ” ; “ y gweinidogion yw’r dynion oddiwrth ‘ ba rai ’ y disgwylir cydymdeimlad.” Nid yw brawddegau fel hyn namyn dynwared y Saesneg yn noethlymyn,—“ *This is the book ‘ in which ’ I wrote* ” ; “ *Llanelly is the town ‘ to which ’ I went,*” &c. Y mae’r Saesneg yn ddillyn ddigon oblegid arfer o’r iaith honno bellach yr un geiriau yn rhagenwau gofyniadol a pherthynol. Eithr swydd “ pa ” yw gofyn cwestiynau, a cham dybryd ag ef yw ei ddefnyddio fel rhagenw perthynol. Dyweder,—“ Dyma’r llyfr yr ysgrifennais ynddo ” ; “ Llanelli yw’r dref yr euthum iddi ” ; Y gweinidogion yw’r dynion y disgwylir cydymdeimlad oddiwrthynt.” Boed anathema “ pa un ” a “ pha rai.”



Ymgadwer mor wylidwrus oddiwrthynt ag oddiwrth wenwyn.

### 3.—Y RHAGENW DANGOSOL.

Rhagenwau dangosol (*demonstrative pronouns*) yw “yr hwn,” “yr hon,” “y rhai.” Yn gyffredin fe’u defnyddir pan na bo rhag-flaenorydd (*antecedent*), neu pan nas mynegir. “Yr hwn a ddaw o’r dwyrain a’u difetha hwynt” (“*He who comes from the east will destroy them*”); “Crist yw yr Hwn a fu farw” (“*It is Christ that died*”). Fe’u cam-arferir pan ddefnyddir hwynt (1) Fel ansoddeiriau. Er enghraifft,—“‘Yr hon’ ddinas oedd yn llawn o bobl” (“*Which city was full of people*”); “‘Yr hwn’ dâl nid yw’n ddigon” (“*Which payment is not sufficient*”). Efelychu’r Saesneg yw hyn. (2) Fel rhagenwau perthynol, a gellir ail adrodd yma bopeth a ddywedwyd uchod am “pa un” a “pharai.” Er enghraifft, “dyma’r papur yn yr hwn y gwelais eich enw” sydd ffurf a’fler ar y frawddeg,—“dyma’r papur y gwelais eich enw ynddo.” Na ddyweder “Wele’r dref yn yr hon yr wyf yn byw,” eithr “Wele’r dref yr wyf yn byw ynddi.”

### 4.—Y RHAGENW AMHENODOL.

#### (a) AMRYW.

1.—*A yw “amrai” yn air priodol?*

Nid oes gennyf gof ei glywed ar dafod deheuwr, ond fe’i gwelais ar bapur droeon. Darllenais yn ddiweddar i rywun gipio “amrai brif wobrwyon y Gymanfa.” Defnyddir “amrai” o dan y dybiaeth fod “rhai” yn lluosog “rhyw,” ac “amrai,” wrth gwrs, yn lluosog “amryw.” Eithr y mae “rhyw” a “rhai” yn annibynnol ar ei gilydd, ac iddynt ddefnydd gwahanol.

Prawf “rhywun” a “rhywrai” nad lluosog “rhyw” yw “rhai.” Defnyddir “rhyw” yn yr unigol a’r lluosog, *e.e.*,—“‘rhyw wraig’ a’i henw Martha” (Luc 10. 38); “Canys y mae ‘rhyw ddynion’ wedi ymlusgo i mewn” (Judas 4).

Gwelir nad oes eisiau ffurf luosog ar “rhyw,” ac yn hytrach na bod “amrai” yn lluosog “amryw,” prin y defnyddir “amryw” ei hun yn awr, ond yn y lluosog, *e.e.*,—“amryw ddoniau” (Rhuf. 12. 6; 1 Cor. 12. 4), &c.

Nid lluosog “rhyw” yw “rhai,” ond lluosog “un,” *e.e.*,—

Pa un, pa rai (*which*).

Rhyw un (*some one*); rhyw rai (*some ones, some*).

Un da (*good one*); rhai da (*good ones*). (Math. 13. 48).

Arfer cymharol ddiweddar yw defnyddio “rhai” fel ansoddair, *e.e.*, rhai dynion (*some men*). Nid yw byth yn treiglo’r llythyren ddilynol, eithr dilynir “rhyw” gan y “feddal.”

(b) ●LL.

*Holl ac oll.*

Yr un gair yw “holl” ac “oll,” ac felly un sain sydd i’r o, a honno’n hir. Tybir mewn rhai parthau o’r deheudir y dylid gwahaniaethu rhwng y ddwy ffurf, drwy roi’r sain hir i’r naill a’r sain fer i’r llall. Acennol yw’r *h* yn holl, ac fe’i sgrifennir am yr un rheswm ag y sgrifennir *h* yn “un ar hugain,” “dau ar hugain,” &c. “Oll” yw’r gair, a cheidw ei annibyniaeth o hyd pan fo’n dilyn gair arall; “a hwy ‘oll’ a ddechreusant o un fryd ymesgusodi” (Luc 14. 18); “nyni ‘oll’ ag wyneb agored” (2 Cor. 3. 18). Sylwer na ellir “yr oll” mwy na ellir “ar ugain,” ac ni ddylid byth ei arfer.

## VIII.

### Y FERF.



#### 1.—BOD.

(a) GWAHANIAETHU RHWNG MAE, OES, YW, A SYDD.  
*Gwahaniaethu rhwng mae, oes, yw, sydd.*

*Mae.*—(1) Ni ddefnyddir “mae” byth ond lle bo’r gweithredydd neu’r testun (*subject*) yn dilyn y ferf.

“Y ‘mae’ hwn yn annog dynion” (Act. 18. 13).

(2) Nis defnyddir ond mewn brawddegau cadarnhaol.

“Y ‘mae’r’ deillion yn gweled cilwaith” (Math. 11. 5).

(3) Ni ellir ei flaenori’n uniongyrchol ag “a” ac “onid” (i ofyn cwestiynau) neu “o(d)” (i ddynodi amod). Defnyddir “sut” o’i flaen.

*Oes.*—(1) Ni cheir “oes” ond lle bo’r gweithredydd yn dilyn y ferf.

“Pryd nad ‘oes’ deddf” (Rhuf. 5. 13).

(2) Y mae’n rhaid i’r gweithredydd fod yn amhenodol (*indefinite*).

“Nid ‘oes’ neb’ a’r sydd yn rhoi ei law” (Luc 9. 62).

(3) Y mae’n rhaid ei flaenori ag ‘a’ ac ‘onid’ (i ofyn cwestiynau) neu “od” (i ddynodi amod) neu “nid” (i negyddu’r frawddeg).

“‘A oes’ un dyn o honoch” (Math. 7. 9).

“‘Onid oes’ deuddeg awr o’r dydd” (Ioan 11. 9).

“‘Od oes’ ar neb syched” (Ioan 7. 37).

“‘Nid oes’ yn awr ddim damnedigaeth” (Rhuf. 8. 1).

*Yw.*—(1) Gellir defnyddio “yw” mewn brawddegau lle bo’r gweithredydd yn dilyn y ferf neu’r ferf yn dilyn y gweithredydd. Ni ellir defnyddio “mae” ac “oes” oddieithr i’r gweithredydd ddilyn y ferf.

(2) Defnyddir “yw” mewn brawddegau lle bo’r gweithredydd yn dilyn y ferf.

(a) Pan fo’r gweithredydd yn benodol (*definite*).  
“Nid ‘yw efe’ yma” (Marc 16. 6).

(b) Pan flaenorir ef ag â, onid, od neu nid.

“‘A yw’ dy lygad di yn ddrwg” (Math. 20. 15).

“‘Od yw’ neb yn chwennych swydd esgob”  
(1 Tim. 3. 1).

“‘Nid yw’ foddllawn gennyf” (Rhuf. 7. 15).

(c) Pan yw’r pwyslais ar enw, rhagenw neu ansoddair a fo’n rhan o’r traethiad (*predicate*).

“‘Cyfyng yw’ y porth” (Math. 7. 14).

“Myfi yw hwnnw” (Ioan 4. 26).

“Hwn yw y maen” (Act. 4. 11).

(3) Defnyddir “yw” mewn brawddegau lle bo’r ferf yn dilyn y gweithredydd a phan fo’r ferf yn negyddol.

“Cariad ‘nid yw’ yn cenfigenu” (1 Cor. 13. 4).

*Sydd.*—(1) Ni ddefnyddir “sydd” oddi eithr bod y ferf yn dilyn y gweithredydd, a’i ddilyn yn uniongyrchol.

“Dy air ‘sydd’ wirionedd” (Ioan 17. 17).

“Awyddfryd y creadur ‘sydd’ yn disgwyl” (Rhuf. 8. 19).

(2) Y mae’n dilyn mai mewn brawddegau cadarnhaol y defnyddir “sydd,” gan na ellir gosod “ni” o’i flaen, a gall ddigwydd ar ol “yr hwn” mewn ymadrodd

perthynol (*relative clause*), neu ar ol pwy, pa, &c., i ofyn cwestiynau.

“ Pwy ‘ sydd ’ gennyf yn y nefoedd ” (Salm 73. 25).

“ Pwy yw ‘ yr hwn sydd ’ yn damnio ” (Rhuf. 8. 34).

“ Y llew ‘ yr hwn sydd ’ o lwyth Juda ” (Dat. 5. 5.).

“ Ein Tad ‘ yr Hwn sydd ’ yn y nefoedd, ” yn hytrach na’r “ Hwn wyt.”

Y mae deddf trydydd person unigol amser presennol “ bod ” yn anodd ei chyfleu ar eiriau syml. Gwnaed y darllenydd y goreu ohoni.

#### (b) SYDD AC YDYNT.

*Pa bryd y dylid defnyddio “ sydd ” a phryd “ ydynt ” ?*

(a) Gwelir “ ydynt ” yn aml lle dylid defnyddio “ sydd.” Y mae camarfer “ ydynt ” yn gyffredin yn ein cofnodolion, a chlywn ef yn fynych yn y pulpud. Yn anffodus, llithrodd i’r Beibl mewn rhai manau lle ni ddylasai. Er enghraifft, fe’i ceir ar dafod y llances yn Philipi,—“ Y dynion hyn ‘ ydynt ’ weision y Duw Goruchaf ” (Act. 16. 17). Eto, “ Y mae’r dynion hyn, y rhai ‘ ydynt ’ Iddewon, yn llwyr gythryblio ein dinas ni ” (Act. 16. 20). A thrachefn, “ Am hynny, tafodau ‘ ydynt ’ arwydd ” (1 Cor. 14. 22). Yn yr adnodau hyn y mae “ ydynt ” yn anghywir. Dylid defnyddio “ sydd ” ; fel hyn,—“ Y dynion hyn ‘ sydd ’ weision ” ; “ y dynion hyn y rhai ‘ sydd ’ Iddewon ” ; “ tafodau ‘ sydd ’ arwydd.”

(b) Achos y drafferth yw’r dyb gyfeiliornus mai unigol yn unig yw “ sydd,” a bod yn rhaid wrth “ ydynt ” pan fo’r gweithredydd (*nominative*)

yn lluosog. Yn yr enghreifftiau uchod, oherwydd bod “dynion” a “thafodau” yn lluosog, credir bod yn rhaid cael “ydynt” i gytuno â hwynt, gan anghofio bod “sydd” yn lluosog yn ogystal ag yn unigol. “Deddfau’r Arglwydd ‘sydd’ uniawn,” sydd yn enghraifft o’i ddefnydd yn y lluosog. A thrachefn, “dyddiau dyn ‘sydd’ fel glaswelltyn.” Byddai defnyddio “ydynt” yn yr adnodau hyn yn anghywir, a gresyn na fyddai adnodau’r Beibl yn gyson â’i gilydd mewn priod-ddull.

(c) Pa fodd y gellir gwybod pa bryd y dylid defnyddio “sydd” a phryd “ydynt”? Yn syml, troer y frawddeg i’r unigol, a lle bo “sydd” yn gywir yn yr unigol, y mae’n gywir hefyd yn y lluosog. Edrycher ar y frawddeg,—“Y bechgyn ‘sydd’ dda.” Troer hi i’r unigol a cheir “Y bachgen ‘sydd’ dda.” Meddylier bod rhywun yn tueddu i sgrifennu “y bechgyn ‘ydynt’ dda.” Troer hi i’r unigol a cheir “y bachgen yw’n dda.” Gwelir ar unwaith nad yw “y bachgen yw’n dda” yn synhwyrol. Yr ymadrodd “y bachgen sydd dda” sydd gywir, a chan mai hyn sydd gywir yn yr unigol, “y bechgyn sydd dda” sydd gywir yn y lluosog.

Dylid ychwanegu at hyn mai mewn brawddegau lle digwydd y gweithredydd (*nominative*) o flaen y ferf,— yn groes i arfer y Gymraeg,—y defnyddir “sydd.” Y mae brawddegau felly, o angenrheidrwydd, yn gadarnhaol. Camddefnyddir “sydd” drwy ei osod mewn brawddegau negyddol. Cymerer y frawddeg “dyma’r dyn ‘sydd’ yn filwr.” Gwelir rhai y dyddiau hyn yn ei throsi i’r negyddol,—“dyma’r dyn ‘na’ (gyda ‘nag’ a ‘nac’ er mwyn amrywiaeth) sydd yn filwr.” “Dyma’r dyn nad yw’n filwr” yw’r ffurf gywir arni.

## 2.—TRYDYDD PERSON UNIGOL.

## AMSER PRESENNOL Y FERF REOLAIDD.

“*Adwaena*” *yntau* “*edwyn*” *sy'n gywir?*

Dywedir bod “*adwaena*” yn wannach ac yn llai persain nag ‘*edwyn*,’ eithr gellir derbyn gair cryfach y gofyniad a chredu bod y naill yn anghywir a’r llall yn gywir. “Oblegid hyn nid ‘*edwyn*’ y byd *chwi*” (1 Ioan 3. 1); “Yr hwn nid ‘*edwyn*’ neb” (Dat. 2. 17). Defnyddir yr *a* hon yn gyffredin yn y trydydd person unigol, amser presennol, modd mynegol (*3rd person sing. pres. indic.*), a hynny’n hollol ddialw am dani. Yn lle “*edrydd*” gwelir “*adrodda*”; yn lle “*tery*” ceir “*tarawa*”; yn lle “*deffry*” ceir “*deffroa*,” &c. Oherwydd bod yn rhaid wrth yr *a* mewn rhai berfau, nid yw’n dilyn bod yn rhaid wrthi ymhob berf. Y mae iddi ei lle cyfreithlon o dan yr amgylchiadau canlynol,—

(1) Pan yw *i* yn diweddu *bôn* (*stem*) y ferf; *e.e.*, ceir “*tycia*” o “*tycio*,”—“*ni thycia trysorau drygioni*” (Diar. 10. 2); “*cilia*” o “*cilio*,”—“*a marwol-aeth a gilia oddiwrthynt*” (Dat. 9. 6); “*hwylia*,” “*rhodia*,” &c. Ceir eithriadau i’r rheol hon fel i bob rheol arall, ac ymddwg *ceisio*, *peidio*, ac ychydig ferfau eraill yn wahanol.

(2) Pan ffurfir y ferf oddiwrth enw neu ansoddair, *e.e.*, ceir “*abertha*” oddiwrth yr enw “*aberth*,” “*cosba*” oddiwrth yr enw “*cosb*,” “*saetha*” oddiwrth “*saeth*,” “*amcana*” oddiwrth “*amcan*,” &c.

(3) Mewn berfau fel *glanhau*, *mwynhau*, *llawenhau*, &c. “*Pa fodd y ‘glanhâ’ llanc ei lwybr*” (Salm 119. 9); “*Pwy yw yr hwn a’m llawenhâ i*” (2 Cor. 2. 2), &c.

Llywodraethir berfau eraill gan yr ystyriaethau canlynol,—

(1) Pan fo *a* yn y bôn unsillaf neu yn y sillaf olaf lle bo rhagor nag un, “ai” neu “ei” a geir yn y trydydd person, *e.e.*, try “galwaf” yn “geilw,”—“efe a eilw ynghyd ei gyfeillion” (Luc 15. 6); “paraf” yn “pair,”—“y pair y tân i’r dwfr ferwi” (Es. 64. 2); “daliaf” yn “deil,”—“dychryn a’i deil hwynt” (Ecsod. 15. 15); “ymgadwaf” yn “ymgeidw,” a gwell yw “dyrchaif” (dyrchafaf) na “dyrchafa” (Iago 4. 10).

Eithriadau. (*a*) Ceidw rhai berfau’r llafariad wreiddiol, *e.e.*, talaf, tâl,—“a dâl i ti yn yr amlwg” (Math. 6. 6); canaf, cân,—“yr utgorn a gân” (1 Cor. 15. 52).

(*b*) Pan ddêl “aw” yn ol i’r sillaf olaf, y terfyniad yw *y*, *e.e.*, gwrandawaf, gwrendy,—“os efe a wrendy arnat” (Math. 18. 15); tarawaf, tery,—“Duw a’th dery di” (Act. 23. 3).

(2) Pan fo *o* yn y bôn unsillaf neu yn y sillaf olaf lle bo rhagor nag un, *y* a geir yn y trydydd person, *e.e.*, try “torraf” yn “tyr,”—“corsen ysig nis tyr” (Math. 12. 20); “llogaf” yn “llysg,”—“yr us a lysg efe” (Math. 3. 12); “collaf” yn “cyll,”—“ni chyll efe ei wobwr” (Math. 10. 42); “agoraf” yn “egyr,”—“yr Arglwydd a egyr Ei drysor daionus” (Deut. 28. 12); “arhosaf” yn “erys,”—“hwynnw a erys yn unig” (Ioan 12. 24). Felly hefyd adroddaf, edrydd; dangosaf, dengys, &c. Sylwer bod *a* yn troi’n *e* yn y berfau hyn,—*agoraf*, *egyr*, &c.

Eithriad. Y mae berfau fel toddi, moli, &c., yn eithriad i’r rheol, *e.e.*, “calon pob dyn a ‘dawdd’” (Es. 13. 7); “cenhedlaeth wrth genhedlaeth a ‘fawl’ dy weithredoedd” (Salm 145. 4), &c.



(3) Try *e* yn y sillaf olaf yn *y*; *e.e.*, ceir ateb, etyb,—  
 “Yna yr etyb efe iddynt” (Math. 25. 45). “Arbed”  
 a ddefnyddir yn gyffredin am *he saves*,—“efe a arbed  
 yn helaeth” (Es. 55. 7). Eithr ceir y ffurf brydferth  
 “erbyd” yn Diar 6. 34,—“am hynny nid erbyd efe  
 yn nydd dial.”

### 3.—Y FFURF AMHERSONOL.

*A yw “gwnawd” yn air priodol?*

Sylwer ar ffurf amhersonol amser amherffaith cael,  
 troi, dyfod, gwneuthur, a myned. Gwelir ar brydiau  
 cawd, trowd, dowd, gwnawd, ac awd. Y ffurfiau cywir  
 yw caed neu cafwyd, troed neu trowyd, deuwyd neu  
 daethpwyd, gwnaed neu gwnaethpwyd, ac aed neu  
 aethpwyd.

“Phylip a ‘gaed’ yn Asotus” (Act. 8. 40).

“Yna y ‘deuwyd’ ac y mynegwyd” (2 Chron. 20. 2).

“Yr hwn a ‘wnaed’ ychydig yn is na’r angelion”  
 (Heb. 2. 9).

### 4.—YR AMSER AMHERFFAITH.

Sylwer hefyd ar amser amherffaith rhai o’r berfau  
 hyn. Y duedd gyffredin yw defnyddio ffurfiau’r modd  
 dibynnol fel petaent yn gyfystyr â’r modd mynegol.  
 Dywed esboniad diweddar,—“‘Elai’r’ ffordd arferol o  
 Fabilon i Jerusalem drwy Damascus,” lle dylid  
 ysgrifennu “ai” neu “‘ae’r’ ffordd,” &c. Perthyn  
 i’r modd dibynnol (*subjunctive mood*) y mae’r ffurfiau  
 sy’n cynnwys *l*. Dylid gochel “elwn” yn lle “awn,”  
 “gwnelwn” yn lle “gwnawn,” a “delwn” yn lle  
 “deuwn” neu “down.” Wele enghreifftiau o’r ffurfiau  
 cywir yn y trydydd person unigol,—

“Ond efe nid ‘ai’ i mewn” (Luc 15. 28).

“ Pa bryd y ‘deuai’ teyrnas Dduw ” (Luc. 17. 20).

“ Ac efe nis ‘gwnâi’ ” (Luc 18. 4).

Wrth reswm, y mae “ elai,” “ delai ” a “ gwnelai ” yn gywir, ond cofio’u bod yn y modd dibynnol, *e.e.*,—

“ Na heddwch i’r un a ‘ elai ’ allan nac a ‘ ddelai ’ i mewn ” (Sech. 8. 10),—*Nor peace to him who “ should go ” out or “ should come ” in.*

“ Fel y ‘ delai ’ mam fy Arglwydd ataf fi ” (Luc 1. 43),—*That the mother of the Lord “ should come ” to me.*

### 5.—YR AMSER GORBERFFAITH.

*Yr amser gorberffaith.*

Y mae byd o gymysgu dialw am dano ar “ byddai ” a “ buasai.” Defnyddir yr olaf yn fynych lle na bo’i eisiau, a phan fo gwir alw am dano nis ceir. Brawddeg anffodus yw “ Rhyfedd na buaswn ’nawr ” mewn emyn. Dynoda “ byddai ” yr amser anorffen. Disgrifia “ buasai ” weithred wedi’i llwyr orffen. Dyma gais cyhoeddus i frawd teilwng gyhoeddi llyfr,—“ Credwn y ‘gallasai’ ac y ‘dylai’ gyfoethogi ei genedl â firwyth ei fyfyrdodau.” Y mae’n amlwg na roddwyd munud o ystyriaeth i’r gwahaniaeth amser sy rhwng “gallasai” a “dylai.” Dylid cofio bod yr amser gorberffaith yn cyfieithu’r Saesneg *had*. Carasai (“*had*” *loved*), daethai (“*had*” *come*), gwybuasai (“*had*” *known*).

### 6.—ADNABOD AC ADWAEN.

*Eglurwch y gwahaniaeth sydd rhwng “ adwaen ” ac “ adnabod.”*

“ Yr Iesu,” medd yr ysbryd drwg, “ yr wyf yn ei adnabod, a Phaul a adwaen ” (Act. 19. 15),—“*Jesus I know and Paul I know.* Y gwall a wneir yn gyffredin

·yw dywedyd “Yr wyf yn ei adwaen,” gan gymryd “adwaen” yn ferfenw fel “adnabod.” Y mae hynny yn gamgymeriad dybryd. Y mae fel ped ysgrifennid,— “Yr wyf yn ei ‘gwelaf,’” neu “yr wyf yn ei ‘caraf,’” yn lle “yr wyf yn ei weled” neu “yr wyf yn ei garu.” Nid yw “adwaen” yn gyfystyr ag “adnabod” yn fwy nag yw “gwelaf” yn gyfystyr a “gweled” neu “caraf” a “caru.” Y person cyntaf unigol amser presennol modd mynegol o “adnabod” yw “adwaen,” a’i ystyr yw *I know*. Ei gymryd fel berfenw sydd yn cyfrif am y ffurf “adwaenaf.” Nid yw’r gair “adwaenaf” yn bod yn y Gymraeg. “Adwaen” yw’r gair Cymraeg am *I know* mewn perthynas â phersonau, “gwn” mewn perthynas â ffeithiau; “ac a adwaen yr eiddof fi,”—*and I know my own* (Ioan 10. 14). Sylwer (1) Gwelaf (*I see*), caraf (*I love*), talaf (*I pay*), dychwelaf (*I return*), ac “adwaen” (*I know*). (2) Gweled (*to see*), caru (*to love*), talu (*to pay*), dychwelyd (*to return*), ac “adnabod” (*to know*).

#### 7.—GWNEUTHUR A DYWEDYD.

Ai “gwneud” yntw “gwneyd” sydd gywir?

Arferir y naill a’r llall, ac o dalfyru’r gair “gwneuthur,” diau mai “gwneud” yw’r ffurf gywiraf. Gwell, er hynny, wrth anfon i’r wasg, yw sgrifennu “gwneuthur” yn llawn. Fe geir hefyd “dweud” a “dweyd” o “dywedud” a “dywedyd;” ond yma eto, gwell yw’r gair yn llawn.

#### 8.—EB, EBE, EBR.

Cwrddir yn fynych â’r ffurf “ebai” yn lle eb, ebe, neu ebr. Tybir, yn gyfeiliornus, fod “ebe” yn cynrychioli trydydd person unigol yr amser amherffaith, ac mai talfyriad ar dafod yw o “ebai,” fel y dywedir siarade

ar lafar yn lle siaradai. Yr hen ffurfiau oedd “heb,” “heb y,” ac “heb yr,” sydd erbyn hyn wedi rhoddi inni eb, ebe ac ebr. Fe’u defnyddid ynglŷn â phob person a phob amser o’r ferf, yn unigol a lluosog. Y gwreiddair hwn a geir yn gohebu, ateb a dihareb. Digwydd yn fynych yn y Pedair Cainc,—heb ef, heb hi, heb yntau, heb hithau, heb y Gwydion, heb y Pryderi, heb y Pwyll, heb yr Arawn, heb yr Hafgan, &c. Digwydd hefyd yn y Beibl,—

“ ‘Eb’ efe wrth y claf o’r parlys ” (Marc 2. 10).

“ ‘Eb’ efe, myfi yw llef un yn gweiddi ” (Ioan 1 23).  
Ymogeler rhag “ebai.”

#### 9.—DWG A DUG.

*Beth yw’r gwahaniaeth rhwng “dwg” a “dug”?*

“Dwg” yw trydydd person unigol amser presennol; neu ail berson unigol modd gorchymynnol “dwyn.” Ei ystyr yw (*he*) *brings*, neu *bring thou*.

“Dug” yw’r trydydd person unigol, amser gorffennol “dwyn,” a’i ystyr yw (*he*) *brought*. Y mae cryn dipyn o gymysgu ar y geiriau. Clywir defnyddio hyd yn oed “dwyn” fel ffurf orchymynol,—“dwyn hwynt yn ol yn ddiogel,” yn lle “dwg hwynt,” &c., am *bring them back safely*. “Pob un a ‘ddwg’ ei faich ei hun,”—*Every man “shall bear” his own burden* (Gal. 6. 5). “‘Dwg’ dy fab yma,”—“*Bring*” *thy son hither* (Luc 9. 41). “Angel yr Arglwydd . . . a’u ‘dug’ hwynt allan,”—*The angel of the Lord . . . “brought” them forth* (Act. 5. 19). “Yr Hwn ei Hun a ‘ddug’ ein pechodau ni yn ei gorff ar y pren,”—*Who his own self “bare” our sins in his own body on the tree* (1 Pedr 2. 24).

## 10.—Y MODD DIBYNNOL.

*A yw'r frawddeg hon yn gywir,—“ Credwyf fod eglwysi  
Cwm Aber Dâr yn pleidio'r mudiad ” ?*

Nac ydyw,—“ ‘ Credaf ’ fod eglwysi,” &c., sy'n gywir. Nid oes mwy o gamarfer ar ddim yn y Gymraeg nag ar y modd dibynnol (*subjunctive mood*). Ni pherthyn iddo ond un amser ag iddo'i ffurf ei hun, sef y presennol. Pan fo eisiau'r amser amherffaith (mewn brawddegau dibynnol) defnyddir eiddo'r modd mynegol (*indicative mood*). Y mae gan “ dyfod,” “ gwneuthur,” “ myned,” “ cael,” a “ bod,” ffurfiau arbennig i'r amser amherffaith, a cheir hefyd “ darffai ” o darfod a “ gorffai ” o gorfod. Er mwyn eglurder, fe sgrifennir amser presennol y ddau fodd.

## Y MODD MYNEGOL.

Gwelaf	Gwelwn.
Gweli	Gwelwch.
Gwêl	Gwelant.

## Y MODD DIBYNNOL.

Gwelwyf	Gwelom.
Gwelych	Gweloch.
Gwelo	Gwelont.

Digwydd “ ech ” ambell waith yn lle “ ych ” yn yr ail berson unigol,—“ a phan weddiech ” (Math. 6. 5), “ a phan ymprydiech ” (Math. 6. 17).

Yr arfer gyffredin yw defnyddio'r ffurf *wyf* pryd y dylid defnyddio'r ffurf *af*, fel yn y frawddeg a ddyfynnir uchod. Cyfieithir gosodiad syml,—*I believe that he is*

*there*, yn “ ‘ credwyf ’ ei fod yno,” yn lle “ ‘ credaf ’ ei fod yno.” Dywedir “ ‘ cofiwyf ’ yn dda am dano,” pryd y dylid dywedyd “ ‘ Cofiaf ’ yn dda am dano.” Yr un peth yn hollol fyddai dywedyd,—“ Credo (yn lle cred) ei fod yno,” am *he believes that he is there*, neu “ gwelo (yn lle gwêl) fod y dynion yma,” am *he sees that the men are here*.

Ar y llaw arall, fe anwybyddir y modd dibynnol yn llwyr pan fo galw am dano. Dylid ei ddefnyddio,—

1. I fynegi dymuniad neu hiraeth. Er enghraifft,—

“ Duw ‘ gadwo’r ’ brenin.”

“ O na ‘ bai’n ’ haf o hyd.”

“ I Dduw y ‘ byddo’r ’ diolch ” (2 Cor. 9. 15).

2. I ddatgan amcan neu ganlyniad, *e.e.*,—

“ A hyn yr wyf yn ei weddio fel y ‘ profoch ’ y pethau sydd a gwahaniaeth rhyngddynt ” (Phil. 1. 10).

“ Yr wyf yn ewyllysio bod ohonynt hwythau hefyd gyda myfi, fel y ‘ gwelont ’ fy ngogoniant a roddaist i mi ’ (Ioan 17. 24).

“ Fel y ‘ byddont ’ yn un yn dy law di ” (Esec. 37. 17).

3. Mewn brawddegau amhenodol o ran eu hamser ar ol “ tra ” (*whilst*), “ pan,” ac “ oni.” Wele ddigon o enghreifftiau,—“ tra ‘ fyddo ’ haul ” (Salm 72. 17).

“ Canaf i’r Arglwydd tra ‘ fyddwyf ’ fyw ” (Salm 104. 33).

“ Pan edrychwyf ar y nefoedd, gwaith dy ddwylo ” (Salm 8. 3). “ A chewch wybod mai myfi yw yr Arglwydd ‘ pan agorwyf ’ eich beddau a phan ‘ gyfodwyf ’ chwi i fyny o’ch beddau ” (Esec. 37. 13), &c.

“ Eistedd ar fy neheulaw, hyd oni ‘ osodwyf ’ dy elynion yn droedfainc i’th draed ” (Heb. 1. 13).

“ Y dangoswch farwolaeth yr Arglwydd oni ‘ ddelo.’ ”  
(1 Cor. 11. 26).

“ Hyd oni ‘ atgyfodo ’ Mab y dyn o feirw ”  
(Math. 17. 9).

Prin y mae eisiau “ hyd oni,” y mae “ oni ” ynddo'i hun yn ddigon. Ceir enghreifftiau eraill o'r modd dibynnol mewn gorchmynion negyddol fel “ Gwêl nas gwnelych ” (Dat. 19. 10).

*Sylwer.*—Defnyddier y modd dibynnol ar ol “ fel ” a “ modd ” (*so that*), “ pan,” “ tra ” (*whilst*), ac “ oni ” (*until*); a phan fo eisiau datgan dymuniad neu amcan neu effaith. Gwneler hyn, ac fe ymlwybrir yn weddol ddeheuig.

### 11.—Y BERFENW.

Arfer annymunol yw lluosogi ffurfiau â'r ddiweddeb “ -iad ” iddynt, yn lle defnyddio'r berfenw syml. Dysgir inni, erbyn hyn, fod i'r berfenw swyddogaeth ehangach nag sydd i *infinitive mood* y Saesneg. Y mae'n llawer mwy o enw nag o ferf, ac ni raid inni lunio geiriau anhyfryd yn ei le. Mor bersain yn hyn o beth yw'r Beibl. Ceir “ cyn ei ddyfod ” yn Ioan 14. 29 ; cyfieithiad diwygiedig llawer fyddai “ cyn ei ddyfodiad.” Ceir yr un ymadrodd yn Ioan 15. 22. Ceir “ hwynt-hwy wedi ymadau o Perga ” yn Actau 13. 14. O ddilyn arfer llawer y dyddiau hyn, byddai'n rhaid dywedyd “ ar ol eu hymadawiad.” Wele ymadrodd mirain arall,—“ beth yw yr atgyfodi o feirw ? ” (Marc 9. 10). Y mae'n rhaid wrth yr “ -iad ” ambell waith. Y mae gwahaniaeth ystyr, er enghraifft, rhwng “ cerdded ” a “ cherddediad,” eithr nid da gormod o “ -iad ” fel y ceir yn y frawddeg ganlynol,—“ Myned y darllenydd olygiad clir am amseriad y digwyddiad mawr dan

sylw.” A phwy na wel hacred hon,—“ Cafodd ddygiad i fyny da iawn ”? Nid yw na Chymraeg na Saesneg o ran ei ffurf. Cynygiwyd mewn cymanfa “ Ein bod yn apelio at y Llywodraeth i wahardd gwneuthuriad allforiad, a gwerthiad diodydd meddwol yn ystod y rhyfel.” Gwell i'r gynhadledd fyddai gofyn i'r Llywodraeth wahardd *gwneuthur allforio* a *gwerthu'r* diodydd. Defnyddier y berfenw mor aml ag y bo modd. Dilyner y Beibl lle ceir “ wedi marw Herod ” (Math. 2. 19), yn hytrach na wedi marwolaeth Herod ; “ Wedi geni'r Iesu ” (Math. 2. 1), ac nid wedi genedigaeth yr Iesu.

Nid oes dim y mae iddo ddefnydd mwy idiomatig yn y Gymraeg na'r berfenw. Sylwer arno'n ail adrodd gwahanol amseroedd a moddau'r ferf,—“ Nis gwnâi efe ond 'myned' a'i 'fwrw' ef yng ngharchar ” (Math. 18. 30). Yn y dyddiau hyn ysgrifennai llawer,—“ Nis gwnâi efe ond 'aeth' a 'bwriodd' ef yng ngharchar.” Gwna ffurf y frawddeg Feiblaidd y weithred yn fyw gerbron llygaid y darllenydd. Ceir digon o enghreifftiau yn y Mabinogi o'r dull hwn o ymadroddi,—“ Cyfodi a wnaeth a *dyfod* i Lyn Cuch a *chanu* y corn a *dechreu* dygyfor i hela a *cherdded* ar y cwn.” Sylwer ar y berfenw bob cynnig yn hytrach na'r ffurfiau terfynol (*finite forms*), “ a 'daeth' i Lyn Cuch a 'chanodd' y corn, a 'dechreuodd' ddygyfor,” &c. Sylwer ymhellach ar y frawddeg ganlynol,—“ Arhoswch yma tra'r elwyf a gweddio acw,” lle dywedai'r mwyafrif o honom, “ tra'r elwyf ac y gweddiwyf acw.” Edrycher ar y modd y grymusa ymadroddion Beiblaidd,—“ ‘ gan geryddu,’ efe a'ch cerydda ;” “ ‘ gan farw,’ ti a fyddi farw.” Yn y brawddegau hyn y mae ‘ gan ’ gyda'r berfenw yn cynrychioli *infinitive absolute* yr iaith Hebraeg pan ddefnyddier ef er mwyn gosod pwys ar ymadrodd.



12.—“ I ” AC “ U ” AR DDIWEDD  
BERFENWAU.

*Pa bryd y mae defnyddio “ i ” a phryd “ u ” ar ddiwedd berfenwau ?*

Y mae'r pwynt hwn yn drafferth i lawer. Dywed un gohebydd,—“ gwn fod ‘ i ’ yn diweddi ‘ sylwi,’ ond paham na fyddai'n gyfreithlon yn penderfynu, ysgrifennu, canu, caru, &c. ? ” Dywed arall,—“ caf anhawster gyda therfyniad berfau, weithiau. Er enghraifft, dyna'r gair ‘ trengi ’ neu ‘ trengu.’ ‘ Trengu ’ a arferwn i, a dyna'r arfer gyffredin yn y Gogledd, ond gwelaf mai ‘ trengi ’ yw'r ffurf reolaidd erbyn hyn. A oes reol i benderfynu hyn ? Dyna ‘ mynegi,’ ‘ ofni,’ ‘ siomi,’ &c., un ffordd, a ‘ traethu,’ ‘ caru,’ ‘ penderfynu,’ &c., ffordd arall.”

Gofynnir inni benderfynu rhwng *i* ac *u*, a nodwn ychydig o ddeddfau syml a'n cynorthwya i ddewis rhyngddynt. Y mae rhai eithriadau pwysig iddynt.

(1) Defnyddier *i*

(a) Pan fo *o* neu *oe* yn y sillaf blaenorol, *e.e.*, cyflogi, crogi, profi, codi, oeri, oedi, poeni, &c.

(b) Pan fo'r gair yn gorffen ag *w*, *e.e.*, berwi, sylwi, enwi, gwelwi, &c.

(c) Lle bo *a* yn y gwreiddair (*stem*) wedi ei newid yn *e* o dan ddylanwad y llythyren derfynol, *e.e.*, sengi, perchi, peri, mynegi, trengi, &c. Sillefir *bôn* (*stem*) y geiriau hyn ac eraill ag *a*, *e.e.*, dywedir sang-af, arch-af, parch-af, par-af, &c. Troir yr *a* yn *e* yn y berfenw, ac oherwydd hynny y ddiweddeb yw *i*. *Erchi* a geir yn Luc 19. 15, a 1 Tim. 4. 3, ac amherchi yn 1 Sam. 17. 36.

Eithr beth am “ mynegi ” a “ trengi ” ? Ni ddywedir “ mynag-af ” a “ trang-af ” ! Na wneir heddyw, ond fe

wnaed hynny yn yr amser gynt. “Managaf” a “trangaf” yw’r hen ffurfiau arnynt. Rhaid inni felly eu sillafu’n “mynegi” a “trengi,” ac nid “mynegu” a “trengu.” “Yr wyf fi yn ‘mynegi’ i chwi newyddion da o lawenydd mawr” (Luc 2. 10). “Wele ni yn ‘trengi’” (Num. 17. 12).

(2) Ymhob achos arall defnyddier *u*. Hynny yw

(a) Pan fo *a* neu *ae* yn y gwreiddair, *e.e.*, gwadu, caru, malu, tarfu, saethu, gwaedu, arfaethu, &c. Sylwer mai “gweiddi” ac nid “gwaeddu” sy’n gywir.

(b) Pan fo *y* yn y gwreiddair, *e.e.*, penderfynu, crynu, nyddu, tynu, &c.

(c) Lle bo *e* yn y berfenw nad yw wedi ei newid o *a*, *e.e.*, credu, trefnu, lledu, pennu, &c. Gwelwyd bod ffurfiau fel “erchi” a’r bôn yn “arch,” ac oherwydd hynny *i* yw’r ddiweddeb, ond ni ellir dywedyd bod “credu” yn cynrychioli “crad-af,” ac oherwydd hynny *u* yw’r ddiweddeb. Y mae eithriadau fel “medi.”

Y mae dwy ffurf ar ambell air, *e.e.*, defnyddir “parchu” a “perchi,” a “sangu” a “sengi.” Perchi a sengi, ar bob cyfrif, sy’n gywir, a thrueni na ddefnyddid hwynt yn gyffredinol. “Y wraig edryched ar iddi ‘berchi’ ei gŵr” (Eph. 5. 33). “Yn y dyddiau hynny y gwelais yn Juda rai yn ‘sengi’ gwinryfau ar y Saboth” (Neh. 13. 15).

### 13.—CAEL.

*Pa bryd y dylid defnyddio “cael”?*

Defnyddir *ef* yn rhy aml o lawer. “Y mae bron yn wastad,” medd Pedr Hir, “yn gymal gwan yn asgwrn cefn y frawddeg.” Prin y ceir asgwrn cefn o gwbl yn y

brawddegau canlynol y disgynodd fy llygaid arnynt rywbryd,—“ y mae efe wedi bod yn cael ei nodi allan ” ; “ y mae'r eglwys yn cael edrych arni,” &c. Y fath wastraff ar inc a phapur, ar amser ac amynedd ! Yr oedd cyfieithwyr y Beibl yn gynnill iawn ar y gair “ cael.” “ Ac wedi geni'r Iesu ym Methlehem Judea ” (Math. 2. 1), nid “ Wedi i'r Iesu gael ei eni.” “ A'r Iesu wedi ei fedyddio, a aeth i fyny o'r dwfr ” (Math. 3. 16), nid “ wedi i'r Iesu gael ei fedyddio.” “ A'r Iesu a arweinwyd i'r anialwch, yn cael ei demtio gan ddiabol,” yw'r cyfieithiad yn Luc 4. 1, 2, eithr y mae'r cyfieithiad ym Marc yn rhagori,—“ Efe a fu yn y diffaethwch *yn ei demtio* gan Satan ” (1. 13). “ Y pethau a glywsom ni *eu gwneuthur* yn Capernaum ” (Luc 4. 23). Mwy cyffredin y dyddiau hyn yw “ y pethau a glywsom iddynt gael eu gwneuthur yn Capernaum.” “ Yn eich arwain ymaith ” a geir yn 1 Cor. 12. 2, ac nid yn *cael* eich arwain.

*Sylwer.*—Oni ellir osgoi “ cael ” fel berf gynorthwyol yn gyfangwbl, ddefnyddier ef yn dra phrin. Dywedir mewn rhai gramadegau fod galw am dano pan fo eisiau ffurf oddefol y ferf (*passive voice*). Er enghraifft, “ Yr wyf yn cael fy ngweled ” (*I am seen*). “ Y mae ef yn cael ei weled ” (*He is seen*). “ Yr ydym ni'n cael ein gweled ” (*We are seen*). Ond fe ellir cyfleu'r un syniad drwy ddefnyddio'r ffurf amhersonol,—“ gwelir fi,” “ gwelir ef,” “ gwelir ni.” Y mae'r ffurf amhersonol yn llawer mwy cryno a thlws na'r ffurf hir-wyntog arall.

Bid sicr, y mae ei ddefnydd i “ cael ” pan fo yn brif ferf. Y mae ganddo gymaint o hawl a berfau eraill i fyw yn yr ystyr honno, oblegid “ y neb sydd yn ceisio sydd yn ‘cael.’ ” Fel prif ferf treigllir “ cael ” yn y gwahanol foddau a'r amseroedd (*moods and tenses*).

Caf, cawn, cefais, cawsom, &c. Y cam a wneir â'r gair yw ei ddefnyddio fel berf gynorthwyol pan nad oes eisiau'i wasanaeth.

Ar gefn hyn, ychwanegwn fod ffurf syml y ferf yn rymusach na'i ffurf gyfansodd. Er enghraifft, yn lle "yr wyf yn gweled," dyweder "gwelaf"; yn lle "y mae wedi gweled," dyweder "gwelodd;" ac yn lle "yr oedd wedi gweled," "gwelsai." Camp yr ysgrifennwr yw cyfleu ei feddwl ar fyr eiriau.

## IX.

### ARDDODIAID.



#### (a) GYDA(G) AC A(G).

*Beth yw'r gwahaniaeth rhwng "gyda" ac "â"?*

Dywedir, yn gyffredin, fod "â" yn dynodi offeryn, "gyda" yn dynodi cwmni, a "gan" yn dynodi gweithredydd. Er enghraifft,—“llanwer chwi ‘â’r’ Ysbryd Glân” (Eph. 5. 18); “gwell yw y rhai a laddwyd ‘â’ chleddyf na’r rhai a laddwyd ‘â’ newyn” (Galarnad 4. 9); “Ioan oedd wedi ei wisgo ‘â’ blew camel” (Marc 1. 6); “a’r lleill ‘gyda’ hwynt” (Luc 24. 10); “Chwychwi yw y rhai a arhosasoch ‘gyda’ mi yn fy mhrofedigaeth” (Luc 22. 28); “oblegid yr oedd Duw ‘gydag’ ef” (Actau 10. 38); “Clywsoch ddywedyd ‘gan’ y rhai gynt” (Math. 5. 21); “a’i weled Ef ‘gan’ Cephas, yna ‘gan’ y deuddeg” (1 Cor. 15. 5). Digwydd ‘gyda’ yn fynych mewn priod-ddulliau,—“gyda’ch cennad” (*by your leave*), “gyda brys” (*with speed*), “gyda llaw” (*by the way*), “gyda phob parch” (*with all respect*), &c. Eithr ni all neb, wrth annerch cwrdd, ddywedyd “y peth nesaf sydd *gyda* mi” wrth gyfeirio at ei sylwadau. Nid *gydag* ef ond *ganddo* yw’r gofyn.

#### (b) ER AC ODDIAR.

*A oes gwahaniaeth rhwng "er" ac "oddiar"?*

Defnyddir y ddau air yn bur gyffredin i gyfieithu’r Saesneg *since*,—“Y mae John yma ‘oddiar’ ddoe,” neu “‘er’ y ddoe.” Eithr swydd “er” yw cyfieithu *since*. Rhodder i “oddiar” ystyr leol,—*from upon*,—a defnyddier “er” i ddynodi amser. Felly y ceir hwynt

amlaf yn y Beibl. “ ‘ Er ’ dyddiau eich tadau ” (*Since the days of your fathers* (Mal. 3. 7). Na ddyweder “ ‘ Oddiar ’ dyddiau’ch tadau.” “ Er pan ddeuthum i mewn,”—*Since the time I came in* (Luc 7. 45). “ ‘ Er ’ pan gredasoch,”—*Since ye believed* (Actau 19. 2). Eithr “ ‘ oddiar ’ yr hwn nid oes ganddo y dygir ‘ oddi-arno ’ ” (Math. 25. 29). “ ‘ Oddiar ’ y ffurfafen ” (Esec. 1. 26). Rhodder ystyr leol i “ oddiar,”—“ neidio oddiar y pren,” a defnyddier “ er ” i ddynodi amser.

## (c) MEWN AC YN.

*Pa bryd y defnyddir “ mewn ” a phryd “ yn ” ?*

(1) Defnyddir “ yn ” gyda geiriau a fedd ystyr benodol a chyfyng ; geiriau y cyfyngir arnynt gan y fannod neu ymadrodd arall. *E.e.*, edrycher ar y frawddeg “ yn y tŷ ” (Math. 5. 15). Cyfyngir ar y gair “ tŷ ” gan y fannod *y*. Cyfeirir at dŷ arbennig. Neu edrycher ar y frawddeg “ yn nhŷ fy nhad ” (Ioan 14. 2). Cyfyngir ar y gair “ tŷ ” gan yr ymadrodd “ fy nhad.” “ Tŷ fy nhad ” ydyw, ac nid eiddo neb arall. Pa bryd bynnag y rhoddir ystyr benodol i air, y mae’n rhaid defnyddio “ yn.”

Y mae enwau lleoedd, o angenrheidrwydd, yn benodol. Y mae Abertawe’n golygu man arbennig yn Sir Fforgannwg, ac fe ddywedir “ yn Abertawe.” Am yr un rheswm y dywedir “ yn angau ” neu “ yn nhragwyddoldeb.” “ Yn ” a ddefnyddir o flaen pob, pawb, pa, pwy, &c. Digwydd yr ymadrodd “ yn tân ” droeon yn yr efengylau ; eithr er gadael yr “ y ” allan nis anwybyddir, oblegid erys tân heb ei dreiglo. Pes anwybyddid byddai’n ofynnol dywedyd “ yn nhân ” fel y dywedir “ yn nhŷ fy nhad.”

(2) Defnyddir “mewn” gyda geiriau na chyfyngir ar eu hystyr, *e.e.*, “mewn tŷ,” hynny yw unrhyw dŷ; “mewn cerbyd,” “mewn awr.” Sylwer bod rhai, llawer, &c., yn amhenodol, ac yn gofyn am wasanaeth “mewn.” Y mae “‘yn’ rhai manau” yn anghywir. Dywedir “‘mewn’ llawer man”; “‘mewn’ rhai manau”; “‘mewn’ llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro” (Iago 3. 2). Y mae'r rheol hon yn orfodol heddyw, eithr bu deddf *mewn* ac *yn* un amser yn llai caethiwus a cheir enghraifft yn 2 Pedr 3. 18,— “cynhyddwch mewn gras a gwybodaeth ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist.” Y mae'n rhaid inni ddywedyd heddyw, “cynhyddwch mewn gras a gwybodaeth,” ac inni gadw'r ymadrodd yn agored; neu o ddywedyd iddynt berthyn i'n “Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist,” “cynhyddwch ‘yng’ ngras,” &c.

## X.

### CYSTRAWEN.



#### I.—TREFN GEIRIAU MEWN BRAWDDEGAU.

DEFNYDDIR y rhagenw rhwng y gweithredydd a'r ferf yn ddialw am dano. Y Beibl sydd wedi'n harwain ar gyfeiliorn yn y peth hwn. Mewn brawddegau Cymraeg y ferf a ddaw'n gyntaf, yna'r gweithredydd, ac yna'r gwrthrych, *e.e.*, "Prynodd y ffermwr y defaid yn y farchnad ddoe." Nid oes newid ar y drefn hon, ond lle bo galw am bwyslais arbennig. Od ewyllysir dywedyd mai'r ffermwr, ac nid neb arall, a brynodd y defaid, y drefn yw "y ffermwr a brynodd y defaid yn y farchnad ddoe." Wele ffurfiau eraill ar y frawddeg yn ol y galw am bwyslais,—“Y defaid (nid y gwartheg) a brynodd y ffermwr,” &c. “Yn y farchnad (nid ar y maes) y prynodd y ffermwr,” &c. “Ddoe (nid echdoe) y prynodd,” &c. Hynny yw, rhoddir y lle cyntaf i air mewn brawddegau Cymraeg pan fo'r pwyslais arno. Edrycher ymhellach ar y frawddeg,—“Adeiladodd Solomon dŷ iddo ef.” Dyna drefn arferol y Gymraeg,—y ferf, y gweithredydd, y gwrthrych, a'r gweddill o'r frawddeg. Mynega'n syml fod Solomon wedi adeiladu tŷ i'r Arglwydd. Eithr ped ewyllysid dywedyd mai Solomon ac nid Dafydd a'i hadeiladodd, y ffurf briodol fyddai “Solomon a adeiladodd dŷ iddo ef,” a dyna geir yn Actau 7. 47,—“Dafydd, yr hwn . . . . a ddymunodd gael trigfa i Dduw Jacob, eithr Solomon a adeiladodd dŷ iddo ef.” Yr hyn y dylid sylwi arno'n fanwl yw, mai'r pwyslais yn unig sydd yn cyfiawnhau brawddegau lle daw'r gweithredydd neu'r gwrthrych neu ran arall o'r frawddeg yn gyntaf, ac yna y rhagenw



perthynol rhyngddynt a'r ferf. Dwg hyn lu o frawddegau'r Testament Newydd o dan farn condemniad; *e.e.*, y mae'r ymadrodd, "Yr Iesu a ddywedodd," yn gyffredin iawn. Gwelwyd mai'r unig beth a'i cyfreithlona yw'r ffaith mai'r Iesu ac nid neb arall a ddywedodd. Byddai "dywedodd yr Iesu" yn fwy ffyddlon i deithi'r Gymraeg. Ceir "dywedodd yr Iddewon," a hynny'n gywir, yn Ioan 8. 22, a manau eraill.

## 2.—Y FERF A'R GWEITHREDYDD.

*Beth yw perthynas y ferf â'r Gweithredydd?*

(a) Y mae'n rhaid cofio y gall y ferf flaenori neu ddilyn y gweithredydd. Pan fo'r ferf yn dyfod yn gyntaf, rhoddir iddi ffurf y trydydd person unigol, beth bynnag fo rhif y gweithredydd; *e.e.*, "Canodd" y ferch yn swynol," ac er i fwy nag un ganu, ni chyfnewidir dim ar ffurf y ferf,—“Canodd" y merched yn swynol." Prin y ceir anhawster ynglŷn â'r rheol hon,—“Pregethodd" y brawd," "pregethodd" y brodyr," "Cerddodd" y milwr," "cerddodd" y milwyr," &c. Gwelir nad oes cytundeb rhif rhwng y gweithredydd a'r ferf.

Eithr pan fo'r gweithredydd yn rhagenw personol,—wedi ei gynnwys yn y ferf neu'n annibynol arni,—y mae cytundeb rhif a pherson rhyngddynt, *e.e.*, "deuthum" neu "deuthum i i'r dref," "daethom" neu "daethom ni i'r dref"; "daeth" neu "daeth ef i'r dref," "daethant" neu "daethant hwy i'r dref." Yn yr enghreifftiau hyn rhoddir i'r ferf ei ffurf sy'n cyfateb i rif a pherson ei gweithredydd. O ddefnyddio "mi," "ti," "ef," "hi," "ni," "chwi," "hwy," fel gweithredydd, defnyddier ffurfiau'r ferf sy'n cyfateb iddynt.

(b) Rhoddir i'r ferf felly ffurf y trydydd person unigol pan fo'n blaenori'r gweithredydd, eithr yn anffodus

anghofir bod yn rhaid iddi wrth yr un ffurf pan fo'n dilyn y gweithredydd. Ceir llu o enghreifftiau yn y Beibl. "Trugareddau'r Arglwydd 'yw' (nid ydynt) na ddarfu am danom" (Galarn. 3. 22). "Chwiliwch yr Ysgrythyrau canys hwynt-hwy 'yw' (nid ydynt) y rhai 'sy'n' (nid ydynt yn) tystiolaethu am danaf fi" (Ioan 5. 39). "Y rhai oedd (nid oeddynt) o Jerusalem" (Math. 15. 1). Sylwer yn arbennig ar yr enghreifftiau canlynol lle mae'r ferf yn dilyn y rhagenw perthynol,— "fy esgryn a 'lynodd' (nid a lynasant) wrth fy nghroen" (Job 19, 20). "Y costrelau a 'dyr' (nid a dorrant)" (Math. 9, 17); "Y dyddiau a 'ddaw'" (nid a ddeuant) (Math. 9. 15); "Moses ac Elias a 'ymddangosodd' iddynt" (nid a ymddangosasant) (Math. 17. 3). Deallai Pantycelyn ddigon o gystrawen i sgrifennu "Newyddion braf a 'ddaeth' i'n bro." Yn anffodus nid yw'r Beibl yn gyson ag ef ei hun yn ei ddefnydd o'r gystrawen hon. Ceir "y llifddyfroedd a 'ddaethant' (yn lle a ddaeth), a'r gwyntoedd a 'chwythasant' (yn lle a chwythodd), (Math. 7. 27). Ceir y ddwy ffurf o fewn cylch un adnod yn fynych,— "Canys yno y gofynnodd y rhai a'n 'caethiwasent' (anghywir) i ni gân, a'r rhai a'n hanrheithiasai (cywir) lawenydd" (Salm 137. 3).

Defnyddier y lluosog lle bo'r unigol yn amwys. Dynwarediad o ramadeg Lladin, fe ddichon, yw gosod y ferf i gytuno â'r gweithredydd mewn brawddeg gadarnhaol.

Yma eto fe geir un eithriad. Mewn brawddegau negyddol, y mae cytundeb rhif a pherson rhwng y gweithredydd a'r ferf; *e.e.*,—

Dyma'r merched na chanasant.

Dacw'r dynion na ddaethant.

Dyma'r milwyr na allant ymladd.

Sylwer, rhwng cromfachau, mai “na allant” a ddywedir ac nid “nad allant.” Ni ellir defnyddio *d* pan fo *g* wedi ei threiglo ymaith.

Wele’r rheol yn ei ffurf lawn,—

(a) *The Verb is in the third person singular when it precedes the Subject. But when the Subject is a Pronoun (understood or expressed), the Verb agrees with its Subject in number and person.*

(b) *The Verb is in the third person singular when it follows the Subject. But in Negative Sentences, i.e., after “na,” “nad,” “ni,” and “nid,” the Verb agrees with its Subject in number and person.*

### 3.—Y CYFLWR DIBYNNOL.

*Ai “Ystafell Blwyf” ynte “Ystafell Blwyfol” sydd oreu?*

Ystafell Blwyf yw’r hen gystrawen. Son am “fardd teulu” y byddai’r hen Gymry. Gellir troi enw yn ansoddair yn y Gymraeg heb newid dim ar ei ffurf, a gresyn na wneid hynny’n fynychach gan ysgrifenwyr Cymraeg heddyw. Cyhoedder y “cyrddau wythnos” yn hytrach na’r “cyrddau wythnosol,” a chyfarfydder yn yr “ystafell blwyf” yn hytrach na’r “ystafell blwyfol.” Gwell yw “Cymanfa Ddwyrain Morgannwg” na “Chymanfa Ddwyreiniol,” &c., a “Chymanfa Orllewin” na “Chymanfa Orllewinol.” Brawddeg hagr yw, “Ar sail llythyr trosglwyddiadol o’r Gymanfa Orllewinol,” ac y mae brawddeg fel hon yn anobeithiol,— “Rhoddwyd cyfle i annerch y gynhadledd ar ran gwaith y Y.M.C.A. ynglŷn â’r rhyfel presennol yn gartrefol ac yn dramorol.” Siarader am y “Cyrddau Chwarter” yn lle’r “Cyrddau Chwarterol.” A

phaham na sonnir am yr “ysgol ddydd” (petai cisiau newid “ysgol bob dydd”) yn lle “ysgol ddyddiol,” fel y sonnir am yr “ysgol nos”? Ni ellir newid ar “gwrdd blynyddol.” Osgoer yr “-ol” hyd y gellir.

Dywedwyd y gellir troi enw yn ansoddair heb newid dim ar ei ffurf, eithr gwelir bod cydsain “plwyf” wedi’i meddalhau. Fe’i treiglr am mai dibynnair disgrifiadol ydyw plwyf ar ol yr enw benywaidd ystafell. Cydymffurfiai enwau priod â’r rheol hon mewn hen Gymraeg, *e.e.*, “Teyrnas Dduw,” “Eglwys Fair,” “Caer Gybi.” Ceir enghraifft neu ddwy o’r feddal hyd yn oed ar ol enwau gwrywaidd, *e.e.*, “Tŷ Dduw,” “Tŷ Ddafydd” (Luc 1. 69).

Erys dibynnair meddiannol, sef dibynnair na bo’n gwasanaethu swydd ansoddair, heb ei dreiglo, *e.e.*, “Llynges Prydain,” “Braich Duw.”

#### 4.—GOHIRIO’R GWRTHRYCH.

Y mae hwn yn fai cyffredin, ac y mae’n amlwg mai dylanwad y Saesneg sy’n gyfrifol am dano. Edrycher ar yr enghraifft ganlynol ohono,—“diolchwyd i’r brodyr am eu gwasanaeth i a thros yr eglwysi hyn.” Gwelir bod y gwrthrych, “yr eglwysi hyn,” yn dilyn “dros,” yn hytrach na dyfod yn uniongyrchol ar ol “i.” Hynny yw, y mae’r gwrthrych wedi’i ohirio. Y mae’r frawddeg yn cyfieithu’r Saesneg,—“the brethren were thanked for their services to and on behalf of these churches.” Y mae’r frawddeg Saesneg yn gywir, ond y mae’r frawddeg Gymraeg yn anghywir. Ffurf briodol honno ydyw,—“diolchwyd i’r brodyr am eu gwasanaeth *i’r eglwysi a throstynt.*” Wele enghreifftiau eraill,—“bod yn euog o, ac yn edifar am y trosedd.” Yma eto dylai “trosedd” ddilyn “o,”—“bod yn

euog o'r trosedd ac yn edifar am dano. Yr un gwendid a geir yn y frawddeg "daeth ef i, ac arhosodd yn, y dref." Y mae'n rhydd inni ddywedyd yn Saesneg,— "he came *to*, and remained in the town," eithr nid yw chyfieithu'n llythrennol yn gywir. Dyweder "daeth ef i'r dref, ac arhosodd ynddi."

### 5.—"GARTREF" AC "ADREF."

*Beth yw'r gwahaniaeth sydd rhwng "gartref" ac "adref"?*

(a) Y treigliad meddal o "cartref" yw gartref, a gwasanaetha swydd y *locative case* a geir mewn ieithoedd eraill. Defnyddir arddodiad (*preposition*) yn y Gymraeg fel yn y Saesneg i ddynodi lle; e.e., "yn y dref," "ar y bryn," &c. Eithr defnyddir "gartref" heb arddodiad. O gyfieithu "John is at home" ceir "y mae John *gartref*." Dywedir bod John "yn y tŷ," ond ni ddywedir ei fod "yn y cartref."

(b) Rhagferf (*adverb*) yw "adref," a'i ystyr yw "homewards." Ni all neb fynd "gartref," y mae'n rhaid i bawb fynd "adref."

"Adref, adref, blant afradlon,  
Gadewch gibau gweigion ffol."

"Nage," meddai Lleurwg rywdro,

"'Gartref, gartref,' blant afradlon."

Yr oedd Lleurwg fawr am unwaith o'i le. Yr emynydd sy'n iawn. Defnyddier "adref" lle bo neb yn symud i gyfeiriad ei gartref, a "gartref" lle bo neb yn aros ynddo. Dyweder "y mae John *gartref*" am "John is at home," eithr "aeth John *adref*" am "John went home."

Cymharer hwy â'r geiriau Lladin,—

DOMUS, *home*, cartref.

DOMUM (*towards*) *home*, adref.

DOMI (*at*) *home*, gartref.

6.—“ I ” O FLAEN BERFENW.

*Pa bryd y mae defnyddio “ i ” gyda'r berfenw ?*

Pair yr *i* hon gryn drafferth i lawer ohonom oherwydd dylanwad y Saesneg arnom. Defnyddir “ to ” yn ddieithriad gyda'r *infinitive* yn y Saesneg, ac odid nas gwthir i gwmni'r berfenw yn y Gymraeg, pryd nad oes galw am dano. Gwelsom yn ddiweddar y frawddeg,— “ Caniatawyd i wyddoniaeth *i* esbonio ” (*Science was allowed “ to ” explain*). Y mae “ *i* esbonio ” yn cynrychioli “ ‘ to ’ explain.” Eithr ni raid o gwbl wrth yr *i*. Dyfynnwyd Actau 17. 30 yn ddiweddar fel hyn,— “ A Duw . . . sydd yr awron yn gorchymyn i bob dyn ymhob man *i* edifarhau.” Nid oes ystyr o gwbl i'r *i*, eithr barnwyd y dylid ei defnyddio gan fod “ to repent ” yn y Saesneg. Y mae camddefnyddio *i* yn y modd hwn yn arwydd o Gymraeg di-raen.

Ofnwn na fydd ein hateb i ofyniad ein gohebydd yn glir iawn ; fe'i gwneir cyn symled ag yw'n bosibl.

(1) Defnyddier *i* gyda'r berfenw pan fo'n dibynnu ar enw neu ansoddair, *e.e.*, “ Buddiol i athrawiaethu ” (2 Tim. 3. 16) ; “ Addas i edifeirwch ” (Math. 3. 8) ; “ Addas i'm galw yn apostol ” (1 Cor. 15. 9) ; “ Cais i dwyllo.”

Sylwer y gall y berfenw ddilyn enw neu ansoddair heb yr *i*, eithr gwasanaetha swydd enw-y pryd hwnnw yn fwy na swydd berfenw, *e.e.*, “ Y mae'n hawdd casglu,” “ Y mae arni awydd mynd,” “ Y mae ganddo dclawn siarad.” Y mae “ hawdd casglu ” yn well

Cymraeg na “hawdd *i* gasglu,” a “chwant ymddatod,” o bosibl, yn well Cymraeg na “chwant *i*’m datod” (Phil. 1. 23).

(2) Pan fo enw neu ragenw yn wrthrych y ferf, fe geir *i* ambell waith o flaen y berfenw, *e.e.*, “Cynghoraf chwi *i* ddyfod,” “Galluogodd fi *i* fynd,” “Galwaf arno *i* ddyfod,” “Heriaf ef *i* lefaru.”

*Sylwer.*—Pan fo berfenw yn wrthrych y ferf, yna y mae’r *i* o flaen yr enw neu’r rhagenw, *e.e.*, “Dysgodd imi ganu,” nid “dysgodd fi *i* ganu”; “gadewch *i*’r bwyd oeri,” nid “gadewch y bwyd *i* oeri.”

(3) Defnyddir *i* ar ol amseroedd “bod” *i* ddynodi amcan neu bosibilrwydd, *e.e.*, “Y mae’r dyn *i* gychwyn heddyw,” “Y mae ef *i* bregethu fory.”

(4) Ambell waith fe geir *i* gyda’r berfenw ar ol berfau cyflawn (*intransitive verbs*). Rhaid *i*’r *i* hon olygu amcan neu bwrpas, *e.e.*, “Mi a droais *i* edrych,” “Llwyddodd *i* ennill y rhyfel,” “Galwodd *i* weled y fan.”

*Sylwer.*—Y mae’r berfenw yn wrthrych uniongyrchol rhai o’r berfau hyn pryd na ellir wrth enw neu ragenw yn wrthrych iddynt o gwbl. Fe’i defnyddir mewn achos felly heb yr *i*. Ni ellir “anobeithio” unrhyw wrthrych, eithr fe ellir, wrth ddefnyddio berfenw, *e.e.*, “Anobeithiaf lwyddo,” “bwriadaf ddyfod,” digwyddais weled.”

(5) Defnyddir *i* ar ol y berfau “dal,” “parhau,” &c., a ddilynrir brydiau eraill gan wrthrych, *e.e.*, daliodd *i* nofio, parhaodd *i* ddysgu.

#### 7.—“ I ” AR ● L Y BERFENW.

Edrycher ar gystrawen *dysgu*,—“Dysg inni weddio” ac nid “dysg ni *i* weddio.” Yn iaith y gramadegau, “dysgu” *is followed by the Dative of the person and the*

*Accusative of the thing.* Y mae tuedd i ddefnyddio *i* gyda'r berfenw ac nid gyda'r person oherwydd defnyddio *to* gyda'r *Infinitive* yn y Saesneg, a chyfieithu "teach us to pray" air am air yn "dysg ni i weddio." Y mae "teach us to pray" yn Saesneg purion, eithr "dysg inni weddio" yw'r Cymraeg am dano. Sylwer ar y gwahaniaeth sydd rhwng "dysgu" a "cymell."

"Cymell hwynt i ddyfod i mewn," ebe Luc 14. 23, eithr "dysg iddynt ddyfod." Y mae Pantycelyn yn llygad ei le pan ddywed,— "Dysg inni scinio maes dy glod," eithr nid yw mor sicr ohoni pan ddywed,—

"Dysg fi ryfela â'r ddraig heb goll,  
A dysg fi goncro 'mhechod oll."

Dysg "im" ryfela, &c., fyddai'n gywir.

Gwell, yn ddiameu, fyddai "gan ddysgu inni wadu annuwioldeb" yn Titus 2. 12, na "gan ein dysgu i wadu." Wele enghraifft arall o'r gystrawen briodol, -- "Dysg i mi wneuthur dy ewyllys di" (Salm 143. 10); "Dysgwch gwynfan i'ch merched" (Jerem. 9. 20); "Gan ddysgu iddynt gadw," nid "*i* gadw" (Math. 28. 20).

Gwelir bod gan *dysgu* ddau wrthrych, a gofynnir inni wylio rhag defnyddio'r *i* gyda'r berfenw. Y berfenw yw'r gwrthrych uniongyrchol, a dylid defnyddio'r *i* gyda'r gwrthrych anuniongyrchol, sef y person. Y mae dosbarth o ferfau yn meddu cyffelyb gystrawen, sef y rheiny a gyflea ddymuniad neu orchymyn neu waharddiad. Er enghraifft,—

*Erchi.*

"Efe a archodd i'r canwriad gadw" (Actau 24. 23).

"Arch i'r cerrig fod" (Math. 4. 3).

*Gwahardd.*

"Gwaharddwyd i'r nefoedd wlitho, a gwaharddwyd i'r ddaear roddi ei ffrwyth" (Haggai 1. 10).



Ceir “na waherddwch hwynt” yn Luc 18. 16, eithr y mae’r ymadrodd yn gywir yn Marc 10. 14,—“Na waherddwch iddynt.”

“*Gwarafun.*”

“Gan warafun inni lefaru” (1 Thes. 2. 16).

“Gwarafun iddynt bregethu’r Gair yn Asia” (Actau 16. 6).

“*Peri.*”

“Mi a baraf i chwi wynfydu” (Rhuf. 10. 19).

“A pharaf i weddill y bobl hyn feddiannu” (Sech. 8. 12).

“*Ewyllysio.*”

“Yr wyf yn ewyllysio i’r gwŷr weddio” (1 Tim. 2. 8).

“Yr wyf yn ewyllysio i’r rhai ieuainc briodi” (1 Tim. 5. 14).

“*Mynnu.*”

“Os mynnaf iddo aros” (Ioan 21. 22).

“*Gorchymyn.*”

“Yr wyf yn gorchymyn i ti wneuthur” (Deut. 24. 18).

“Ac wedi gorchymyn i’r torfeydd eistedd” (Math. 14. 19).

“*Caniatau.*”

“Ni chaniatawyd iddynt lefaru” (1 Cor. 14. 34).

“*Gwneuthur.*”

“Na wna iddo wasanaethu” (Lef. 25. 39).

“*Gadael*” (caniatau).

“Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi” (Marc 10. 14).

Felly hefyd “addo,” “awgrymu,” “bwriadu,” “gofyn,” “gwrthod,” “trefnu.”

Cystrawennir yr un modd y berfau a ddilynir gan yr arddodiad “ ar.” Ni ellir defnyddio *i* o flaen y berfenw.

“ *Dymunaf* ar i'r dyn ddyfod,” nid “ dymunaf ar y dyn *i* ddyfod.”

“ *Crefaf* ar i'r llywodraeth bwylo,” nid “ crefaf ar y llywodraeth *i* bwylo.”

Felly hefyd deisyf ac erfyn.

Dilynir “ cael ” a “ ceisio ” gan yr arddodiad “ gan,” eithr ymwrthodasant hwythau â'r *i* hon sydd yn fagl *i* sgrifenwyr.

“ Caf gan y dyn fyned.”

“ Ceisiaf gan y dyn ddyfod.”

Sylwer bod dosbarth arall o ferfau a gymer ddau wrthrych, a'i bod yn gyfreithlon eu dilyn ag *i* o flaen berfenw.

“ *Cynghori.*”

“ Yr wyf yn eich cynghori chwi *i* fod yn gysurus ” (Actau 27. 22).

“ Cynghora weision *i* fod yn ddarostyngedig i'w meistriaid ” (Titus 2. 9).

Eithr sylwer ar Act. 13. 43,—“ A gynghorasant iddynt aros yng ngras Duw,” lle mae cynghori'n gyfystyr â gofyn.

“ *Cymell.*”

“ A chymell hwynt *i* ddyfod i mewn ” (Luc 14. 23).

“ Yn cymell y Cenhedloedd *i* fyw yn Iddewaidd ” (Gal. 2. 14).

“ *Annog.*”

“ Y mae hwn yn annog dynion *i* addoli Duw yn erbyn y ddeddf ” (Actau 18. 13).

“ Ahab a'i hanogodd ef *i* fyned i fyny ” (2 Chron. 18. 2).

“ *Gwahodd.* ”

“ Gwahoddodd Arglwydd Dduw y lluoedd rai *i* ymwregysu â sachlian ” (Es. 22. 12).

“ *Galw.* ”

“ Na elwaist arnom ni *i* fyned gyda thi ” (Barn. 12. 1).

“ Alw o’r Arglwydd nyni *i* efengylu ” (Actau 16. 10).  
Felly hefyd “ herio ” a “ galluogi. ”

Y mae’n gyfreithlon defnyddio *i* o flaen y berfenw ar ol y berfau hyn, eithr ymogeler rhagddo ar ol y lleill.

### 8.—PAN.

*Ymha gysylltiad y dylid defnyddio “ pan ” ?*

(1) Ni ddylid byth ysgrifennu *y* ar ol “ pan. ” Nid oes hawl ganddo i’r llythyren o gwbl. Y mae sgrifennu “ pryd *y*, ” “ gwedy *y*, ” “ hyd *y*, ” “ megys *y*, ” “ fel *y*, ” yn gywir, eithr ymogeler rhag “ pan *y*. ” Arfer yr *y* gyda’r geiriau uchod a gyfrif, yn ddiameu, am y defnydd mynych sydd arni ar ol “ pan. ” Nid dieithr yw gweled “ pan *y* gwel ” neu “ pan *y* daw. ” Cyfeiliorni ei ffordd yn y Gymraeg a wna pawb a ddefnyddio’r *y* ar ol “ pan. ” Yn y frawddeg, “ Pan *y* dygasoch adref ” (Haggai 1. 9), talfyriad yw’r *y* o “ *y*’i, ” sy’n cynrychioli “ ei ” neu “ eu ” y dyddiau gynt.

Y mae’r un mor anghywir ysgrifennu *y* ar ol “ os. ” Na sgrifenner “ os *y* gwêl, ” eithr “ o(s) gwêl ” ; “ *Os* dringaf i’r nefoedd, ” “ *Os* cyweiriaf fy ngwely ” (Salm 139. 8). Collir *y* ar ol *pe* a *lle* er ei bod yn ramadegol gywir ar ol y geiriau hyn ; “ *Pe* llefarwn â thafodau ” (1 Cor. 13. 1) ; “ *Pe* rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau ” (Salm 23. 4) ; “ *Pe* cymerwn adenydd *y* wawr ” (Salm 139. 9).

(2) Dilynir “pan” yn gyffredin gan y modd dibynnol (*subjunctive mood*). Hawdd meddwl am ddigon o enghreifftiau,—“*Pan ddél Efe*” (Ioan 16. 13); “*pan fyddom yn caru Duw*” (1 Ioan 5. 2); “*pan ddihunwyf*” (Salm 17. 15); “Gwylia ar dy droed *pan fyddech* yn myned i dŷ Dduw” (Preg. 5. 1). Pan fo’r amser a ddynodir yn un pendant, fe’i dilynir â’r modd mynegol, *e.e.*, “*Pan ddaeth*” (Luc 15. 30); “*Pan gydganodd ser y bore*” (Job 38. 7); “*Pan osodais i y cwmwl*” (Job 38. 9).

(3) Yn yr amser presennol, modd mynegol, “pan yw” yw’r gystrawen briodol; *e.e.*,—“Er pan ‘yw’ cenedl hyd yr amser hwnnw” (Dan. 12. 1); “pan ‘yw’ fy nhad a fy mam yn fy ngwrthod” (Salm 27. 10); “Pan ‘yw’ yn dwyn” (Heb. 1. 6). Eto, “pan ‘yw’ yn dywedyd celwydd” (Ioan 8. 44). Eithr o ddefnyddio “pan yw” na feddylid neb fod rhyddid ganddo i ddefnyddio “pan mae,” neu’n waeth, “pan y mae.” Tyfiant diweddar yw “pan mae,” ac ni fedd hawl ar un math ar gefnogaeth lenyddol.

Nid yw’r frawddeg “*nes y mae*” (*until*) yn gywir ychwaith. O ddilyn “nes” o gwbl â thrydydd person, amser presennol “bod,” dyweder “nes yw” a “nes ydynt.” Eithr yr arfer briodol ar ol “nes” yw defnyddio’r berfenw; *e.e.*, “nes ‘darfod’ i ni selio gwasanaethwyr ein Duw ni” (Dat. 7. 3); “Nes ‘cyflawni’r’ mil blynyddoedd” (Dat. 20. 5), a “nes i mi ‘orfod’” (Es. 36. 17).

(4) Sylwer ymhellach fod “pan” i’w ddilyn gan y treigliad meddal, *e.e.*, “pan ‘ddél’” (o dël); “pan ‘fyddom’” (o byddom); “pan ‘ddihunwyf’”

(o dihunwyf). Y mae llinell a briodolir i Bantycelyn yn torri'r deddfau uchod i gyd,—

“ Mae rhyw arswyd drwy'r greadigaeth  
*Pan y byddost ti gerllaw.*”

*Pan fyddych yw'r gystrawen gywir.* “ Tyr'd am hynny maes o law,” a ddywedodd Pantycelyn.

### 9.—NEGYDDU YMADRODD ENWOL.

*A yw'r ymadrodd “ mai nid ” yn gywir ?*

Nac ydyw, er digwydd ohono yn fynych. Mewn gosodiad cadarnhaol defnyddir “ mai ” neu “ taw,”— “ gwn ‘ mai ’ ef yw'r goreu ”; “ gwelodd ‘ mai ’ myfi oedd yr olaf.” I negyddu'r brawddegau hyn peidier ag arfer “ mai nid ” neu “ taw nid,” eithr “ nad ”; fel hyn,—“ gwn ‘ nad ’ ef yw'r goreu ”; “ gwelodd ‘ nad ’ myfi oedd yr olaf.” Yn enghraifft o'r defnydd anghywir sydd ar “ mai nid ” yn hytrach na'r gair bach “ nad,” sylwer ar y brawddegau canlynol,—“ Y mae'r syndod hwn yn ddigon i brofi ‘ mai nid ’ at y Meseia y cyfeiria'r Salm ”; “ y rheswm yn yr adnod hon ydyw ‘ mai nid ’ i angylion yr ymddiriedwyd yr efengyl ”; “ dengys yr efengyl ‘ mai nid ’ un oddiyma ydyw.” O'u cywiro, darllenant,—“ ‘ nad ’ at y Meseia,”— “ ‘ nad ’ i angylion,”—“ ‘ nad ’ un oddiyma.” Pe ceisid negyddu'r frawddeg, “ Yr ydwyf yn dywedyd i ti mai ti yw Pedr ” (Math. 16. 18), darllennai fel hyn,— “ Yr ydwyf yn dywedyd iti ‘ nad ’ ti yw Pedr.” Dysgir i Israel wybod “ ‘ nad ’ trwy fara'n unig y bydd byw dyn ” (Deut. 8. 3). Na ddyweder ychwaith “ os mai,” gan fod os yn cynnwys *mai*.

## 10.—PE AC O(S).

*Pe ac O(s).*

Defnyddir “pe” ac “o(s)” mewn brawddegau amodol.

(1) Arferir *os* gyda'r modd mynegol (presennol, amherffaith neu orffennol), a bydd y ferf yn y brif frawddeg yn y modd mynegol (neu orchmynnol).

“ ‘Os’ ceidw neb fy ymadrodd i, ni wêl efe farwol-aeth ” (Ioan 8. 51).

“ ‘Os’ chwarddwn arnynt hwy, ni chredent fi ” (Job 29. 24).

“ ‘Os’ codais fy llaw yn erbyn yr amddifad, . . . . syrthied fy mraich oddiwrth fy ysgwydd ” (Job 31, 21, 22).

(2) Arferir *pe* gyda'r amherffaith dibynnol neu'r gorberffaith, a bydd berf y brif frawddeg yn yr amherffaith mynegol neu'r gorberffaith.

“ Ped adwaenit ti ddawn Duw, . . . tydi a ofynasit iddo ef ” (Ioan 4. 10).

“ Pes adwaenasent ni chroeshoeliasent Arglwydd y gogoniant ” (1 Cor. 2. 8).

“ Ped adnabuasech fi, chwi a adnabuasech fy nhad i hefyd ” (Ioan 8. 19).

## 11.—YR YMADRODD ANNIBYNNOL.

*Yr ymadrodd Annibynnol.*

Ceir hwn yn yr ieithoedd clasurol, ac er ei ddefnyddio yn y Saesneg, nid yw mor nodweddiadol o'r iaith honno ag o'r eiddom ni. Dylid cymell defnydd cymedrol ohono ar y neb a garo loywi'i arddull. Y mae'n annibynnol (*absolute*) am na ddibynna ar y brif frawddeg. Y mae'n byw iddo'i hun o ran cystrawen. Cwrddir ag ef yn fynych yn y Beibl. Wele enghreifftiau.

“Daethant at y bedd, ‘a’r haul wedi codi’”  
(Marc 16. 2).

Y mae’r ymadrodd yn llawer mwy grymus na phe dywedasid, “pan oedd yr haul wedi codi,” neu rywbeth arall.

“‘Ac efe eto’n llefaru,’ cwmwl goleu a’u cysgododd hwynt” (Math. 17. 5).

“‘Ac efe yn rhagweled,’ a lefarodd am atgyfodiad Crist” (Actau 2. 31).

Sylwer ar yr anhepgorion.

(1) Nid oes ynddo ferf, eithr berfenw a lywodraethir gan arddodiad.

(2) Gellir ei gyfieithu i’r Saesneg gan frawddeg a ddynoda amser (*when, while*), achos (*because*), effaith (*since*), neu amod (*if*).

“A minnau yn rhoi cennad, pam na ddywedi di dy feddwl yn hyf.”

(3) Gellir ei ddefnyddio i fynegi tri phrif amser y ferf. Mynega “wedi” a’r berfenw yr amser gorffennol, “yn” a’r berfenw yr amser presennol, ac “ar” a’r berfenw yr amser dyfodol.

(4) Gair cyntaf yr ymadrodd bob amser yw “a” neu “ac.”

Pe na wnâi ddim arall, byddai’n wych ddefnyddio’r ymadrodd hwn er mwyn iddo beri arfer y ffurfiau “minnau,” “tithau,” “yntau,” &c., a esgeulusir gennym mor waradwyddus.

Un o’r erchyllterau a ddygwyd yn ddiweddar i’r iaith yw rhoi *tra* yn lle *a* ar ddechreu ymadrodd annibynnol; “*tra’r* adar yn canu,” yn lle “*a’r* adar yn canu.” Nid yw “*tra’r* adar yn canu,” “*while the birds singing*,” na Chymraeg na Saesneg, er mai dynwarediad o’r Saesneg *while* oedd ar y cychwyn.

## XI.

### MANION.



(1) *A yw "fel ag" yn ymadrodd priodol?*

Nac ydyw, ni ddigwydd "ag" ar ol "fel." Y mae dau ystyr i fel. (a) Cyflea'r syniad o gymhariaeth, ac fe'i dilynir gan enw (*noun*) neu ymadrodd enwol (*noun clause*) a flaenorir gan *y*,—" 'fel' y bu Jonas" (Math. 12. 40); " 'fel' colomen" (Math. 3. 16); " 'fel' angylion Duw" (Math. 22. 30); " 'fel' y daw'r fellten" (Math. 24. 27). (b) Fe'i defnyddir i fynegi amcan neu offaith, ac nis ysgerir oddiwrt h *y* mewn brawddegau cadarnhaol a *na* mewn brawddegau negyddol,— " 'fel' y gwelont eich gweithredoedd da chwi" (Math. 5. 16); " 'fel' yr elont i'r pentrefi" (Math. 14. 15); " 'fel' na phechoch" (1 Ioan 2. 1); " 'fel' na byddai i'r rhai byw" (2 Cor. 5. 15). Ni cheir "ag" ar ol "fel," a daw'r llinell "fel ag yr wyf" o dan farn condemnïad.

Mewn pennod flaenrol (td. 69) gwaherddwyd inni ddefnyddio "ag" yn lle rhagenw perthynol. Fe'i gwelir yn fynych fel rhagenw o flaen "oedd," eithr dylid ymogelyd rhagddo. "Un 'a' oedd yn ei ddyled ef," nid "un 'ag' oedd" a geir yn y Beibl (Math. 18. 24); "O'r hyn 'a' oedd yng ngweddill," nid "o'r hyn 'ag' oedd" (Marc 12. 44). Nid oes eisïau'r rhagenw o gwbl o flaen "oedd." Sylwer ar y gwaith a roir i "ag."

(a) Dynoda offeryn, "ag olew gorfoledd" (Heb. 1. 9).

(b) Fe'i defnyddir ar ol gradd gyfartal yr ansoddair,—"mor ddiogel 'ag' y medroch" (Math. 27. 65). Fe'i ooir felly ar ol cymaint, cynifer, cyfryw, math, &c.,—



“Cynifer ‘ag’ a’i derbyniasant” (Ioan 1. 12). “Y cyfryw dâl ‘ag’ ydoedd raid” (Rhuf. 1. 27). “Y fath ddialedd ‘ag’ na chlywsant” (Mica 5. 15).

(c) Ar ol nifer o eiriau sy’n dechreu ag *ym* neu *cyf*; e.e., “A mab dyn i ti i ‘ymweled ag’ ef” (Salm 8, 4); “ewch allan i gyfarfod ag ef” (Math. 25. 6); “Ymdrechodd gŵr ag ef” (Gen. 32. 24).

(d) O flaen y rhagenw ar ol gradd uchaf yr ansoddair (t.d. 69).

(2) *O ba le y daw* “*ch*” yn “*a chan*”? Yr oedd “gan” (*with*) gynt yn “gant,” a “gant” cyn hynny yn “cant.” Y mae “cant” erbyn hyn yn “gan,” eithr fe gedwir yr *c* mewn ambell air fel “*canmolaf*.” Yr *c* yn yr hen air sy’n cyfrif am y treigliad chwyrn “*ch*” ar ol *a*. “A ‘chennyf’ filwyr danaf” (Math. 8. 9); “A ‘chanddi’ ddeg dryll o arian” (Luc 15. 8). Yr un peth sy’n cyfrif am yr “*ch*” yn “*a cher*.” “‘A cher’ bron ei angylion ef” (Dat. 3. 5).

(3) “Lleygwr a gafodd yr anrhydedd o ddwyn allan y Testament Newydd cyntaf yng Nghymraeg.” Onid “yn Gymraeg”? Ie. Y mae “yng Nghymraeg” yn dynodi Cymraeg person neu gyfnod neu lyfr arbennig, “Yng Nghymraeg *Y Beirniad*,” neu “yng Nghymraeg yr ugeinfed ganrif.” Eithr pan feddylier am y Gymraeg fel un o ieithoedd y byd, yna “yn Gymraeg” sy’n gywir.

(4) “Os daw’r Eidal i fewn.” Ai “i fewn” ynto “i mewn?” I mewn. Y mae “mewn” yn un o’r geiriau nas treiglr ar ol *i*. Felly mi, minnau; ti, tithau.

(5) Arfer ddialw am dani yw sgrifennu 3ydd, 6ed, 16eg, 24ain, &c. Y mae 3 yn golygu trydydd wrth ei

ddefnyddio i ddynodi trefn, 6 yn golygu chweched, 16 yn golygu unfed-ar-bymtheg. Pan roir y rhif ni raid ychwanegu'r gair na darn ohono. Oddieithr mewn llythyrau, ysgrifenner y gair yn llawn heb y rhif. Mewn llythyrau defnyddier y rhif heb y gair,—Ebrill 3 neu Mai 6. Ysgrifennir y nodiadau hyn Mai 19, 1916.

(6) “*Pwy sydd i ddial ar Germani, a'i Rwsia a'i Ffrainc?*” *Onid ai . . . ai sy'n gywir?* Ie. Ceir onghraifft darawiadol yn Ioan 9. 2,—“*Pwy a bechodd, ai hwn ai ei rieni?*” Ystyr “*a'i*” yw *and his, and her*. Mewn brawddegau fel “*ac 'a'i' lladdasant*” (*and they killed him*), gelwir *a* yn *preverbal particle*, eithr dylid cofio mai rhagenw ydyw yn ei ddefnydd gwreiddiol. Yma fe'i cysylltir â'r rhagenw *i* sy'n wrthrych y ferf. Defnyddier “*ai*” wrth ofyn cwestiynau. Eto, dylid gwahaniaethu rhwng “*a'i*” (*and his, and her*), ag “*â'i*” (*with his, with her*).

(7) Wrth gyfieithu'r Saesneg *neither—nor*, odid na adewir allan un o'r ddau “*na*” a ddylid eu defnyddio. Pan fo eisiau Cymraeg am *neither—nor* dyweder *na(c)—na(c)*; *e.e.*, “*Nid oes 'nac' Iddew 'na' Groegwr*” (Gal. 3. 28).

Y duodd yw dywedyd, “*nid oes Iddew na Groegwr.*” Yn hytrach na dywedyd “*nid oedd dyn nac anifail yno.*” dyweder, “*nid oedd 'na' dyn 'nac' anifail yno.*” Wele enghreifftiau,—

“*Y maent yn peri na byddoch 'na' segur na diffrwyth*” (2 Pedr 1. 8).

“*Nad ydwyd 'nac' oer na brwd*” (Dat. 3. 15).

“*Na rhan na chyfran*” (Act. 8, 21).

(8) *Beth yw'r gwahaniaeth rhwng "im" ac "i'm"?* Un o ffurfiau treigliol yr arddodiad *i* yw "im," a'i ystyr yw *to me*. Fe'i dyellir yn well drwy gofio'r ffurf a welir arno'n fynych heddyw, sef "i mi." Wele'r treigliadau *i* gyd,—

im, imi, i mi.	in, inni, i ni.
it, iti, i ti.	ichwi, i chwi.
iddo, iddi.	iddynt.

Defnyddir "i mi," "i ti," &c., pan fo'r pwyslais ar y rhagenw. Ni ddefnyddir heddyw yr hen ffurf *iwch* a geir mewn Beiblau.

*I*, gyda'r rhagenw mewnol, yw "i'm," a'i ystyr yw *to my*; *e.e.*, "i'm' rhwymau i,"—*to my bonds* (Phil 1. 16). Wele'r tri pherson unigol a lluosog ar ol *i*,—

i'm ( <i>to my</i> ).	i'n ( <i>to our</i> ).
i'th ( <i>to thy</i> ).	i'ch ( <i>to your</i> ).
i'w ( <i>to his, to her, to their</i> ).	

(9) *Gwahaniaether rhwng "ni" a "na."* Defnyddir "ni" (1) Mewn ymadrodd uniongyrchol,—“ni' welodd llygad ac ni chlywodd clust” (1 Cor. 2. 9). Fe'i dilynir gan dreigliad chwyrn *c*, *p*, *t*, a chan dreigliad meddal y gweddill. (2) Fel rhagenw perthynol negyddol,—“gwyn ei fyd y gŵr 'ni' rodia” (Salm 1. 1). Fe'i dilynir gan yr un treigliadau.

Defnyddir "na" (1) Mewn ymadrodd anuniongyrchol, *e.e.*, dywedodd Paul “na' welodd llygad ac 'na' chlywodd clust.” (2) Fel rhagenw perthynol negyddol, yn arbennig ar ol “pryd,” “odid,” “fel,” “pa fodd,” &c.; *e.e.*, “dyma'r gŵr na thawai.” (3) Mewn gwaharddiadau; *e.e.*, “na' ladd,” “na' ladrata” (Ecsod. 20, 13—17). (4) Mewn atebion,—A glywi di'r gwynt?—“Na” chlywaf. (5) Fel cysylltiad, *e.e.*,

“sydd gryfach ‘na’ myfi” (Math. 3. 11). (6) Fel cysylltiad eto, *e.e.*, “‘na’ rhan ‘na’ chyfran” (Act. 8. 21).

Yn y pedwar defnydd cyntaf sydd arno, dilynrir “na” gan dreigliad chwyrn *c, p, t*, a chan dreigliad meddal y lleill. Eithr yn y ddau ddefnydd olaf gan dreigliad chwyrn *c, p, t*, ond gwreiddiol y gweddill. Yn rhif (5) “nag” a ddefnyddir o flaen llafariad, yn rhif (6) “nac.”

(10) Osgoer yr ymadrodd *os na*. “Oni” yw’r gair priodol, *e.e.*, “Oni wrandawant ar Moses” (Luc 16, 31); “Onid erys un ynof fi” (Ioan 15. 6).

(11) *Beth yw cystrawen “tra”?* (1) Fe’i dilynrir gan y ferf, *e.e.*, “‘tra’ ’r oeddwn yn myfyrio” (Salm 39. 3); “‘tra’ fyddech ar y ffordd” (Math. 5. 25); “‘tra’ fyddwyf fyw” (Salm 104. 33), &c. Y mae’r ferf yn y modd mynegol pan fo’r amser yn benodol, ac yn y modd dibynnol pan fo’n amhenodol. (2) Fe’i dilynwyd gan y feddal hyd yn ddiweddar iawn. Fe’i dilynrir amlaf yn awr gan y gwreiddiol. Ymogeler rhag cymysgu arno â’r gair “tra” (*over*), *e.e.*, “‘tra’ phendant,” “‘tra’ chas,” &c. Dilynrir y “tra” hwn gan y treigliad chwyrn.

(12) “*Peidio*” a “*Methu*.”—Dilynrir nifer o ferfau gan arddodiad. Dilynrir “peidio” a “methu” gan yr arddodiad “â” (ag) pan fônt yn rhagflaenu berfenw, *e.e.*, “had Israel a baid â bod yn genedl” (Jerem. 31. 36); “Paid â gwrando’r addysg a bair iti gyfeiliorni” (Diar. 19. 27); “Anrhydeddus yw i wŵr beidio ag ymryson” (Diar. 20. 3). “Nes methu â chanfod ogwyddorion eu cyfansoddi’n eiriau . . . nes methu â chanfod bod i’r iaith y fath beth a phriod-ddull”

(Rhagymadrodd y Bardd Cwsg XLVIII., Syr J. Morris Jones). Ebe Pantycelyn,—

“Methu wnawn â chwrrd â geiriau,  
Boddi wnâi'm synwrau'n lân;  
Chwilio a darllen pob ysgrifen,  
Methu â gorffen ar y gân.”

—*Cân y Pren Gwyrddlas.*

Wele gystrawen ychydig o'r geiriau y mae mwyaf o berigl cymysgu arnynt,—Achub rhag; Adnabyddus gan (Ioan 18. 15); Addef wrth; Cymharu â (ag), nid i; Dianc ar, nid rhag; Dioddef gan, nid oddiwrth; Edliw i; Llenwi o.

(13) *Beth yw deddf* “'m” ac “'th”? Dibynna'u deddf ar y cyflwr y bônt ynddo.

(a) Yn y cyflwr gwrthrychol fe'u defnyddir ar ol y geiriau *lle, yno, oni, o, pe ac y*; ar ol y manynnau *a, neu, fe ni a na*, ynghyd â'r rhagenwau *a ac y; e.e.*, “dy ffydd *a'th*” (Luc 7, 50); “*ni'm gwelwch*” (Ioan 16. 17);

“*Pe'th* archwn, ni wn ennyd  
Gan bwy *y'th* gawn yn y byd.”

—*Bedo Brwynllys.*

(b) Yn y cyflwr meddiannol fe'u defnyddir ar ol *a, â, gyd a, tua, ni, na, i ac o; e.e.*, “*i'th* ddwylo di” (Luc 23. 46); “Ceri yr Arglwydd dy Dduw *â'th* holl galon . . . . *a'th* gymydog” (Luc 10. 27); “mi a gedwais y rhai hyn oll *o'm* hieuenctid” (Math. 19. 20); “*gyd â'th* ysbryd (2 Tim. 4. 22.) Gwaherddir inni sgrifennu “fy” a “dy” ar ol y geiriau hyn. Byddai “i *dy* ddwylo” neu “â *dy* holl galon yn anghywir.” Ar y llaw arall, “fy” a “dy” sy'n gywir ar ol pob gair arall a derfyno â llafariad; *e.e.*, “fy” a “dy” sy'n gweddu ar ol “mae.” Yn y llinell “*mae'th* gariad rhad *a'th* gariad drud,” y mae'r “'th” yn gywir ar ol *a*, ond yn anghywir ar ol *mae*.

“These pronouns,” ebe Thomas Richards, yn ei ramadeg, gan gynnwys holl ffurfiau'r rhagenw mewnol, “are compounded with *a*, (and), *â* (with), *na* (neither, nor), *i* (to), *o* (out of).”

(14) Sylwyd eisoes ar amryw eiriau a gamsillefir (td. 32—40). Yn anffodus gwelir enghreifftiau eraill o bryd i'w gilydd; *e.e.*, gwelir ar droeon *e* yn lle *y* yn “gloyw.” Nid “gloew” mo'r gair, ond “gloyw.” Cadwer yr *y* yn gwayw, croyw, a hoyw hefyd. Dylid defnyddio *e* ac nid *i* yn “claeor,” a “taeog,” megis yn “daear” (td. 31). Ar brydiau fe sgrifennir *de* yn lle *di* yn “disgrifio.” “Dinistr” yw'r ffurf gywir ac nid “dinystr” a “chwyldroi” (fel “gwyrdroi”) yn hytrach na “chwildroi.” Y gair Cymraeg am *thigh* yw “clun,” nid “clin,” ond y gair am *groan* yw “griddfan,” nid “gruddfan.” Ffurfiâu gau yw “cenaw” ac “athraw.” Ceir “cenaw” yn Gen. 49. 9, a Mica 5. 8, ond fe geir y ffurf gywir yn Es. 11. 6,—“y llo hefyd a chenau y llew;” “Yn rith bleiddast a'i dau *genau* ganddi,” a geir yn hanes hela'r Twrch Trwyth. A gair diweddar yw “athraw.” “Athro” yw'r ffurf lenyddol arno. Y lluosog yw “athrawon.” Dylid sôn am yr “Wryy” f'air ac nid am yr “Wryf.” Daw'r gair o'r Llad. *virgo*. “Gweryddon” yw'r lluosog. Nid oes eisiau'r / yn “plu” a “hy” chwaith. Dysgwn ganu

“Bywhâ dy waith o fewn Dy dŷ,  
A gwna Dy weision oll yn *hy*.”

Gwelir y ffurf *hy* mewn llyfrau emynau, gan awgrymu llythyren goll. Eithr “hy” ydyw'r gair, ac nid “hyf.” Ac inni ddychwelyd at y gair “disyml,” dylid nodi bod yr Athro Gruffydd yn dal mai negyddu y mae'r *di*. Ystyr annymunol, medd ef, sydd i'r gair “syml.” Dywed mai ystyr disyml yw *not clownish*, a bod y

negyddol drwy ffigyr cyffredin yn y Gymraeg yn troi yn gadarnhaol cryf,—*dignified* (Beirniad, Cyf. v. td. 60).

(15) *Beth yw ystyr y ffurf "y'i" ac "y'u" a welir weithiau.*—Trydydd person unigol a lluosog cyflwr gwrthrychol y rhagenw mewnol (*infixed pronoun*) yw'r *i* a'r *u*. Mewn Hen Gymraeg ni wahaniaethid rhwng yr unigol a'r lluosog; *y* neu *e* a ddefnyddid yn ddiwahan-iaeth am y ddau. Y rhagenw perthynol yw'r *y* yn *y'i* ac *y'u*, a phan ddeuai'r ddau ragenw ynghyd, gwnaed un *y* ohonynt. Erbyn hyn trodd yr *y* hon yn *ei* yn yr unigol ac yn *eu* yn y lluosog, a chynnig yw'r *y'i* a'r *y'u* i ddangos ystyr y gystrawen wreiddiol nas gwelir yn rhwydd yn *ei* ac *eu*.

(16) *Pa ran o'r ferf yw "cymerth"?* Trydydd person unigol amser gorffennol "cymryd." Y gair arferol am dano yw "cymerodd." Fe'i ceir yn Luc 24. 28,— "yntau a gymerth arno." Ceir "differth" hefyd o "diffryd" yn golygu "amddiffyn." Diweddai trydydd person unigol amser gorffennol amryw ferfau yn yr hen lenyddiaeth ag *s* neu *t* (th). Ceir enghraifft o'r hyn a elwir yn *t preterite* yn "gwant" he pierced, a "cant" he sang. Y mae'r *s-preterite* o hyd ar lafar gwlad. Y ffurf gyffredin arno heddyw yw *-ws*. Iaith gyffredin y De yw "cysgws," "dywedws," "pregethws," &c. Y diweddeb *-awdd*, sef *-odd* yn awr, a ffynnodd yn yr iaith ysgrifenedig "cysgodd," "dywedodd," "pregethodd," &c.

(17) Cydsain yw'r llythyren *h*, a gwneir â hi fynychaf y modd y gwneir â phob cydsain arall. Er enghraifft, *a* yw'r cysylltiad o'i blaen, nid *ac*. Gellir sôn am "Moses *ac* Elias" (Math. 17. 3), eithr "Moses *a* Hur" a geir yn Ecsod. 17, 10. A thrachefn, "Wele Aaron *a* Hur a fydd gyd a chwi" (24. 14).

## ATODIAD.



(1) *Ffurf y trydydd person unigol amser presennol.*

Wele ffurf rhai o'r berfau anhawsaf,—

Achub—achub.	Casglu—casgl.
Adfer, -yd (edfryd)—adfer.	Cau—cau.
Adnabod—(1) edwyn ;	Ceisio—cais.
(2) adwaen.	Celu—cêl.
Adrodd—edrydd.	Cerdded—(1) cerdda ;
Addef—addef.	(2) cerdd.
Agor, -yd—egyr.	Claddu—cladd.
Anfon—enfyn.	Clywed—clyw.
Arbed—(1) arbed ; (2) erbyd.	Codi—cwyd.
Aredig—ardd.	Colli—cyll.
Arfer, -yd—arfer.	Credu—cred.
Aro(s)—ery(s).	Crynu—crÿn.
Atal—(1) etyl ; (2) atal.	Cuddio—cudd.
Ateb—(1) etyb ; (2) ateb.	Cwympo—cwymp.
Atgyfodi—atgyfyd.	Cydnabod—cydnebydd.
Barnu—(1) barna ; (2) barn ;	Cyfaddef—cyfaddef.
(3) beirn.	Cyfarfod—cyferfydd.
Beiddio—baidd.	Cyffroi—cyffry.
Berwi—beirw.	Cyffwrdd—cyffwrdd.
Boddi—bawdd.	Cymell—cymell.
Brathu—brath.	Cymorth—cymorth.
Bwrw—bwrw.	Cymryd—cymer.
Bwyta—(1) bwyta ; (2) bwyty.	Cyniwair, -eirio—cyniwair.
Cadw—ceidw.	Cynllwyn—cynllwyn.
Cael—(1) ceiff ; (2) caiff.	Cynnal—cynnal.
Canu—cân.	Cynneu, -u—cynneu.
Canfod—cenfydd.	Cynnull—cynnull.
Caru—câr.	Cynnwys—cynnwys.
	Cynnig—cynnig.
	Cyrraedd—cyrraidd, -aedd.



- Cysgu—cwsg.  
 Chwalu—chwal.  
 Chwarae, -e—chwery.  
 Chwennych, -u—chwennych.  
 Chwerthin—(1) chwardd ;  
           (2) chweirdd.  
 Chwythu—chwyth.  
  
 Dadleu—dadleu.  
 Dadymchwel, -yd—dadym-  
           chwel.  
 Dal, -a—deil.  
 Dangos—dengys.  
 Danfen—denfyn.  
 Darfod—derfydd.  
 Darllain, -ein, -en—darllena.  
 Darostwng—darostwng.  
 Darpar—darpar.  
 Datod—detyd.  
 Datroi—detry.  
 Deall neu dyall—deall.  
 Dechrau, -eu—dechrau.  
 Derbyn—derbyn.  
 Dethol—dethol.  
 Dewis—dewis.  
 Dial—(1) dial ; (2) diail.  
 Dianc—dianc.  
 Diffodd, -i—diffydd.  
 Digwydd, -o—digwydd.  
 Dilyn—dilyn.  
 Dioddef—dioddef.  
 Diolch—diylch.  
 Disgwyl—disgwyl.  
 Disgyn—disgyn.  
 Dodi—dyd.  
 Dringo—dring.  
 Dwyn—dwg.  
  
 Dychrynu—dychryn.  
 Dychmygu—dychmyg.  
 Dychwelyd—dychwel.  
 Dyfod—daw.  
 Dymchwelyd—dymchwel.  
 Dyrchafael, -el, -u—dyrchaif.  
 Dyrnu—dyrn.  
 Dysgu—dysg.  
 Dywedyd—(1) dywed ;  
           (2) dywaid.  
 Edfryd (adfer, -yd)—adfer.  
  
 Edrych—edrych.  
 Eiriol—eiriol.  
 Eistedd—eistedd.  
 Ennill—ennill.  
 Ennyn—ennyn.  
 Erchi—eirch.  
 Erfyn—erfyn.  
 Erlid, -io—erlid.  
 Esgor—esgor.  
 Estyn—estyn.  
  
 Ffoi—ffy.  
  
 Gadael, -el, -u—gad.  
 Gado—gedy.  
 Galw—geilw.  
 Gallu—(1) gall ; (2) geill.  
 Genni—gain.  
 Glynu—glŷn.  
 Gochelyd—gochel.  
 Goddef—goddef.  
 Goddiwes neu goddiweddyd—  
           goddiwedd.  
 Gofyn—gofyn.  
 Golchi—gylch.

Goleuo—(1) goleua ; (2) golau.	Llenwi } lleinw.
Gollwng—gollwng.	Llanw }
Gomedd—gomedd.	Llefain—llefa.
Gorchymyn—gorchymyn.	Llithro—llithr.
Gorfod—gorfydd.	Llosgi—llysg.
Gorwedd—gorwedd.	Lluddias—lludd.
Gosod—gesyd.	Llyfu—llyf.
Gostwng—gostwng.	Llyncu—llwnc.
Grwgnach— <sup>1</sup> grwgnach.	
Gwadu—gwâd.	Maddeu—maddeu.
Gwahardd—gweheirdd.	Malu—mâl.
Gwanu—gwân.	Marchogaeth—merchyg.
Gwarchae—gwarchae.	Medi—med.
Gwarchod—gwerchyd.	Medru—medr.
Gwaredu—(1) gweryd ;	Meddwl—meddwl.
(2) gwarded.	Meiddio—maidd.
Gwasgar—(1) gwesgyr ;	Meddu ( <i>possess</i> )—medd.
(2) gwasgar.	(Heb ferfenw)—medd ( <i>says</i> ).
Gwatwar—gwatwar.	Moli—mawl.
Gweddillio—gweddill.	Myned, mynd—a.
Gweini—(1) gweinydd ;	Mynnu—myn.
(2) gweinydda.	
Gweled—(1) gwêl ; (2) gwyl.	Naddu—nadd.
Gwerthu—gwerth.	
Gwisgo—gwisg.	Para } —(1) parha ;
Gwlychu—gwlych.	Parhau } (2) pery.
Gwneuthur—gwna.	Peri—(1) pair ; (2) peir.
Gwrando—gwrendy.	Peidio—paid.
Gwybod—gwŷyr.	Perchi (parchu)—peirch.
Gyrru—gyr.	Plygu—(1) plyg ; (2) plyga.
	Pori—pawr.
Halogi—(1) Haloga ; (2) Helyg.	Profi—prawf.
Hebrwng—hebrwng.	Prynu—prŷn neu pryn.
Holi—hawl.	
Holli—hyllt.	
	Rhedeg—rhed.
Lladd—lladd.	Rhifo—rhif.

Rhoi (rhoddi)—(1) Rhy  
(rhydd); (2) dyry.

Rhwymo—rhwym.

Rhwystro—rhwystyr.

Sathru—(1) sathra; (2) sathr.

Sefyll—saif.

Sengi—sang.

Soddi—sawdd.

Somi (siomi)—(1) sym;  
(2) soma.

Sorri—syr.

Sychu—sych.

Syflyd—syfl.

Syrthio—syrth.

Tafu—teifl.

Talu—tâl.

Taro—tery.

Tewi—(1) tau; (2) taw.

Toddi—tawdd.

Torri—tyr.

Trigo—trig.

Troi—try.

Twyllo—(1) twyll; (2) twylla.

Tybio—(1) tyb; (2) tybia.

Tyfu—tyf.

Tyngu—twng.

Tynnu—tyn.

Tywallt—tywallt.

Tywys, -u—tywys.

Yfed—yf.

Ymadael, -el—ymâd.

Ymado—ymedy.

Ymafael, -el—ymefail.

Ymaflyd—ymeifl.

Ymchwelyd—ymchwel.

Ymdrechu—ymdrech.

Ymdroi—ymdry.

Ymddangos—ymddengys.

Ymddatod—ymddetyd.

Ymddiried—ymddiried.

Ymddwyn—ymddwg.

Ymddyrchafael, -el, -u—ym-  
ddyrchaf.

Ymgeisio—ymgais.

Ymgodi—ymgwyd.

Ymguddio—ymgudd.

Ymgyfodi—ymgyfyd.

Ymofyn—ymofyn.

Ymosod—ymesydd.

Ymostwng—ymostwng.

Ymroi (ymroddi)—ymry (ym-  
rydd).

Ymwasgu—ymwasg.

Ymweled—(1) ymwêl; (2) ym-  
wyl.

Ymwrthod—ymwrthyd.

Ymyrryd, -u, -aeth—ymyrryd.

Ysgogi—(1) ysgog; (2) ysgyg.

Ysgwyd—ysgwyd.

Ystyried—ystyr.

# GEIRFA.



A.	TUD.		TUD.
a, ac ( <i>and</i> ) .....	20, 48	anghyfartal .....	29
a ( <i>who, whom, which, that</i> ) ..	68,	anghyfarwydd .....	29
	69, 71, 113	anghytiawnder .....	29
â, ag ( <i>as</i> ) .....	63, 69, 113	anghyfleus.....	25, 29
â, ag ( <i>with</i> ) .....	20, 69, 94	anghyffredin .....	29
aberth .....	80	anghymedrol .....	28
abertha .....	80	anghymharol .....	29
actau .....	38	anghyson.....	29
acw .....	22	anghysur .....	29
achub.....	118	anghytuno .....	29
adail.....	30	anghywir .....	29
adain .....	57	ai—ae .....	82
adanedd .....	57	a'i .....	115
ad-daliad .....	38	â'i .....	115
ad-drefnu .....	38	ai....ai .....	115
adeilad.....	30	ail .....	50
adeiladu .....	30	amcan .....	80
adnabod .....	83, 84	amcana .....	80
adnabûm .....	19	amharod .....	29
adnabyddus .....	118	amhenodol .....	29
adref .....	102	amherchi .....	29
adwaen .....	83, 84	amherthnasol .....	29
addef .....	118	amhleidgar .....	29
addewid.....	59	amhosibl .....	21, 29
addo.....	106	amhriodol .....	29
addurno.....	13	amhrofiadol .....	29
aed .....	82	amhrydlon .....	29
ae—ai .....	82	amhwyllo .....	29
aethpwyd .....	82	amser .....	59
afiaith .....	31	amryw .....	74
afwyn .....	60	Amwythig .....	55
angen .....	12, 27	anallu .....	29
angharedig .....	25	anfad .....	29
anghariadus .....	29	anferth .....	29
anghrediniol .....	29	anfodlon .....	29
anghrist .....	29	anfòlon .....	29
anghristionogol .....	29	anfodd .....	29
anghydffurfiaeth .....	29	anfri .....	29
anghyfaddas .....	29	anhpegor .....	38
		anhrefn .....	28

anhrefnus . . . . .	28	athrawon . . . . .	119
anhrugarog . . . . .	28	athro . . . . .	119
anian . . . . .	59	awdr . . . . .	} 38
annatodol . . . . .	28	awdur . . . . .	
anneallus . . . . .	28	awduriaid . . . . .	} 39
annedwydd . . . . .	28	awduron . . . . .	
annefnyddiol . . . . .	28	awen . . . . .	60
annhebig . . . . .	} 28	awgrymu . . . . .	106
annhebyg . . . . .		awr . . . . .	32
annheg . . . . .	28, 29	awron . . . . .	27
annhegwch . . . . .	28		
annheilwng . . . . .	28	B.	
anniben . . . . .	28	baban . . . . .	58
annibynnol . . . . .	28	bach . . . . .	61
anniflan . . . . .	28	barau . . . . .	23
annioddefol . . . . .	28	barrau . . . . .	23
anniolchgar . . . . .	29	ber . . . . .	24, 34
annoeth . . . . .	28	berwi . . . . .	90
annog . . . . .	23, 107	blwch . . . . .	32
annuwiol . . . . .	28, 29	blwng . . . . .	62
annwyd . . . . .	17	blwydd . . . . .	36, 49
annwyl . . . . .	17, 24	blwyddyn . . . . .	36
annymunol . . . . .	28	blychau . . . . .	32
anobaith . . . . .	29	blynedd . . . . .	49
anochel . . . . .	29	blynyddoedd . . . . .	36
anogaeth . . . . .	23	bod 20, 32, 45—48, 76, 86, 104	
anorchfygol . . . . .	29	bodlon . . . . .	} 14, 15
anorfod . . . . .	29	bòlon . . . . .	
anorffen . . . . .	29	bôm . . . . .	20
anorffwys . . . . .	29	bore . . . . .	13, 33, 51
anrhaith . . . . .	27	brân . . . . .	58
aradr . . . . .	59	brenin . . . . .	13, 27
araith . . . . .	31	brenhinoedd . . . . .	27
areithiwr . . . . .	39	brwnt . . . . .	62
arfaeth . . . . .	31	brwydrau . . . . .	36
arfaethu . . . . .	31, 91	brych . . . . .	62
arhosaf . . . . .	27	brys . . . . .	17
arnunt . . . . .	} 15, 18	bu . . . . .	10
arnynt . . . . .		buasai . . . . .	83
astrus . . . . .	14	budr . . . . .	39
astud . . . . .	14	bûm . . . . .	19, 32
ateb . . . . .	22, 38, 85	bwâu . . . . .	20
atgas . . . . .	38	bwriadu . . . . .	106
atgyfodi . . . . .	38	bydd . . . . .	10
atunt . . . . .	} 15, 18	byddai . . . . .	83
atynt . . . . .			

byr . . . . .	34, 62	cilio . . . . .	80
bywhânt . . . . .	20	ciniaw . . . . .	59
		claeaf . . . . .	119
		clun . . . . .	119
		clust . . . . .	59
		clyw . . . . .	34
		cnau . . . . .	32
		cneuen . . . . .	32
		codi . . . . .	90
		coes . . . . .	59
		colomen . . . . .	58
		corau . . . . .	36
		corff . . . . .	18, 19
		corun . . . . .	14, 18
		cosb . . . . .	80
		cosba . . . . .	80
		creadigaeth . . . . .	59
		credadun . . . . .	18
		credu . . . . .	91
		crefaf . . . . .	107
		crocbren . . . . .	38
		crogi . . . . .	90
		croyw . . . . .	119
		crud . . . . .	18, 35
		crwm . . . . .	62
		crwn . . . . .	62
		cryd . . . . .	35
		cryf . . . . .	62
		crynu . . . . .	91
		cuddio . . . . .	17
		cur . . . . .	34
		cwbl . . . . .	39
		cwch . . . . .	32
		cwningen . . . . .	58
		cwpan . . . . .	59
		cwyd . . . . .	21
		cwyn . . . . .	21
		cwyr . . . . .	21
		cwys . . . . .	21
		cychod . . . . .	32
		cydnabûm . . . . .	32
		cydnabuwyd . . . . .	32
		cyfleus . . . . .	25
		cyflog . . . . .	59
		cyflogi . . . . .	90
		cyfryw . . . . .	113
		cyngor . . . . .	27
C.			
cadwyn . . . . .	35, 60		
caed . . . . .	82		
cael . . . . .	82, 86, 91, 107		
caeodd . . . . .	32		
cafod . . . . .	35		
cafwyd . . . . .	82		
camre . . . . .	33		
cân . . . . .	17, 24		
can . . . . .	49		
canfu . . . . .	32		
canfuost . . . . .	32		
canfûm . . . . .	19, 32		
canfuwyd . . . . .	32		
cangau . . . . .	57		
cainc . . . . .	57		
caled . . . . .	61		
caniadau . . . . .	36		
caniatau . . . . .	21, 106		
canmolaf . . . . .	114		
cannu . . . . .	17, 22		
cannwyll . . . . .	43		
cânt ( <i>they shall have</i> ) . . . . .	20		
cant ( <i>he sang</i> ) . . . . .	120		
canu . . . . .	17, 22, 90		
capten . . . . .	11, 38		
caredig . . . . .	25		
cartref . . . . .	102		
caru . . . . .	90, 91		
cath . . . . .	58		
cawod . . . . .	35		
cefn . . . . .	39		
ceisio . . . . .	80, 107		
celain . . . . .	57		
celanedd . . . . .	57		
cenau . . . . .	119		
enedl . . . . .	27		
cenhedloedd . . . . .	27		
ceninen . . . . .	27		
cerdded . . . . .	88		
cerddediad . . . . .	88		
cilia . . . . .	80		

cynghorau	27
cynghori	107
cyhuddo	17
cyhyd	63
cymaint	22, 63, 113
cymar	27, 32
cymerodd	120
cymell	27, 33, 105, 107
cymerth	120
cymharu	32, 118
cymhariaeth	32
cymhelliad	27
Cymraeg	22, 59
cymrawd	21
Cymro	22
Cymru	22
cymryd	10, 22, 120
cymun	14
cyn	43, 63, 64
cyn gynted	12
cynifer	113
cynhaliodd	27
cynhaeaf	32
cynnal	27
cynnes	27
cynnig	16
cynnyg	16
cynnwys	24
cyntaf	50
cyrraedd	27
cyrhaeddodd	27
cysegr	22
cystal	63
cysylltiad	22
cytir	37
cytûn	19

## CH.

chwaethus	33
chware,-ae	33
chwe	49
chwedl	59
chwephunt	19
chwyldroi	119

## D.

da	61
daear	31, 32, 119
daeargryn	59
daearol	32
daethpwyd	82
dagrau	57
daint	57
dal	104
damwain	59
dangosaf	27
dannedd	57
darganfûm	32
darganfuwyd	32
darffai	86
darllen	12
darllain	12
datguddio	38
dau	49
deffry	80
deng	49
dehau	27
deigr	57
delai	83
deuddeng	49
deunaw	49
deuwyd	82
diane	118
diben	11, 30
dibennu	30
dibyniad	23
dibynnu	23, 30
dieter	38
didoli	30
diddanu	30
diddordeb	30
diddori	30
diddorol	12, 30
diddos	30
diddyfnu	30
diddymu	30
dieithr	30
dieithriaid	30
diferu	30
diffaith	30, 31
diffeithwch	31

differth ..... 120  
 diffryd ..... 120  
 digwydd ..... 30  
 digwyddodd ..... 10  
 dihangodd ..... 27  
 dihareb ..... 27, 85  
 dilyn ..... 30  
 dilyw ..... 34  
 dinas ..... 59  
 dinistr ..... 119  
 dinistrïo ..... 30  
 dinoethi ..... 30  
 dioddef ..... 30, 118  
 diogelu ..... 30  
 disglair ..... 30, 31  
 disgleirio ..... 30, 31  
 disgrifio ..... 30, 119  
 disgwyl ..... 17, 30  
 disgybl ..... 30  
 disgyblu ..... 30  
 distaw ..... 30  
 distryw ..... 34  
 disyml ..... 30, 119  
 diwinydd ..... 35  
 diwinyddiaeth ..... 35  
 diwrnod ..... 49  
 dofn ..... 34  
 dolur ..... 13  
 dolurus ..... 33  
 drwg ..... 61, 62  
 drycin ..... 37  
 dug ..... 12, 85  
 dwfn ..... 34, 62  
 dwg ..... 12, 85  
 dwy ..... 49  
 dwyn ..... 85  
 dy ..... 17, 20  
 dybryd ..... 30  
 dychan ..... 30  
 dyfod ..... 82, 86  
 dyfyniad ..... 23  
 dyfynnu ..... 23  
 dymunaf ..... 107  
 dymuno ..... 17  
 dyn ..... 17, 18, 20  
 dyrys ..... 33  
 dyrysu ..... 33

dysgawdr ..... 30, 39  
 dysgeidiaeth ..... 30  
 dysgodron ..... 39  
 dysgu ..... 104  
 dywedyd ..... } 16, 84  
 dywedud ..... }

## E.

eb ..... 84  
 ebe ..... 84  
 ebr ..... 84  
 edliw ..... 118  
 edrydd ..... 80  
 edwyn ..... 80  
 ehud ..... 27  
 ei gilydd ..... 39  
 eisïau ..... 17  
 elai ..... 82  
 elain ..... 57  
 elanedd ..... 57  
 eneinio ..... 27  
 enillion ..... 27  
 enillodd ..... 23  
 enmill ..... 23  
 enwi ..... 90  
 er ..... 94  
 erbyd ..... 82  
 erchi ..... 90, 105  
 eryr ..... 58  
 Eseiã ..... 28  
 eto ..... 22  
 ewyllys ..... 59  
 ewyllysio ..... 106

## F.

fel ..... 88, 108, 113, 116  
 fry ..... 17, 51  
 fy ..... 17, 20

## FF.

ffilosoffi ..... 19  
 Ffranceg ..... 34  
 ffrind ..... 19  
 ffunud ..... 34



ffurf .....	13
ffynhonnau .....	27
ffyniant .....	24
ffynnon .....	27
ffynnu .....	24

## G.

gadael .....	106
gaeaf .....	32
gaeafu .....	32
galw .....	108
galluogi .....	108
gan .....	94, 114
gartref .....	102
ger .....	114
gilydd, ei .....	39
glanhâ .....	20
glanhâd .....	20
glanhâf .....	20
glaw .....	14
glwth .....	62
gloyw .....	119
godre .....	13, 33
gofyn .....	106
gohebu .....	85
gorau .....	37
goreu .....	37
gorchymyn .....	106
gorffai .....	86
gorffwys .....	19
gormod .....	14
griddfan .....	119
grym .....	33
grymus .....	33
gwacaf .....	38
gwadu .....	91
gwaedu .....	91
gwahardd .....	105
gwahodd .....	108
gwâl .....	19
gwant ( <i>he pierced</i> ) .....	120
gwâr .....	19
gwarafun .....	106
gwaun .....	31
gwayw .....	119
gwedrod .....	14
gweddrod .....	14
gwedy .....	108
gweddïo .....	17
gweiddi .....	91
gweinidog .....	27
gwelwi .....	90
gwên .....	19
gweniaith .....	31
gŵer .....	17
gwêr .....	17
gwerthwr .....	39
gweryddon .....	119
gweunydd .....	31
gwlyb .....	62
gwlyped .....	38
gwnaed .....	82
gwnâi .....	20
gwnaethpwyd .....	82
gwnelai .....	83
gwneuthur .....	82, 84, 86, 106
gwniadur .....	59
gŵr .....	19
gwragedd .....	57
gwraig .....	57
gwrthod .....	106
gwrthrych .....	38
gwybûm .....	19
gwyh .....	62
gŵydd .....	21
gwŷdd .....	21
gwyllt .....	63
gwyn .....	23, 62
gŵyr .....	21
gwŷr .....	21, 23
gŵyrdroi .....	119
gwyRDD .....	62
gwyry .....	119
gyda .....	94

## H.

haearn .....	31
hagr .....	61
haint .....	33
haul .....	31, 59
hawddgar .....	61
heddiw .....	16
heddyw .....	16

heintus .....	33
hen .....	20
herio .....	108
Heseceia .....	28
heulog .....	31
heulwen .....	31
heuwr .....	32
hin .....	18
hoyw .....	119
hun .....	18
hwn .....	62
hwylia .....	80
hy .....	119
hyd .....	108
hyd yn oed .....	12
hŷn .....	18
hysb .....	62
hysbys .....	33
hysbysu .....	33

I.

Iacob .....	18
Iddas .....	15
Iddew .....	14, 35
Iddewon .....	35
Iehofa .....	28
Ierusalem .....	18
i .....	114, 118
i fyny .....	36
im .....	116
i'm .....	116
Iona .....	18, 28
isgehl .....	15
Italeg .....	34
Ithel .....	35
Iudea .....	18
Iwerddon .....	55

LL.

ll .....	42, 49
lladron .....	57
lladrones .....	58
llafurus .....	33
llawer .....	96
llawr .....	32

lie .....	20, 108, 118
lledu .....	91
lleidr .....	57, 58
llenwi .....	118
lloriau .....	32
llwm .....	62
llwyd .....	35
llym .....	62
llys .....	59

M.

machlud .....	14
mae .....	76
maen .....	31
mai .....	110
malu .....	91
mam .....	25
man .....	58, 59
maneg .....	25
math .....	113
medi .....	91
megis .....	108
meini .....	31
melyn .....	62
melys .....	33
melysach .....	33
melystra .....	33
melysu .....	33
Meseia .....	22
Mesia .....	22
methu â .....	117
mewn .....	95, 114
mi .....	114
minnau .....	112, 114
misgl .....	17
modd .....	88
mor .....	43, 63, 64
munud .....	33, 36, 59
mur .....	34
mwill .....	62
myn .....	24
myned .....	82, 86
mynegi .....	90
mynnu .....	106
mynyddoedd .....	35

## N.

na	52, 66, 116, 118
na(c)—na(c)	115
nâd	20
nad	20, 110
nadredd	57
nas	66
natur	25
naw	49
neb	72
nef	59
neidr	57
nes	109
neshau	21
ni	52, 66, 116, 118
nis	66
nod	20
nyddu	91

## O.

o ( <i>from</i> )	118
o(s) ( <i>if</i> )	67, 108, 111
odid	116
oddiar	94
oedi	90
oeri	90
oes	76
oes oesoedd	36
ofn	38
ofni	90
ol	20
olrhain	27
oll	20, 26, 75
oni	52, 66, 87, 88, 117, 118
onis	66
onn	17, 24
oriau	32

## P.

pa	71, 73, 95
pa fodd	116
paham	26
pan	71, 87, 88, 108
paratoi	11, 34
parhau	21, 104
parod	34

partiöl	24
pawb	39, 95
pe	66, 108, 111, 118
pechadur	13, 38
peidio â	80, 117
pen	19
penderfynu	90, 91
pennau	19
pennu	91
perchi	90, 91
parchu	90, 106
peri	90, 106
perigl	16
perygl	16
perthynas	58
pes	66
peth	51
piau	71
pioedd	71
plâu	20
plentyn	17, 58
pob	95
pob un	39
pobl	39
poeni	90
popeth	37
pregethwr	39
profedigaeth	58
profi	90
pryd	108, 116
prynwr	39
pum	49
pump	71
pur	34
pwyl	71, 95
pwyll	21

## PH.

Pharisead	18
Philistiad	18
Phylip	18

## RH.

rh	42, 49
rhaeadr	31
rhai	74, 96

rhianedd ..... 57  
 rhiain ..... 57  
 rhieingerdd ..... 57  
 rhieingerddi ..... 57  
 rhodio ..... 80  
 rhyd ..... 17  
 Rhydychen ..... 11  
 rhydd ..... 63  
 rhyw ..... 74, 75  
 rhywrai ..... 75  
 rhywun ..... 75

S.

saer ..... 31, 32  
 Saesneg ..... 34, 58  
 Saesnes ..... 34, 58  
 Saeson ..... 34  
 saeth ..... 31  
 saetha ..... 80  
 saethu ..... 31, 91  
 Sais ..... 34, 58  
 saith ..... 49  
 sarff ..... 18, 19  
 sawdl ..... 39  
 sawl ..... 72  
 sengi ..... } 90, 91  
 sangu ..... }  
 seiri ..... 31, 32  
 siomi ..... 90  
 soniaf ..... 24  
 sonnir ..... 24  
 soriant ..... 23  
 sorri ..... 23  
 swper ..... 59  
 sy ..... } 37, 70, 71, 76, 78  
 sydd ..... }  
 sych ..... 62  
 sydyn ..... 17  
 sylfaen ..... 32  
 sylfaenydd ..... 32  
 sylfeini ..... 32  
 syth ..... 62  
 sylwi ..... 90

T.

tad ..... 20  
 tafarn ..... 59

taeog ..... 119  
 taenu ..... 31  
 taer ..... 31  
 taeru ..... 31  
 tâl ..... 17, 19  
 talaith ..... 31  
 tân ..... 24  
 tanau ..... 22, 23  
 tannau ..... 22  
 tarfu ..... 91  
 taw ..... 110  
 tebig ..... } 16  
 tebyg ..... }  
 teg ..... 20  
 tery ..... 80  
 testun ..... 14, 18  
 ti ..... 114  
 tithau ..... 112, 114  
 tloty ..... 37  
 tlws ..... 62  
 to ..... 20  
 ton ..... 24  
 tôn ..... 17, 19, 24  
 tonau ..... 17, 22, 23  
 tonnau ..... 17, 23  
 toriad ..... 23, 24  
 torri ..... 23, 24  
 tra ..... 87, 88, 117  
 traean ..... 31  
 traethu ..... 90  
 trajedi ..... 18  
 trefnu ..... 91, 106  
 trengi ..... 90  
 tri ..... 49  
 troed ..... 59, 82  
 troi ..... 82  
 trôl ..... 20  
 trowyd ..... 82  
 trwm ..... 62  
 tua ..... 118  
 tŷ ..... 17, 19, 20  
 tycia ..... 80  
 tycio ..... 80  
 tyle ..... 33  
 tymer ..... 27  
 tymherus ..... 27  
 tymhorau ..... 27

tymor .....	27	ychen .....	11
tynu .....	91	ydynt.....	78
tyst .....	58	y dyn .....	58
tywyll .....	34, 62	y ddyn .....	58
		ynghylch .....	45
		ynglŷn â .....	45
		ym, ydym, &c. ....	17
		ymerodron .....	39
		ymhen .....	45
		ymherawdr .....	38, 39
		ymlaen .....	45
		ymhlith .....	45
		ymhob .....	45
		yn .....	17, 41, 43, 44, 52, 95
		y neb .....	72
		ynn .....	24
		yntau .....	112
		y rhai .....	74
		yr holl .....	75
		yr hon .....	71, 74
		yr hwn .....	71, 74
		y sawl .....	72
		y sydd .....	70
		ysgrifennu .....	23, 90
		ysgrifennwyd .....	23, 24
		ysgrifenwyr.....	23
		ysgrythur } .....	14, 18, 34
		ysgrythyr }	
		yw, ydyw .....	76

## U.

ugain .....	49
un.....	43, 49
un ar hugain .....	26
urdd .....	13
utgorn .....	38

## W.

wrthynt .....	} 15
wrthunt .....	
ŵy .....	35
wybren .....	35
ŵyn .....	21, 23
wyneb .....	12, 35
ŵyr .....	21, 23
wyth .....	49
wythnos .....	35

## Y.

y, yr, 'r ( <i>the</i> )...	17, 43, 53—55
y, yr ( <i>who, whom, which,</i> <i>that</i> ) .....	68, 71

## DIWEDD.

# LLYFRAU I BLANT.

---

## **TYNNU CHWYN. A GWERSI EREILL I BLANT:**

23 o Ystorïau swynol, a 14 o Ddarluniau dèl, gan T. SALSBRI JONES. Llian, 1/9.

“Y mae'n hyfrydwch gennym gael galw sylw at 'Tynnu Chwyn.' Medd yr Awdur ddoniau amryfal; y mae'n fardd, yn llenor, ac yn arlunydd gwych. Llongyfarchwn ef a'r cyhoeddwyr am 'droi allan' un o'r llyfrau tlysaf ar gyfer bechgyn a genethod Cymru. Dylai gael cylchrediad eang.”—*Trysorfa y Plant.*

“Dyma gyfrol hynod o ddèl a chyfaddas i blant, wedi'i hysgrifennu gan lenor o filwr yn Ffrainc. Gwnelai anrheg gyfaddas iawn i fachgen neu eneth. Y mae'n ddifyr, syml, byr a diddorol.”—*Seren Gomer.*

## **GORONWY AR GRWYDR: Llyfr Iaf. "Italia Dlos."**

Gan GORONWY JONES. Gyda 10 o Ddarluniau hardd. Llian, 1/3.

## **GORONWY AR GRWYDR:**

*All Lyfr, "Hen Wlad y Caethiwed."*

Gan GORONWY JONES. Gyda 13 o Ddarluniau hardd. Llian, 1/3.

Y DDAU LYFR YN UN GYFROL, LLIAN, 2/6.

## **LLYFR ADAR (Adar Cymru).**

Gan R. MORGAN, Llanarmon. Gydag 16 o Ddarluniau Adar yn eu lliwiau naturiol. Llian, 2/6.

HEFYD MEWN TRI O LYFRAU, LLIAN YSTWYTH, 1/- YR UN.

## **DAVID DAVIES, LLANDINAM, 1818-1890**

Gan GORONWY JONES. Gyda 18 o Ddarluniau da. Llian, 2/6.

## **Y GWIR ANRHYDEDDUS D. LLOYD GEORGE**

Gan y PARCH. THOS. MORGAN. Gyda 5 o Ddarluniau. Llian, 2/6.

## **TLYSAU YNYS PRYDAIN: Cypdrem I Oes Arwraldd y Cymry.**

Gan H. BRYTHON HUGHES. Gyda Map a Darluniau. Llian, 2/6.

## **I'R AIFFT AC YN OL**

Gan y PARCH. D. RHAGFYR JONES. Gydag 8 o Ddarluniau. Llian, 2/6.

---

Hughes & Son, Cyhoeddwyr, Wrexham.

# LLYFRAU I BLANT

---

## YR YSGOL GYMRAEG

Llyfr Darllen diddorol a hawdd ei ddeall i blant Cymru. Gan O. JONES OWEN, Athro Cymraeg Ysgol Uwchraddol Porth. Cynhwysa 28 o benodau ar ddull Ymddiddan a Dadl, ac 16 o Ddarluniau. Llian, 2/-

“Y mae'n llawn Ystraeon a fydd wrth fodd calon plant.”—*Y Goleuad*.

“Y mae'n hudolus o swynol.”—*Yr Athraw*.

## O OES I OES

Enghreifftiau o ryddiaith Gymraeg o'r dechreu hyd heddyw. Gan T. GWYNN JONES, M.A. Gyda Nodiadau, Geirfa, a Darluniau. Llian 2/-

“Llyfr tan gamp ydyw hwn. Y mae ynddo ddeugain o ddeholion penigamp, a'r rhan fwyaf ohonynt yn dra difyr.”—*Llais Rhyddid*.

## YN OES YR ARTH A'R BLAIDD

Ystori Hanes gan T. GWYNN JONES, M.A. Gyda Darluniau. Llian, 1/3.

## ER MWYN Y GWR A GARAI

Ystori Ddirwestol gan OLIVER DON. Gyda Darluniau. Llian, 1/3. Amlen, 9c.

## OWEN GLYNDWR

Gan L. J. ROBERTS, M.A. Gyda Darluniau. Llian, 1/3.

## TEULU BACH NANTOER

Ystori swynol gan MOELONA. Gyda Darluniau. Llian, 1/-

## RHAMANT PLAT Y PREN HELYG

Ystori swynol o China. Gan H. BRYTHON HUGHES. Gyda Darluniau. Llian 1/-

## STRAEON Y CYFNOS

Wyth o straeon i blant. Gan W. M. ROBERTS. Gyda Darluniau. Llian, 9c.

## ESGIDIAU HARRI

Ystori ddifyr i blant. Gan W. C. WILLIAMS. Gyda Darluniau. Llian Ystwyth, 7c.

## CWSGI, YR HOGYN DIOG

Ystori mewn Cymraeg syml. Gan W. C. WILLIAMS. Gyda Darluniau. Llian Ystwyth, 7c.

---

Hughes & Son, Cyhoeddwyr, Wrexham.





